



kimkat.org – Gwefan Cymru a Chatalonia

[http://www.kimkat.org/amryw/1\\_testunau/sion\\_prys\\_040\\_gwr-y-dolau\\_w-llewelyn-williams\\_1899\\_FDG-PDF\\_2639fdg.pdf](http://www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_040_gwr-y-dolau_w-llewelyn-williams_1899_FDG-PDF_2639fdg.pdf)

## **GWR Y DOLAU neu FFORDD Y TROSEDDWR**

Blwyddyn: 1899

Awdur: William Llewelyn Williams (1867-1922), brodor o Lansadwrn, Sir Gaerfyrddin.

“Ysgrifenydd y rhan fwyaf o’r stori hon bum mlynedd a rhagor yn ôl yng ngholofnau’r *South Wales Weekly Post*, dan y teitl ‘Clwb yr Hosan Lâs.’ ”

Ceir fersiwn ar ffurf tudalen IAH-HTML yn y fan hon:


[http://www.kimkat.org/amryw/1\\_testunau/sion\\_prys\\_040\\_gwr-y-dolau\\_w-llewelyn-williams\\_1899\\_01\\_2639k.htm](http://www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_040_gwr-y-dolau_w-llewelyn-williams_1899_01_2639k.htm)

(IAH = Iaith Arwyddnodi Huperdestun / HTML = Hypertext Markup Language)

Creuwyd y tudalen hwn FDG-PDF: 20-12-2020



(delwedd 8112)



**GWR Y  
DOLAU**  
NEU  
FFORDD Y TROSEDDWR

GAN  
**W. LLEWELYN  
WILLIAMS, M.A.**  
BUNDALN  
AWDWR  
"CWILYN A BENNI BACH"  
etc.  
CAERNARFON.  
SWYDDFA "CYMRU."

PRIS  
SWLLT.

J.R. Hughes

1270a

(delwedd 1270a)

t 3

Cyflwynedig gan Ysgol Sul  
Horeb Gelligaer i

David John Davies  
am ei ffyddlondeb yn ystod y  
ffwyddyn 1916.

Rhif posibl 47  
Yn bresenol 32.

Philip Richards  
Arl.  
Ray Phillips  
Ysw.

Cyflwynedig gan Ysgol Sul  
Horeb Gelligaer i  
David John Davies  
am ei ffyddlondeb yn ystod y  
ffwyddyn 1916.

Rhif posibl 47  
Yn bresenol 32.

Philip Richards Arl.  
Ray Phillips Ysw.

# GWR Y DOLAU:

NEU

FFORDD Y TROSEDDWR.

---

GAN

W. LLEWELYN WILLIAMS.

---

CAERNARFON :

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDwyD GAN GWYBODAETHOL  
GYMRIG (CYF.).

## RHAGDRAETH.

---

**Y**SGRIFENWYD y rhan fwyaf o'r stori hon bum mlynedd a rhagor yn ôl yng ngholofnau'r *South Wales Weekly Post*, dan y teitl "Clwb yr Hosan Lâs." Ar gais amryw gyfeillion yr wyf wedi taflu rhai o'r penodau at eu gilydd, ac ychwanegu ereill atynt, ar ffurf nofel. Os y rhydd fwyniant mynodyn i'r darlennydd, neu os cynhyrfir drwyddi ysgrifenydd arall, mwy ei fedr a'i ddawn, i ddarlunio bywyd Cymru, fel y gall dieithriaid ganfod ei swyn ac y gwnef pobl y wlad eu hunain ei ddeall a'i werthfawrogi, caf ragor o dâl nag a haeddais am fy llafur.

Ni fu Seisnigaeth erioed yn fwy peryglus i brydferthwch a gwerth y bywyd Cymreig nag ydyw heddyw. Mae ein hysgolion a'n colegau, y newyddiaduroz a'r rheilffyrdd, yn gwasgaru dylanwadau Seisnigaidd dros yr holl wlad. Os na erys ein gwyr ieuanc dysgedig yn Gymry Cymreig, mewn iaith ac ysbryd ac arferion, neu os gwnant adaw i'r miloedd o'u cydwladwyr, llai eu dysg, newynu o eisieu llenyddiaeth bur ac iachus yn eu hiaith eu hun, ni fydd ein haddysg, yr aberthodd ein tadau syml gymaint er ei fwyn, ond maldod gwlad a gelyn pob gwir ddiwylliant a chynydd. Nid er rhoddi byd da i ychydig, ond er codi y llawer, y sefydlwyd addysg yng Nghymru, a'r Gymraeg yw'r unig gyfrwng y gellir gwneyd hynny drwyddo. Os na ddyrchefir hi i fod eto yn offeryn diwylliant a llenyddiaeth fyw, ni fydd iaith ei fam o fwy lles i'r Cymro nag yw ei lediaith i farbariad. Gobaith goreu Cymru ydyw y cesglir yn y genhedlaeth hon gynhauaf addfed o lyfrau Cymraeg, fydd yn gosod gwerth i Saeson a Sais-Gymry ar wybodaeth o'r Gymraeg, ac a fydd ar yr un pryd yn lloni, yn prydferthu, ac yn cyfoethogi ein bywyd Cymreig.

Gwn yn dda amherffeithderau'r stori hon. Ni dderbyniais gyfarwyddyd gan neb pa fodd i ysgrifenu Cymraeg, er i mi gael llawer cynghor pa fodd i'w sillebu. Ysgrifenis, gan hyny, fel y dysgwyd i mi siarad, heb athraw na thywysydd ond fy llygad a'm clust a'm cof.

Pe bai'r hen arferiad yn aros o gyflwyno llyfr i gâr neu gyfaill, buaswn yn mentro cyflwyno hwn i sylw cariadus hen aelodau Cymdeithas Dafydd ap Gwilym yn Rhydychen. Ychydig wyddwn am lenyddiaeth a hanes Cymru pan ffurfiwyd y Gymdeithas gyntaf yn 1886, ac nis gwyddwn nemawr yn rhagor, yn wir, pan ymadewais a hi yn 1889. Ond planwyd ynof fi, fel ym mhob aelod arall o honi, gariad at Gymraeg a Chymreigaeth, a lŷn wrthym, mi hyderaf, tra byddwn byw.

W. LL. W.

*Temple, Llundain,*

*Mai 1899.*

# GWR Y DOLAU:

NEU

## FFORDD Y TROSEDDWR.

---

### RHAGARWEINIAD.

Pe chwilid Llundain ben-bwy-gilydd, nis digwyddid ar gwmni mwy difyr nag a welid yn ystafell "Bob 'y mrawd," a Gladys, ei chwaer, ar nos Wener cyn Nadolig, 1895, yn No. 2, Cambridge Mansions, gerllaw'r Amgueddfa Brydeinig. Wrth edrych ar y gwynebau llon, a gwrando ar y rhialtwch trysfawr, anhawdd fuasai gan neb gredu fod gofal byd yn blino un o'r fintai ddiddan. Eto, nid oedd y llawenydd ond arwynebol, oblegid wedi dod i ffarwelio â Bob yr oedd ei gyfeillion.

Gyda'r wawr dranoeth yr oedd Bob yn hwylio tua Deheubarth Affrica, ac nis gwyddai neb pryd y gwelid ef drachefn yn Cambridge Mansions. Gofidiai degau ac ugeiniau o Gymry ieuaino y Brifddinas pan glywsant y newydd.

"Robert Bowen yn 'madel!" meddent. "Beth ddaw o'r Eisteddfodau a'r Cyngherddau a'r Cyrddau Diwylliadol pan na fydd ef gyda ni?"

Canys nid oedd un cyfarfod Cymreig yn gyflawn yn Llundain er ys blynyddau heb Bob, a galerid ar ei ôl gan lu nas awdaenai ef mo'u gwynebau.

Ond ymaith yr oedd yn rhaid i Bob gychwyn, ac i bellderoedd daear. Newyddiadurwr oedd Bob o ran ei "grefft." Yr oedd



si yn y gwynt fod Cecil Rhodes yn cynllunio rhywbeth mawr, a phenderfynodd perchenogion newyddiadur Bob ddanfôn gohebydd arbenig i Ddeheubarth Affrica. Gan fod Bob wedi enill ymddiriedaeth y golygydd, arno ef y syrthiodd y goelbren. Nid gwiw iâdo feddwl am ballu; yr oedd y cyfle yn rhy werthfawr i'w wrthod; ac er mor galed ymadael, a thori eu cartref bach i fyny, penderfynodd Gladys a Bob gadw eu calon yn siriol, gan edrych yn hytrach at daledigaeth y gwobrwy, pan y cawsent gydyfarfod drachefn ar ol llawer o ddyddiau.

"Bob 'y mrawd" y gelwid Robert Bowen gan ei holl gydnabod, am mai fel hyny y byddai Gladys yn son am dano,—byth oddiar pan ddechreuodd Winnie Parry ysgrifenu hanes y teulu hapus hwnw yn sir Gaernarfon. Nis gallai neb, meddai Gladys, fod wedi ysgrifenu am "Bob" heb yn gyntaf adnabod ei brawd. Ni chodwyd yng Nghymru erioed fachgen mwy hynaws a serchog na Robert, ac nis gallai neb, yn enwedig os meddai galon agored a chynes, aros yn hir yn ei gwmmi heb ei alw yn "Bob" neu "Bob 'y mrawd." Yr oedd golwg ar ei wyneb hawddgar, a swm ei chwerthiniad iachus, "yn gystal a phythewnws o fôr," yn ol tystiolaeth Sali Nat, "ag yn well na galwyni o foddion doctor." Er mor felus ei natur, cafodd lawer dyrnod chwerw wrth ymladd â'r byd. Collodd ei rieni pan yn ieuanc, ac er nad oedd ond wyth ar hugain oed, yr oedd wedi bod yn enill ei damaid ar newyddiaduron er's deuddeng mlynedd. Bu'n brwydro'n galed am flynyddau, ond erbyn Nadolig 1895 yr oedd wedi sicrhau iddo ei hun safle cysurus, ac yr oedd ei chwaer fach—oblegid yr oedd Gladys wyth mlwydd yn iau nag ef—wedi bod yn "cadw ty" iddo er ys yn agos i ddwy flynedd. Dyma'r adeg ddedwyddaf yn mhrofiad Bob,—pan y bu ef a Gladys fyw gyda'u gilydd yn Cambridge Mansions; nis gwyddai ef beth oedd ystyr "cartref" o'r blaen; ac nid oedd yn rhyfedd fod ei galon yn trymhau wrth feddwl am ffarwelio—feallai am byth—â'r chwaer yr hon oedd ei unig berthynas agos yn y byd.

Nid rhyfedd, meddaf, fod Bob yn drist, a phe bae tithau, ddarllenwydd mwyn, yn adwaen Gladys, ni fuaset yn synu oherwydd ei ofid. Ni chymeraf arnaf ei disgrifio hi. Nid oedd o daldra mwy na chyffredin, ond gan mor lluniaidd a gweddeiddlwys ei chorff, mor urddasol ei hosgo, mor ysgafn ei cherddediad, ymddangosai yn llawer talach nag yr oedd. O! nas gallwn dynu dariun o'i gwyneb fel yr oedd y boreu hwnw,—ei llygaid glasddu treiddgar yn edrych yn hiraethus ar Bob, a phelydr haul y gauaf

yn chwareu yn ei gwallt ac yn goreuro ei gydynau sidanaidd! Yr oedd pob symudiad o'i heiddo, i feddwl Bob, yn llawn barddoniaeth fyw, ac yr oedd yn barod i gredu mai nid ei chwaer oedd hi, ond rhyw Ddychymyg Bardd wedi dianc allan o Riangerdd Gymraeg ac wedi gwisgo pryd a gwedd. Pe gwelsai Dafydd ab Gwilym hi, nid am Forfudd neu Ddyddgu y canasai, ond am Gladys! Anghofiasai Ceiriog ei Fyfanwy, a Mynyddog ei Wen, ie, alltudiai Elfed ei Wenddolen, pe gwelsent hwy hi! Pan ddaeth allan gyntaf fel cantores—canys nid oedd yn anenwog ar y llwyfan—mogai feirniadaeth cyn y canai nodyn, a pherai i bob critic pigog deimlo, fel Balaam gynt—fod angel yn sefyll ar ffordd ei lid a'i genfigen.

Peth rhyfedd yw dechreu siarad am Gladys! Nid oes modd ar ol hyny gwneyd dim—ond son am dani hi. Ond i fyned ymlaen a'm stori, goreu gallaf.

Pan ddaeth yr alwad at Bob i hwylio i Ddeheubarth Affrica, petrusai am amser beth ddylai Gladys wneyd. Yr oedd hi am fyned gyda Bob, ar y cyntaf, ond ar ol ystyried canfu y buasai hyny yn dyblu y draul. Yna cynygiodd aros yn Llundain; ond ni fynai Bob mo hyny ar un telerau. Ynghanol eu petrusder, daeth llythyr i law oddiwrth eu perthynas agosaf, sef Mrs. Morris, y Gelli, Llanelwid. Cyfnither oedd hi i'w tad, a galwent hi, yn ol yr hen arfer Gymreig, yn "Nanti Jane." Bu yn garedig iawn i'r ddau, ac yn enwedig i Gladys, pan adawyd hwynt yn amddifaid. Nid oeddynt hwythau wedi anghofio ei charedigrwydd, ac nid oedd dim a hoffent yn fwy na gwario wythnos neu ddwy bob blwyddyn yn yr hen ffermdy. Nis gallaf roddi llythyr Mrs. Morris fel yr ysgrifennodd hi ef,—oblegid, boed hysbys i ti, ddarlennydd, i Mrs. Morris gael ei chodi mewn *boarding-school* yn Abertawe, ac nad yw hi byth yn ysgrifenu llythyr ond yn Saesneg. Ond, os goddefir i mi, rhoddaf led-gyfieithiad brysiog o hono.

"Yr oedd yn falch iawn genyf glywed," meddai yn y llythyr, "eich bod yn dod ymlaen mor dda ar y papyr, ac yr wyf yn dymuno pob llwydd i chwi yn Affrica. Y mae y' mhell iawn i chwi fyn'd a gadael Gladys, druan, ond y mae ochr olau i bob cwmwl. 'Rwy'n hyderu y daw Gladys 'nawr i fyw gyda fi yn y Gelli hyd nes y dychwelwch o'ch taith. Yr wyf fi yn myn'd yn hen, a da fyddai genyf weled fy unig berthynasau o'm hamgylch yn y ty. Trueni nas gellwch chwi, Bob, roddi tro cyn ymadael, ond nid oes dim i'w wneyd gan y dywedwch fod hyny yn amhosibl. Danfonwch air i ddweyd pa bryd y caf ddisgwyl Gladys."

Nid dyna'r llythyr i gyd. Gadewais allan gynghor Mrs Morris i Bob i gario ei Feibl yn wastad gydag ef, a digon o "wlaneni bach." "Rwy'n cofio darllen," meddai'r hen wraig, "am genhadwr unwaith oedd bob amser yn cadw ei Feibl yn llogell ei frest, ac un tro ymosodwyd arno gan haid o'r paganiaid, a saethodd un ato. Ond er eu syndod, ni syrthiodd y cenhadwr, a hwythau wedi eu dychrynu a ffoisant. Yna'r cenhadwr a dynodd allan ei Feibl, gan feddwl ei ddarllen cyn diolch am ei waredigaeth wyrthiol. Pan agorodd ef, gwelodd fod y *bullet* wedi treiddio drwy'r clawr i ganol y llyfr, ac yr oedd wedi sefyll gogyfer a'r adnod, 'Ie, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angy, nid ofnaf niwed; canys yr wyt ti gyda mi.'"

Siarsai ef hefyd i beidio colli un cyfle i efengyleiddio'r *blacks*; a gofynai i Gladys i brynu par o *mittens* iddi hi, gan fod pethau mor ddrud yn siop Morgans yn Llanelwid.

Ac felly penderfynwyd mai i'r Gelli yr elai Gladys i aros dychweliad ei brawd.

Dydd Gwener oedd y diwrnod diweddfaf i Bob a Gladys fod gyda'u gilydd, ond yr oedd rhywun neu gilydd yn galw drwy gydol y dydd, fel nad oedd amser ganddynt i fagu eu hiraeth. Ac nid oeddynt heb gwmni diddan, fel yr awgrymais eisoes, pan oedd lleni yr hwyr wedi disgyn ar y ddinas-fawr, oblegid yr oedd pob cyfaill i Bob yn benderfynol i roddi ffarwel calonog iddo.

A thra fod y cwmni yn yfed te a bwyta bara menyn Gladys, yn Cambridge Mansions, gadewch i mi ddweyd wrthy ch pwy a pha fath rai oedd wedi ymgynull ynghyd.

Yn y gadair freichiau, ar bwys y tân, eisteddai gwr ieuanc, tuag ugain oed. Benjamin Morgan oedd efe, mab i Henry Morgan, Plas Newydd, Llanelwid, ac efrydydd yng Nghlafdy Sant Bartholomew. Er taled ydoedd—yr oedd gryn ddwy lath o hyn yn nhraed ei 'sanau—"Benni Bach" y gelwid ef gan bawb. Gerllaw iddo eisteddai Mary ei chwaer,—merch dawel, wylaidd, mor anhebyg i Benni ag y gellid meddwl. Hi oedd ffrynd penaf Gladys yn y "Royal Academy of Music," ac er mai dwy gantores oeddynt, syned y byd! nid oedd rhith cenfigen yn eu hysgaru,—oblegid soprano oedd Mary a chontralto oedd Gladys. Ni wnaif ond enwi un arall,—bachgen ieuanc pump ar hugain oed o'r enw Arthur Jones. Efe oedd unig fab Daf i Mari Jones, Dolau Gwynion, Llanelwid. Yr oedd wedi newydd basio ei arholiad diweddfaf fel meddyg, ac wedi enill iddo ei hun safle anrhydeddus ar staff un o'r claf dai mwyaf yn Llundain. Yr oedd yno ereill o Gymry;

ieuanc,—ond gan na wêl y darllenydd hwynt ar ol byn, ni fyddai ond baich ar ei amynedd i mi eu henwi.

Nis gellir cael, gallwn gredu, olygfa fwy hawddgar na gweled nifer o Gymry ieuanc deallus gyda'u gilydd. Byddai'r hen bobl yn arfer da'leu â'u gilydd ynghylch dyrus bethau'r ffydd; neu ar hirnos gauaf, wrth oleu tân mawn neu goed, adroddent ystorïau am ganwyllau cyrff neu'r Tylwyth Teg neu'r hen bregethwyr neu ystrangciau Twm Sion Catti. Ond er cymaint yw swyn hen adgofion, rhaid i mi gyfaddef mai gwell genyf fi gyfarfodydd Cymru Sydd. Mae yr ysbryd sectyddol yn diflanu, fel niwl y boreu, o flaen tanbeidrwydd addysg a diwylliant. Er hoffed y gorphenol, nid yw Cymru Sydd yn ddall i'n diffygion a'n beiau fel cenedl. Gwyddant faint ein dyled i'r "hên hoelion wyth" fu yn creu cenedl rydd allan o gaethweision yn yr anialwch; parchant yr hyn sydd yn dragwyddol ac anghyfnewidiadwy yn y deddfau a drosglwyddwyd i ni oddiwrth ein hynafiaid; ond dangosant hefyd eu bod yn deilwng i fod yn etifeddion i genedlaethau o ddiwygwyr drwy gario allan yn wrol ac yn onest gyfnewidiadau cymhwys i anghenrheidiau newydd yr oes. Ereill yn wir a hauasant, ond mae gan y medelwyr hwythau eu gwaith a'u cyfrifoldeb. Y mae efrau wedi eu hau ymysg y gwemith, ac y mae yn rhaid wrth eirf newydd i'w gwahanu. Pobl feiddgar a phenderfynol, felly, yw Cymru Sydd. Edrychant yng ngwyneb cenedloedd ereill, ac ni arswydant. Ni pharchant Dwyll, er iddo wisgo penwyni, na Rhagrith, er iddo eistedd mewn lleoedd uchel. Nid oes dim yn gysegredig yn eu golwg ond gwirionedd a chyfiawnder a sanct-eiddrwydd. O! fawredd a gogoniant ieuencyd! Nid ofna, ni flina, ni ddrwgdybia. Ei lygad sydd loew gan ffydd ac yni a gobaith, a gwyneba beryglon ac anhawsderau—ie, a gorchfyga hwynt—heb wybod na meddwl am eu maint.

Mynych y ceid cyfarfodydd yn ystafell Bob i drin hanes llenyddiaeth Cymru, ac i weu breuddwydion am ei dyfodol. Ond ar y nos Wener y sonïaf am dani, ni fynai'r cwmni fod yn ddifrifol am fynud, rhag i dristwch syrthio ar ysbryd Bob a Gladys. A phan orffenwyd yfed te, cododd Benni Bach ar ei draed, gan ddweyd,

"Fechgyn, beth ta ni'n ca'l Eisteddfod heno? Cheiff Bob ddim un eto am fisodd."

"Clywch, clywch," meddai Gladys; "a 'rwy'n cynyg Benni Bach yn arweinydd."

Ac ymysg "banllefau o gymeradwyaeth," fel dywed y papyrâu, cymerodd Benni Bach ei le fel arweinydd.

"Anwyl gydwladwyr," meddai, "nis gwn beth welwch chi ynof fi i haeddu'r fath anrhydedd ("clywch, clywch," ebai Bob)—byddwch chi'r plant bach 'na yn esmwyth, 'rwy'n eich 'nabod chi,—ond fel 'rown yn dweyd, 'rwy'n teimlo fy mod yn hollol anheilwng ("clywch, clywch" oddiwrth Bob), ond gan i mi gael fy ngalw i'r swydd urddasol gan fy nghydwladwyr nid oes dim i wneyd ond ufuddhau. Mae yn arferol ar adegau fel hyn i gael cadeirydd—nid am fod ei eisieu, ond er mwyn iddo gael ei odro gan y pwyllgor—(cymeradwyaeth uchel)—ac felly mae'n bleser mawr genyf gynyg boneddwr i'r gadair sydd yn adnabyddus i'r rhan fwyaf o honoch, boneddwr sydd wedi enill iddo ei hun gymaint o deitlau yn Llundain fel y mae'r A B C bron yn rhy fyr i blethu cwt iddo! (chwerthin). Nid oes eisieu i mi daweid wrthych fy mod yn cyfeirio at ein cydwladwr enwog ac athrylithgar, Mr. Arthur Jones, F.R.C.S., M.D., M.S., ac felly yn y blaen at yr X Y Z."

Crochlefa'r cwmni, a chododd Arthur Jones yn araf a phwyllog.

"Ladies and gentlemen"—dechreuai yn ei Saesneg gwyhaf.

"Cymraeg, Cymraeg," gwaeddai'r lleill.

"Da chi," torai Benni i mewn, "byddwch yn foengar wrth y pendefig."

"Fon'ddiggins," meddai Arthur gyda llediaith, "fi balch iawn ca'l dwad fel yma i'r hen Steddfod ardderchog (cymeradwyaeth). Fi siwr y bydde hen graig fi yn balch bod yma hefyd ("clywch, clywch"). Fi'n dyfaru fi dim cofio pwer o'r hen iaith anw'l. Fi byw yn Llynden, a siarad Sysneg o hyd. Ond fi myn'd i'r capel Cwmbrag ("clywch, clywch") dwy waith bob biwyddyn (uchel gymeradwyaeth), ond Sysneg yw graig fi, a fi gorffod myn'd gyda hi i'r Felwys, ne byse fi mwy amal yn y capel. Galla fi ddim siarad llawer o Cwmbrag ("dallet ti ddim siarad dim byd arall ddeng mlynedd yn ol," meddai Bob—"gosteg, gosteg," meddai Benni), ond bydd yn pleser gini roi cheque for five pounds i'r Committee."

Ar hyn, eisteddodd Arthur i lawr ymysg canmoliaeth uchel "y dorf."

"Nawr, fe gawn anerchiadau gan y beirdd," meddai Benni. "Oes yma feirdd yn bresenol? Os oes, deuent i'r lan i'r llwyfan, ar unwaith."

Ni chlywyd mewn gorsedd nac eisteddfod y fath rigymu,—Bob ac Arthur, a Benni am y gwaethaf,—“pawb a'i benill yn ei gwrs,” fel pe baent Feirdd yn ol braint a defawd. Y mae un engraifft—englyn o waith Benni Bach—eto ar glawr. Dyma fe :

'E gawd Arthur yn gadeirydd,—gwron  
A gerir drwy'r gwledydd ;  
Arthur yw ein hareithydd  
A ffon, ie, pen ffon ein ffydd!

“Y peth nesaf ar y rhaglen,” ebai Benni, “yw Cân yr Eisteddfod gan Bencerddes Cymru, y fyd-enwog Miss Gladys Bowen. Rhowch groesawiad goŷoneddus iddi, Hip, hip, hwre!”

“Hip, hip, hwre,” atebai'r lleill.

“Mae dymuniad” meddai Bob, “ar i'r Bencerddes hyglood ganu cân o'i chyfansoddiad ei hun.”

“Na wna'n wir, Bob,” atebai Gladys gan wrïdo.

“Enw'r gân,” ychwanegai Bob, “yw ‘Mawredd Cenhedloedd. Y Bencerddes yw awdures y dôn a'r geiriau, a dyma'r tro cyntaf iddi eu canu yn gyhoeddus.”

“Hwre,” ebai'r lleill.

Nid oedd wiw i Gladys wrïdo a phallu. Eisteddodd Mary Morgan wrth y berdoneg, a dechreuodd Gladys ganu. Disgynodd distawrwydd ar y cwmni aflonydd, a chyn i Gladys orffen y penill cyntaf yr oedd Benni Bach wedi anghofio ei ddireidi, ac edrychai Arthur Jones fel un wedi ei syfrdanu. Nid gogoniant y dôn a'r geiriau yn gymaint a swyn llais a thanbeidrwydd ysbryd y gantores a'u tarawodd â mudanrwydd. Dyma fel y rhedai'r geiriau :

I.

“Mae terfyn i fawredd cenhedloedd,”  
A llwyddiant anfoesgar y Sais,  
Daw dydd pan na chwyfia ei faner  
Ar diroedd enillodd drwy drais ;  
Daw adeg pan na fydd gwlad Prydain  
Ond ynys ynghanol y lli,—  
Ond erys gogoniant hen Gymru,  
Gwlad dirion, gwlad lonydd,  
Gwlad crefydd yw hi.

## II.

Cenhedloedd meistrolgar y cynfyd—  
 Pa le, erbyn hyn, y maent oll?  
 Eu llynges a'u milwyr rhodresgar?  
 Eu hanes a'u hiaith sydd ar goll!  
 Pa le mae y Norddman balch creulawn  
 Ormesodd ein cenedl ni?—  
 Ond erys dylanwad hen Gymru,  
 Gwlad awen, gwlad canu,  
 Gwlad llen ydyw hi!

## III.

Fe wywa ffug urddas brenhiniaeth,  
 Fe dry pob aur-goron yn ddrain,  
 Fe blygir pob baner ryfelgar,  
 Fe wenir pob cleddyf i'r wain,—  
 Er hyny, ni chilia gwir fawredd,  
 Fe erys un wlad fach mewn bri,  
 Nid gwlad y cryf arfog fydd hono,  
 Gwlad Ceiriog, gwlad Islwyn,  
 Gwlad Dafydd fydd hi!

Am dymor ar ol hyn, bu'n anhawdd dwyn gwaith yr Eisteddfod ymlaen. Ond dan arweiniad medrus Benni Bach, ni fuwyd yn hir cyn ail-godi hwyl. Gwasgarwyd yr hud a rowd ar y cwmni gan Gladys drwy i Benni Bach adrodd yr "englyn" canlynol yn ei chlod.

Ow! Ow! bu Miss Bowen' n bwmian!—grondwch!  
 Mae'n grand wrth ei hunan!  
 Ei llais dry y llestri can  
 Yn goch fel godrau crochan!

Gormod gwaith fyddai myned dros yr hanes i gyd; fel y cadeir-iwyd Mary yn brif-fardd, ac y tynodd Benni Bach y poker o gas umbrella gan waeddi, "A oes heddwch?" fel yr arweiniodd Bob y côr buddugol oddiar ben stôl a'r tongs yn ei law yn cadw'r amser; fel y cystadleuodd tri o'r bechgyn ar yr unawd soprano—wedi gwisgo am danynt hetiau Mary a Gladys, a chanu "Merch y Melinydd" mewn llais falsetto; ac fel y traddododd Gladys feirniadaeth yn llawn

cynghorion dwfn-ddysgedig ynghylch "intonation" a "phrasing" a "diminuendo." Doniol hefyd fyddai adrodd fel y bu tri pharti yn cystadlu ar y ddadl ddifyfyr, a thestynau a beirniadaethau Benni Bach. Ond rhaid i ni beido ymhelaethu, ys dywed y pregethwyr. Daeth yn bryd ymadael, ac wele Benni ar ei draed yn cynyg "diolchgarwch y dorf aneirif i Dr. Arthur Jones am lywyddu mor ddeheuig. Dyma'r fath bobl sydd eisieu arnom ni yn y Senedd," meddai, ymysg bloeddiadau'r "dorf," "pobl sydd, fel y dywedodd Dr Jones, heb anghofio'r 'graig' o'r hon eu naddwyd." Difyr, hefyd, fuasai rhoddi araeth Arthur, yn haner Cymraeg a haner Saesneg, a'i addewid i wneyd ei oreu i ddanfôn 'Llinos y Cwm' (sef Benni Bach) "i stydio music yn y Royal Academy, gan fod genti shwd lais sweet, a dim ond iddi gael training and culture byddai'r Llinos yn sure o fod yn cymaint o success in the musical world a Mary Davies ag Edith Wynne."

Yna cododd Benni ar ei draed, ac yn ei ddull mwyaf difrifol, "dymunai gynyg diolchgarwch cynhes y pwyllgor a'r gynulleidfa i'r teulu parchus oedd yn cyfaneddu yn y lle am eu caredigrwydd yn rhoddi benthyg yr ysgubor i gynhal Eisteddfod ynddi."

Wedi hyny, bu'r fintai o Lanelwid yn trefnu ffordd i gwrdd boreu dranoeth er mwy teithio gyda'u gilydd gartref, a bu Arthur Jones yn sibrawd rhywbeth yng nghlust Gladys a barodd iddi wrido fel rhosyn dan wên yr haul.

Cafwyd hwyl fawr wrth ganu "Hen Wlad fy Nhadau," ac yna ffarweliodd pawb yn galonog â Bob, a cheisiai Bob, druan, edrych yn llawen, ac yn wir nis gallai ymatal rhag chwerrthin pan ddywedodd Benni wrth siglo llaw ag ef am y drydedd waith ar y trothwy,—

"Ffarwel Bob 'y mrawd! Da bôt yn nhywyll-leoedd y ddaear! Fe fydd son am yr Eisteddfod hon ar fryniau tragwyddoldeb!"

---

## PENOD I.

### DAFI JONES, DOLAU GWYNION.

Nid oedd neb yn y plwyf a gair drwg i Dafi Jones, Dolau Gwynion. Nid oedd yn hynod am ei gymwynasgarwch yn yr ardal, nac am ei ddiwydrwydd ar y ffarm. Ni chymerai nemawr ddyddordeb mewn cyngherdd nac Eisteddfod; ni threiodd erioed am wobrw mewn preimin; nid oedd yn athraw yn yr Ysgol Sul nac yn aelod o'r





Cor Undebol; ac ni feddai ddawn neillduol mewn seiet na chwrrd gweddi. Mae yn rhwyddach dweyd beth oedd Dafî Jones heb fod na dweyd beth oedd. "Dyn eitha' diddrwg yw Dafî Jones," meddai Mr. Thomas y gweinidog am dano. "Ych y fi," meddai Gruffydd y Coed, "'dyw gwr y Dolau yn dda i ddim." "Druan a Dafî Jones," meddai haner y plwyf, "'does gydag e elyn yn y byd ond fe ei hunan."

Fe welweh sut un oedd Dafî Jones. Mae miloedd o'i fath i'w cael yng Nghymru, fel ym mhob gwlad arall. Un oedd o'r bobl hyny sydd, fel rheol, yn byw bywyd dinod, heb sôn am danynt hyd yn oed yn eu cymydogathau eu hunain. Oni bai y gwelid hwynt mewn cinio rhent neu yn y cwrdd dydd Sul, o'r braidd y gellid tybied eu bod yn byw o gwbl. Pe gofynech i'w cymydog drws nesaf, ni chlywsech stori am danynt, na son am un dywediad o'u heiddo. Ni fydd neb lawer yn siarad yn eu cylch hyd yn oed pan gymerir hwynt yn glaf, a phan fyddant wedi tynu eu hanadl olaf, ni ddaw ond eu cyd-aelodau yn y capel ac ychydig gymydogion a pherthynasau i'w hebrwng i dir eu hir gartref. Clywir am wythnos neu ddwy ar ol hyny y gofyniad yn y farchnad neu'r ffair, "A yw e'n wir fod hwn-a-hwn wedi marw?" "Ody, fe fues i yn yr angladd dydd Mercher." "Howyr bach! Fe gas fyn'd yn syden iawn, do fe ddim?" "O, na, mae e wedi bod yn dost er's mis-odd." "Dier mi, fe geiff y teulu golled ar ei ol e.—Faint gesoch chi am y menyn heddi?"

Ac ni fuasai yn werth rhoddi mwy o hanes Dafî Jones, chwaith, nag a geid ar gareg ei fedd ym mynwent Llanelwid, oni bai iddo briodi Mari Jones. Unig ferch Morgan Jones, Dolau Gwynion, oedd Mari, a chan mai'r Dolau oedd y ffarm fwyaf yn y plwyf, yr oedd llawer o siarad a rhyfeddu pan briododd hi Dafî Jones, Cwmrhew,—un o'r ffermydd bychain ar lethr mynydd Llanelwid. Nid oedd Morgan Jones, os gellir credu'r cymydogion, yn eithaf boddlon i'r briodas, ond yr oedd y ferch yn benderfynol, yr oedd cartref gan y gwr ieuanc yn barod i'w wraig,—oblegid yr oedd rhieni Dafî Jones wedi marw—ac nid oedd gan neb air i ddweyd yn erbyn ei gymeriad. Felly, cymerodd y briodas le, a bu Dafî a Mari Jones fyw yn gysurus ddigon yng Nghwrmrhew am bedair blynedd, hyd farwolaeth hen wr y Dolau, ac yng Nghwrmrhew y ganwyd eu hunig blentyn Arthur.

Methai pawb a dyfalu beth welai Mari yn Dafî Jones. "Nid fel ta hi ddim wedi ca'l cynyg ar neb arall," meddai Sali Nat, gwraig y gof,—yr hon oedd newydd briodi o'r Dolau, lle bu yn

llaeth-wraig am flynyddau—"wa'th dyna Thomas y gweinidog,—'roedd e' bron dwli am deni, a fe nese shwd wraig dda i weinidog! Hi geiff y cwbl ar ol dydd ei thad, a 'dos dim gwell llaw ar 'neyd cramboithe ne' gwca whyad yn yr holl ardalo'dd! A dyna'r Sais 'na sy'n esceismon yn Llandyfri. Llauer i whech a llauer i swllt ges i gydag e am weyd gair drosto fe; ond wrth gwrs mae Mari Jones yn llauer rhy dda i Sais 'i cha'l hi. A dyna Price yr acshwnêr,—anghofia i byth yr olwg o'ld arno fe pan y gwedes i wrtho fe ar glôs ty cwrdd fod Mari Jones ym myn'd i briodi! Fe a'th mor wyned a'r shale, a fe gredes y byse fe'n cwympto lawr yn y man, gen fath gryndod ddath drosto fe gyd, a 'ro'dd 'i ddanedd e'n clatshan yn i ben e; fel ta'r ddyrton wedi cydio yndo fe!—Ond dyna fel mae hi'n digwydd, chi'n gwel'd," ychwanegai Sali gydag ochenaid, "'does neb o honon ni'n gw'bod beth sy' o'n bleine ni! Pwy feddylse fwyddyn i heddi taw Nat fyse'n ngwr i? Os credwch chi'n ngair i, fe odd y dyn ola' yn y byd fyswn i'n ffansio ar yr olwg gynta'. 'Stim dwt gen i nag o's rhan miwn priodas, a nhynged li o'dd ca'l Nat, a thynged Mari Jones o'dd ca'l Dafi."

Chwareu teg i Sali, nid wyf yn credu y gwyddai hi ei hunan dri mis cyn priodi mai Nat fuasai ei gwr. Yr oedd Morgan Jones yn hoff iawn o "rigan" Sali ynghylch Nat, pan oeddynt eto yn caru, a chan fod tafod rhugl gan Sali, nid oedd Morgan Jones heb gael gwybod y cyfan am helyntion ei charwriaeth. Adroddai Morgan Jones un stori, yn enwedig, am Sali gyda llauer o fias.

"Wel, Sal," meddai wrthi un diwrnod, "shwd mae pethe rhynto ti a William y meiswn 'nawr.

"O mishtir bach," atebai Sali, "mae William yn ddyn neis, tawel iawn. Mae e'n gweyd fod gento fe dŷ a lle i gadw tair buwch, ag y byse ni'n dou fyw yn gysurus iawn gyda'n gilydd, ag y byswn i'n siwr o 'neyd llysfam dda i'r plant bach."

"Wel, beth wyt ti'n feddwl am dano fe?"

"Wel, yn 'y ngwir, mishtir bach," atebai Sali, "mae e'n ddyn ffein anghyffredin, a ta pwy ceith e, fe fydd yn lwcus iawn."

"Mae'n well genti e na John y sâr 'tê?" ebai Morgan Jones.

"Wel, mae'n anodd gweyd," meddai Sali. "Mae John yn shwd ddyn call a phwylllog. Mae e'n gweyd fod gydag e' ugen punt yn y banc, ag i fod e'n enill tri swllt y dydd a'i fwyd, ag na fyswn i ddim yn myn'd i dŷ a'i lond e o blant, fel sy' gyda William y meiswn."

"Wel, beth wyt ti'n weyd am John?"

"O, dyn call iawn yw John!" meddai Sali.

"Beth mae Nat yn 'weyd wrthot ti?"

"O, peidwch gofyn, mishtir bach!" atebai Sali, gan chwerthin yn wawdlyd. "Mae Nat yn rhy ddwl i 'weyd gair ar i ol e!"

Ac er fod Mari Jones yn fenyw gallach na'r cyffredin, mae arnaf ofn mai yr un rheswm a barodd iddi hi briodi Dafï—nid am ei fod yn fwy golygus nac yn fwy cyfoethog, nac yn gallach nag ereill, ond yn unig am ei fod yn well carwr!

Nis gellid dirnad am ddau gymeriad mwy anhebyg. Er vn ieuane, yr oedd Mari yn ferch grefyddol; ond rhedai Dafï ar ol arferion gwamal, ac anaml y gwelid ef mewn cwrdd ar noswaith waith. Merch ddiwyd, ofalus oedd Mari; bachgen "didoraeth" oedd Dafï wedi bod ericed. Ond yr oedd hyd yn oed gwendidau Dafï yn apelio at deimladau dyfnaf natur Mari. Dywedai Dafï wrthi ei fod yn teimlo'n well dyn ar ol bod yn ei chwmmi am haner awr, a boddlonodd, ar ei chais, i gael ei dderbyn yn gyflawn aelod yn Salem.—A hyn yw'r weniaeth fwyaf ei ddylanwad ar wraig rinweddol,—mawrygu ei gallu i gadw gwr rhag profedigaeth,—oblegid nid yw'r ganmoliaeth yn weniaeth i gyd, es nad yw'r gwr wedi suddo yn rhy ddwfn o gyrhaedd gobaith. A chredai Mari Jones ei bod yn cyflawni dyledswydd grefyddol wrth briodi Dafï a'i ymgeleddu rhag ei bechodau parod.

Morgan Jones oedd "prif ddiakon" Salem, fel yr oedd ei dad o'i flaen yntau. Pan aeth yr hen gapel yn rhy fach ac y bu raid ei ail-godi, ar ysgwyddau Morgan Jones y disgynodd y pen trymaf o'r gwaith a'r cyfrifoldeb. Yn wir, ar adeg yr agoriad, cydsyniai pawb a Mr Thomas y gweinidog pan ddywedodd na fuasent wedi cael capel newydd oni bai am aberth ac ymroddiad a haelioni Morgan Jones. A phan fu Morgan Jones farw ac yr aeth ei ferch a'i gwr i fyw i'r Dolau, prif uchelgais a gobaith Mari Jones oedd y cawsai Dafï ei wneyd yn ddiakon yn lle ei thad. Ond druan o Mari! nid fel y meddyliai hi am dano y meddyliai aelodau Salem; ac un arall,—Morgans y Siop—etholwyd yn ddiakon.

Ym mhen blwyddyn neu ddwy wedi symud i'r Dolau, dechreuodd Dafï fyned o ddrwg i waeth. Nid oedd eisieu iddo weithio mor galed yn y Dolau ag yn Nghwmrhew, oherwydd yr oedd yn cadw pedwar neu bump o weision cryfion yn y Dolau. Cyn bo hir, sibrydid ei fod yn gwario llawer o'i amser gyda Nat, yn yr efail neu yn y Red Lion, a'i fod yn hoff o fyned i ffair ac acshwn. Un tro, rhyw saith mlynedd wedi iddo symud i'r Dolau, daeth achos Dafï Jones o flaen y seiet. Yn y Red Lion y cynhelid y "ffest clwb," a Dafï, fel arfer, oedd yn tori'r cig ar ben y ford. Yn lle dod adref

yn brydlon, fel y gwnelai Morgan Jones ar y cyfryw amgylchiad, arosodd Dafydd yn y Red Lion ar ol yr amser cyfreithlon. Daliwyd ef a Nat ac un neu ddau arall; tynwyd hwy ymlaen "o flaen eu gwell;" a gorfu iddynt dalu ychydig o ddirwy am y trosedd. Nid oedd Nat yn aelod, ond dowd ag achos Dafydd Jones o flaen y seiet. Tystiai Dafydd nad oedd wedi yfed gormod; honai mai digwyddiad hollol oedd iddo aros cyhyd, ac nas gwyddai, hyd nes y gwelodd yr heddeidwad, fod y cloc wedi taro deg. Yr oedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn foddlon, pe ond er mwyn Mari Jones a'i hen gysylltiadau a'r achos, ymddwyn yn dyner tuag at y troseddwr, ac oni bai am Gruffydd y Coed ni buasai dadl wedi codi yn ei gylch. Ond yr oedd Gruffydd yn un o'r creaduriaid anedwydd hyny nas gallant gyd-weled a phobl ereill mewn dim. Ei hoff waith oedd bod yn groes i bob cynygiad, ac i dafu rhwystrau yn erbyn pob cyfnewid- iad. Ac nid oedd dim yn fwy wrth fodd ei galon na brathu aelod syrthiedig. Y tro hwn, pan oedd pawb wedi gwneyd eu meddyl- iau i fyny nad oedd Dafydd yn haeddu cerydd llym, cododd Gruffydd ar ei draed, ac awgrymodd na ddylai'r eglwys fod yn dyner wrth aelod oedd wedi tori cyfraith y tir. Nis gallai Tomos y crydd oddef hyn.

"A yw e'n fwy o ddrwg," meddai yn gyffrous, "fod mewn tafarn am bum' myned wedi deg nag am bum' myned rhynti? Ody deng myned yn gallu newid natur y weithred? Yn ol 'y meddwl i, mae'n gymaint o ddrwg fod mewn tafarn am haner awr wedi naw ag am haner awr wedi deg. Ody'r eglwys yn myn'd i 'weyd na ddyle neb fyn'd i dafarn o gwbl? Mae un brawd wedi gweyd i tod e'n bechod i dori cyfraith y tir. Odyn ni fo'lon i'r athrawiaeth yna? Os odyn ni, mae'n rhaid i ni gredu i John Penry gael ei grogi ar dir cyfiawn,— wa'th 'rodd e wedi tori'r gyfreth. Fe ballodd llawer o'r hen bobol a thalu'r dreth Eglwys; a ddyle nhw fod wedi ca'l i ceryddu yn y seiet? A mae llawer yn y sir, a rhai yn y plwyf hyn, yn gwrthod talu'r degwm. A odyn ni'n myn'd i ceryddu nhw am beidio ufudd- hau i gyfreth y tir? Na, frodyr, 'dyw'r peth mae Dafydd Jones wedi 'neyd ddim yn bechod; 'dyw e ddim ond yn drosedd yn erbyn y gyfreth, a mae e wedi ca'l i gopsi ishws am hyny."

Dyna grynodedeb o araeth Tomos, ac, yn wir, pan eisteddodd i lawr, edrychai llawer yn ddyrlyd, ac ni ddywedodd Gruffydd air o'i ben, oblegid yr oedd ef yn un o'r rhai oedd heb dalu'r degwm. Ond ni osodai'r aelodau yn gyffredin lawer o bwys ar beth ddywedai Tomos, canys gwyddai pawb fod y crydd yn hoff iawn o gario ei

ddryll, ac nad oedd yn sier yn wastad o wybod ble y gorweddaï'r ffin rhwng y comin a pharc y Plas.

Ond nid oedd Dafï i ddianc yn ddigerydd. "Nid cosp, fel y dywedodd un brawd," meddai Tomos Lewis, Coed Weddus, "yw cerydd yr eglwys, ond rhybudd i frawd gwan ei fod yn cyfeiliorni. Fe olchodd yr Iesu draed ei ddisgyblion er mwyn eu helpi i gerdded yn well yn ol llaw, a dyna ddylen ni amcanu 'neyd wrth ddisgyblu. 'Dos dim eische i ni benderfynu os yw e'n fwy o ddrwg fod mewn tafarn ar ol na chyn deg o'r gloch. Mae Dafï Jones i hunan yn dweyd na fyse fe ddim yn lico bod miwn tafarn ar ol deg, ag mae e'n cyfadde' drwy hyny i fod e'n styried hyny'n rong. Mae Dafï Jones yn dweyd mai damwain oedd iddo fe fod yn y tafarn wedi'r amser. 'Rwy'n gobeitho y bydd y tro hwn yn rhybudd iddo beidio mynychu tafarndai o gwbl. Dyna'r ffordd ddiogel."

Daeth Nat o hyd i'r hanes drwy Sali, a mawr fu ei spri am wythnosau.

"Helo, Dafï Jones," oedd y gair cyntaf ddywedodd wrtho ar ol hyn, "shwt ych chi 'nawr ar ol i'ch tra'd chi ga'l eu golchi?"

A phan gyfarfyddai a Dafï mewn ffair neu farchnad, gafaelai yn ei fraich, a dywedai,

"Dewch i ga'l glased gyda fi. 'Do's dim gwell eli i'r tra'd i ga'l,—*internal application*, fel mae'r doctoriaid yn gweyd. Wir i chi, mae Coed Weddus yn iwso dwr rhy bo'th i olchi tra'd y saint! 'Does dim posib iddi nhw gerdded yn gwmws byth ar ol 'ny."

Cafodd yr helynt hwn gryn ddylanwad ar fywyd Dafï Jones. Collodd lawer o'i hen ysbryd nwyfus; elai yn fwy mynych i'r efail, a mwy anfynych i'r cyrddau. Ond er i Mari dreulio llawer awr bryderus wrth ddisgwyl ei gwr gartref, ni fu Dafï yn euog o droseddu'n gyhoeddus, beth bynag, ar ol hyny.

Fel hyn, am saith mlynedd ar hugain, bu Dafï a Mari Jones fyw yn wr ac yn wraig. Yr oedd gwallt Mari erbyn hyn wedi britho, ac yr oedd rhychiau dwfn yn ei gwyneb yn dystion am lawer ymgyrch a'r byd. Ond pes gofynych iddi, atebai yn bendant nad oedd neb hapusach na hi yn y plwyf, fod ganddi wr caredig, ac mai Arthur ei mhab,—er mwyn yr hwn yr oedd wedi aberthu cymaint—oedd un o'r bechgyn goreu a fagwyd erioed yng Nghymru.

## PENOD II.

### NAT WEDI EI SAETHU.

Nid oedd byth awydd am waith ar Dafi Jones,—nid fod ofn gwaith arno, oblegid yr oedd yn barod, fel y gwas hwnw yn y chwedl, i gysgu wrth ei ochr! Elai i'r gegin ar ol brechwast bob bore i ddweyd wrth y gweision eu goruchwylion am y dydd, ac yna cerddai oddiamgylch y ffarm, neu elai i weled yr anifeiliaid ar lan yr afon, neu celai afael mewn "gwaith twt" yn yr ardd neu yn agos i'r ty. Ond nid oedd braidd ddiwrnod yn myned dros ei ben na fyddai yn talu<sup>u</sup> ymweliad a Nat yn yr efail. Yr oedd stôl deirtroed ar ben y pentan ynghanol yr huddugl—"stôl y gwrando" y galwai Nat hi—ac yno yr hoffai Dafi wario awr neu ddwy bob dydd. Yr oedd Nat, o hir arfer, wedi dod i edrych ymlaen at ddyfodiad Dafi fel yr edrycha pobl y dref am y papurau newyddion. Os digwyddai i Dafi fethu troi i fewn, yr oedd ei absenoldeb yn gwneyd bwlech ym mywyd Nat. Nid oedd yr efail yr un hebdo drwy'r dydd. Nid oedd Dafi yn fawr o siaradwr, nid oedd ganddo byth stori i ddweyd, ac ni wnaeth *joke* yn ei fyw. Ond yr oedd yn wrandawr diail, ac nid oedd neb yn gallu llanw "stôl y gwrando" fel efe. Ni chollai air ddeuai allan o enau Nat, ac ar ol rhyw ddywediad mwy cellweirus nag arfer, byddai yn rhwbio ei ddwyllaw ynghyd, ac yn chwertthin yn isel, ac yn dweyd, "Nat, bachan helyg wyt ti hefyd." Neu os byddai Nat yn tynu wrth raffau ei ddychymyg ac yn dweyd ryw stori ryfeddach nag arfer, nid oedd dim a hoffai'r gof yn well na gweled Dafi yn agor ei lygad glas led y pen ac yn dweyd, "'Dych chi ddim yn ceisio gweyd y fath beth!" neu, "Lycoch chi 'nawr! Pwy feddylse am hyna, welwch chi?"

Ar foreu dydd Sadwrn cyn Nadolig 1895, aeth Dafi, fel arfer, am dro i'r efail, ond erbyn iddo gyrhaedd yno cafodd yr efail ynghau. Yr oedd Nat yn byw mewn tyddyn bach rhyw led dau gae oddiwrth yr efail, yr ochr arall i'r Dolau Gwynion. Aeth Dafi'n ol i'r Dolau, yn bendrwm iawn. Nid oedd y fath beth wedi digwydd erioed o'r blaen, ac nis gallai ei esbonio. Yr oedd arno braidd ofn gofyn i'r forwyn fwyaf os gwyddai beth oedd yn bod. Eisteddodd ar y sciw yn y gegin am amser heb ddweyd gair. O'r diwedd cymerodd galon a dywedodd—

"Odych chi wedi cl'wed rhywbeth amboitu Nat, Sara?"

"Nagw i, mishtir," atebai Sara yn swrth. "Ody e wedi troi'n ddirwestwr, neu beth? Mae'n hen bryd iddo 'neyd hyny!"

"Na," meddai Daf, "ffeilu diall own i pam oedd e ddim yn yr efel y bore 'ma."

"O, mi wn i beth sy' ar y gwalch," ebai Sara. "Neith'wr o'dd raffl y Red Lion, a mi gynta fod Nat wedi bod yno—chollith e ddim cyfle o'r sort—a mi fentra fod drych pert i wel'd arno fe heddi."

Nid atebodd Daf Jones air, ond aeth allan heb holi rhagor. Yn gynar yn y prydawn aeth lawr i dŷ Nat i weled sut oedd pethau'n bod. Tyddyn bach tô gwellt oedd, ac nid oedd enw arall arno ond "Tŷ Nat." Ni welsech dŷ bach mwy twt mewn taith diwrnod. Yr oedd gardd tu ol a chlôs cryno o'i flaen. Er mai mŵd oedd y gwelydd, yr oeddynt wedi eu gwyngalchu mor lân, ac yr oedd cymaint o flodau a *creepers* wedi eu planu wrth y godrau fel yr edrychent yn siriolach na muriau un castell neu blas yn y sir. Cerddodd Daf'n araf at y drws. Nid oes neb byth yn Llanelwid yn curo wrth ddrws cyn myned i'r ty, ac nid oes neb chwaith yn meddwl am gloi'r drws ond pan fyddo'r ffair flynyddol yn y pentref yn tynu Saeson a phorthmyn i'r ardal. Felly nid arosodd Daf wrth y drws maes.

"Helo 'ma!" meddai, wrth groesi'r trothwy, "o's rhywun miwn?"

"Y chi Daf Jones sy' 'na?" meddai Sali, gan ddyfod i'w gyfarfod i'r pen llawr.

Menyw fêr, dew, gron oedd Sali—bron yr un hyd a llêd—a gwyneb mor rownd a thwmpfen. Yr oedd ganddi drwyn byr, llydan wedi ei osod rhwng dau lygad bach, mor ddued a'r fagddu, ac mor ddisglauer a llym a nodwydd ddur. Safai mor gadarn ar ei thraed a chraig gallestr, ac yr oedd pob symudiad o'i heiddo yn llawn yni a bywiogrwydd. Yr oedd yn arfer dweyd y gallai "droi ar bishin tair," a'i hoff ymfrost oedd fod ei thŷ mor lân a threfnus a "phin mewn papur."

"Dewch miwn, dewch miwn," ychwanegai Sali, cyn i Daf gael amser i agor ei enau. "Mi fues yn eich dishgwl chi drwy'r bore."

"Beth sy'n bod, Sali fach?" gofynai Daf'n syn. "Beth sy'n bod?"

"Mi allwch ofyn hyny, Daf Jones," atebai Sali'n gwynfanus. "Fel ta gyda fi ddim digon o drwbwl ishws!—"

"Dych chi ddim yn ceisio gweyd," dywedai Daf, "fod Nat yn dost?"



"Yn dost!" ebai Sali, "O ta fe'n dost mi allwn w'bod beth i 'neyd ag e, ond mae e'n bownd o fod yn ots na phawb yn wastod."

"Beth sy' arno fe 'te, yn enw dyn?" gofynai Dafï yn ddyrlyd.

"Mae e wedi ca'l i saethu!" meddai Sali.

"Wel, lytoch chi 'nawr! wedi ca'l i saethu!" ebai Dafï. "Shwd buws hi fel 'ny?"

"O Dafï Jones bach, 'dalla i ddim a gweyd wrthoch chi mor falch mae gen i'ch gwel'd chi," llefai Sali. "Mae Nat wedi'n sharso i na weda i ddim gair wrth neb, ond 'rwy'n gw'bod y bydd e'n fo'lon i chi ga'l clywed, wa'th 'rych chi ag ynte wedi bod shwd bartners ariod!"

"Ond 'dyw e ddim yn sal iawn?" gofynai Dafï eilwaith, a phryder yn ei lais.

"Mi dynes i bymtheg shotsen a'r hugen o'i goese fe," meddai Sali, "a'r Arglwydd yn unig a wyr faint sy' 'nol yn i gorff e, wa'th fe'n hadodd i hala i moyn doctor."

"Ond ffordd digwyddws y peth?" gofynai Dafï.

"Wel, mi weda i chi," atebai Sali, gan eistedd gogyfer a Dafï, a chornel ei 'ffedog yn ei llaw yn barod i sychu y dagrau oedd yn llanw ei llygaid. "Neith'wr 'roen nhw'n rafflo'r twrci yn y Red Lion, a me fuodd Nat mor ffol a phrynu dou dicet wech cheinog yr un. 'Rown i'n gweyd wrtho fe fod gydag e lawer rhytach gwaith na myn'd i wasto'i arian fel 'ny. Wetswn i ddim byd wrtho fe, Dafï Jones ta fe'n enill yn y raffis yma weithe. Ond welsoch chi 'ri'od shwd griadur anlwcus a Nat! Dim ond i chi gadw e yn yr efel i bedoli cyffyle, ne' neyd arad, ne' gwyro swch ne' gwlitwr, mae e'n ol reit. Ond man eiff e ma's dros drothe'r efel mae fel ta'r gwr drwg i hunan yn i ddilyn e! Mi fadewodd yn gynar a'r efel neithiwr, ag ar ol molchyd a gwishgo, dyma fe lan i'r pen tre' i'r raffl. 'Ro'dd gydag e swllt a naw pan madews e a'r tŷ heb law'r ddou dicet wech o'dd e wedi brynu cyn myn'd. Fe driodd ddwywaith, medde fe, gyda'r côd, ond 'rodd e o rwle ar ol! Fe ddylwn i fod yn gw'bod yn well erbyn hyn na gellwn iddo fe fyn'd i'r raffls yna! Wa'th dyna pwy ddwarnod o'r bla'n, pan oedd Robin y Teilwr yn rafflo Josephys—'ro'dd Nat, wrth gwrs, yn bownd o dreio'i lwc, os gwedws ynte. A phwy les, gwedwch chi, nese'r Josephys 'na iddo fe ta fe wedi enill e? Achos ni ddarlense fe ddim o hono fe ta fe byw i oedran Methiwsala! Ond 'rodd yn rhaid i *my Lord* i dreio'i lwc, a fe halws dri swllt wrth dreio, a crwt bach John Sa'r cas e wedi'r cwbl, er nag oedd gento fe ond un ticet—."

“Ond, Sali fach, beth sy' gyda hyn i 'neyd a saethu Nat?” gofynai Dafî, dipyn allan o dymher.

“O chi'n gwel'd,” atebai Sali, “'rodd yn rhaid i Nat 'neyd yr un peth neithwr wedyn, a rhynt yr arian halws e ar gwrw—a cha i ddim gwbod faint a'th yn y ffordd hyny—a'r rafflo, mi halodd y swilt a naw bob dime, ag 'rodd e mor bell o ga'l y twrci yn y di-wedd ag o'dd e ar y dechre'. Ag ar ol hala'i arian i gyda dyma fe yn gweyd wrth Twm y Crydd y cese fe row man ese fe ga'tre.”

“Pam?” mynte Twm, wa'th 'dos dim mae Twm yn lico'n fwy na chlywed clacs y gym'dogaeth i gyd.

“O,” mynte Nat, “'rowni'n meddwl ca'l cinio tshêp erbyn N'dolig ond wiw wedi hala pob ffyrlling heb ga'l y twrci.”

“Dere gyda fi,” mynte Twm, “a mi ffeinda i gino Nadolig i ti am ddim.”

“A dyna fu. A'th Twm i moïn ei ddryll, a dyma'r ddou, os gwelwch chi'n dda, i go'd y parc—Nat yn ffysto a Twm a'r dryll. Ac miwn tipyn dyma Nat yn el'wed yr-r-r-r-r mowr amboitu'i ben, a dyma hen geiliog ffesant mowr yn codi, a 'bang, bang,' mydde dryll Twm Crydd, a chyda hyny dyma Nat yn el'wed fel ta mil o bine bach yn i goese, a mi rows y fath sgrech nes oedd yr holl le yn ego i gyd!

“Be' sy'm bod?” mynte Twm.

“Ym bod?” mynte Nat. “'Stim byd ym bod ond dy fod di wedi lladd dyn!”

“Mi gas Twm shwt ofon, wa'th wydde dim un o heni nhw nag odd hi ar ben ar Nat, a mi gariws Nat ar i gefen yn streit ga'tre'. O fe ges shwt start pan gweles i nhw'n dwad, un ar gefen y llall, am un ar gloch bore' heddi! Ag yn i hyd yn y gwely mae Nat wedi bod byth oddiar 'ny, a'r nefo'dd fowr a wyr pryd ceiff e nerth i godi!”

“Ond pam na fysech chi wedi hala i moyn y doctor?” gofynai Dafî'n gyffrous. “Ta chi ddim ond hala gair i'r Dole, fe fyswn i wedi hala'r crwt ar unwaith ar gefen y poni i Landyfri.”

“Whare teg i Twm!” atebai Sali, “rodd e'n ymbed am fyn'd ar unwaith i Landyfri, ond 'dodd dim iws siarad a Nat. 'Rodd arno fe ofon mai jail fyse hi iddi nhw'i dou ta'r jystysed yn dwad i wbod.”

“Ie, dir gaton ni,” dywedai Dafî, “jail ne beth, mae'n rhaid iddo fe ga'l doctor! Wi'n dishgwyl Arthur ga'tre heno dros Nadolig, ag os yw Nat yn fo'lon, mi ddaw Arthur lawr i wel'd e, a fydd dim neb yn gallach.”

"O'r anwyl fach, mi fydda'n falch," wylai Sali, "a mae gyda Nat shwd ffydd yn Arthur chi! Mae e'n meddwl y byd am dano fe, a mae e'n siwr o lyncu pob short o foddion roiff e iddo fe. Dewch lan i'r pen ucha' i ga'l siarad a Nat. Falle cewch chi ber-swad arno fe."

Yn y parlwr—neu'r pen ucha'—yr oedd Nat yn gorwedd mewn gwely cwpwrdd, a'i wyneb at y pared, yn cysgu.

"Pwr ffelo," meddai Dafi yn isel pan ei gwelodd, "gellwch iddo fe ga'l i hun i mas! Trueni ei ddyhuno fe!"

Ond gyda'r gair dyma Nat yn troi yn y gwely, ac yn agor ei lygaid.

"Chi sy' 'na, Dafi Jones?" meddai, a gwên ar ei wyneb, er fod gwrîd afiach yno hefyd. "Mi glywsoch yn helynt ni, mi gynta?"

"Do, yn wir i chi," atebai Dafi, yn llawn tosturi. "Hen dro bach cas yw e! Ond 'dos dim synwyr eich bod chi ddim yn gwel'd doctor! Wyddoch chi ddim pwy mor ddansherus all rhwbeth fel hyn i fod."

"O, 'dos dim ishe gwyr y *pills* arna i," dywedai Nat yn ysgafn. "Fe ddwa i'n ol reit erbyn Dydd N'dolig. Ffaeles i ariod fwyta cino Dydd N'dolig hyd yn hyn."

"Ie, ond lycoch chi 'nawr, Nat," meddai Dafi, "Fe all eich gwa'd chi ga'l i wenwyno, a ———."

"Odych chi'n credu," torai Sali i mewn, "yr hale'n nhw Nat i'r jail am hyn? Er y gallen nhw, falle, hala Twm Crydd yno, a fyse'r plwydd ddim gwath ar ol ca'l i wared e' am dipyn."

"O, fe cewn ine hi 'run mor ddrwg a Twm," meddai Nat, "wath 'roen ni'n dou yn potshan, ti'n gwel'd."

"Ond mi gese Twm ei grogi, ta beth," ebai Sali yn sarug, "ta fe wedi dy ladd di."

"Ei grogi?" gofynai Nat yn syn. "Na chese fe ddim o'i grogi, glei."

"Shwd na chese fe?" meddai Sali, "ag ynte wedi lladd dyn!"

"Sali fach, 'dwyt ti ddim yn diall y gyfreth," atebai Nat yn ddifrifol. "Dos dim cosp am yn lladd i heb lesens, wa'th 'dw i, ti'n gwel'd, ddim yn y *game*."

"Lycoch chi 'nawr," meddai Dafi, gan chwerthin, "bachan doniol wyt ti, Nat, hefyd! Yr wyt ti'n bownd o ga'l dy whits ta ti'n marw'r fyned nesa! Ond mae'n rhaid i ti ga'l doctor, na chyffrai. A mae Arthur ni'n dwad gartre' heno am wythnos——"

"Arthur yn dwad gartre?" ebai Nat, gan haner codi yn y gwely. "'Dyw e ddim ar ben yn Llynden, odi e?"

“O, nag yw,” atebai Dafi gyda balohder. “Mae e wedi ca’l swydd uchel iawn yn un o’r *hospitals* yco, ond i fod e’n ca’l tipyn o wyle gyda nhw’nawr. Ag os wyt ti’n folon mi ddwa i lawr ag e heno ne’ fory, a ddaw neb i wbod dim am y peth.”

Nid oedd eisieu cymhell rhagor ar Nat. Boddlonodd i awgrym Dafi, ac ym mhen ychydig aeth Dafi Jones adref i’r Dolau i barotoi i fyned i gwrdd ag Arthur yn y stesion.

---

### PENOD III.

#### “YR HEN BINAEL.”

Pan alwodd Arthur y noson hono i weled Nat, deallodd nad oedd yr hen greadur wedi cael llawer o niwed, ac mai dim ond eisieu llonyddwch am ddiwrnod neu ddau oedd arno i’w lwyr wella. Fel yr oedd y lwc yn bod, safai Nat gryn ddeugain llath neu ragor oddiwrth Tomos pan aeth yr ergyd allan, ac nid oedd y shots wedi gwneyd rhagor na chrafu ei groen, a’i ddychrynu ef a’i gyfaill bron o’u synwyrâu. Pan glywodd Nat farn Arthur am y ddamwain, braidd na neidiodd o’r gwely ar unwaith gan ei lawenydd. Ond ar daer gymhelliad Arthur boddlonodd aros yno, hyd fore dydd Llun, beth bynag. Yr oedd pawb yn gyfarwydd a “chlefyd dydd Sul” Nat, a gwyddai yn dda na fuasai neb yn synu oherwydd ei absenoldeb o’r cwrdd. Os gallai fod wrth ei waith ar foreu dydd Llun, credai y buasai’n hollol ddiogel. Ond yr oedd Sali yn arfer myned i’r cwrdd bob dydd Sul. Yn wir, ymfrostiai Sali yn ei ffyddlondeb i’r moddion, a rhaid oedd iddi fyned i Salem yn y boreu, ond nid heb dderbyn gorchymyn pendant ar iddi beidio ynganu gair wrth neb ynghylch yr helynt oedd wedi gorddiwes Nat.

Druan o Nat! Os oedd yn meddwl cadw’r anhap yn gudd, yr oedd wedi gwneyd camsynied dybryd â gallu siarad Sali. Nid oedd neb erioed wedi cyhuddo Sali o gadw dim yn gél, a gwyddai’r cymydogion yn fynych fwy o hanes Nat nag a wyddai ef ei hunan. Teimlai Sali yn awr fod ganddi gyfie na chafodd erioed o’r blaen i gwyno wrth ei chyfeillion. Yr oedd pawb wedi hen fino ar ei cheintach yn erbyn Nat a’i ddifrawder, yn erbyn Gruffydd y Coed am fod mor “ddeir” cyn talu ei gownt amser Calan Gauaf, yn erbyn Morgans y siop am uad oedd yn gwerthu gwell tê am haner coron nag a gawsai yn Abertawe am ddeuswllt y pwys, ac, yn

wastad, wrth gwrs, yn erbyn gwraig y Red Lion a Mr Thomas y gweinidog. Ond ni chafodd erioed achos o'r blaen i ofyn am gydymdeimlad oherwydd afiechyd yn y teulu. Yr oedd hi a Nat wedi mwynhau iechyd difwlch ar hyd eu hoes, ac ni fu meddyg yn y ty oddiar pan wellodd Sara'r ferch o'r frech goch a'r "dwymyn doben" bymtheg mlynedd yn ol. Weithiau byddai Sali'n cwyno nad oedd hi ei hunan yn "haner da," fod ei "hana'l yn pallu," fod "fel rhyw gwllwm yn ei brest," neu "ei chalon yn wan." Bryd arall byddai yn dweyd wrth Mari Jones fod "ofon arni ei bod yn myn'd i ga'l twtsh o'r gwynegon," a'i bod hi "weithe'n ffeilu'n lan codi un go's ar ol y llañ gen mor llipa 'rodd hi'n teimlo." Ond credai Sali nad oedd hi erioed wedi derbyn y cydymdeimlad ddylasai oddiar law ei chydhabod.

"Garw mor dwyllodrus yw golygon!" dywedai ar adegau wrth Mari Jones. "Drychwch ar Mrs. Morris y Gelli, 'nawr. Mae hi'n wastad yn edrych yn wanaidd, a dim ond iddi 'weyd fod ei bys bach hi'n gwynegu, dir gaton ni! fel mae pawb yn tyru'n rownd iddi. Mae Gladys yn dwad lawr yn unig swydd i thendo hi, a Thomas y gweinidog yno byth a hefyd, a Nat ni a phawb am y cynta' yn galw i gwel'd hi. Ond am dana i druan, mi gewn i farw fel anifel mewn ffos heb neb yn gofyn shwd w i, na beth sy' arna i, na ffeirad na phregethwr yn gweyd pader na bendith,—dim ond achos bod dipyn o liw coch ar 'y ngwyneb i! 'Dos neb, Mari Jones fach, ond y Bod Mawr a fine yn gw'bod faint w i'n gorffod ddioddé' bob dydd o'r flwyddyn, heb na Nat na neb, yn gneyd mwy o hidans o hona i na phe byswn i'n gareg ar yr hewl! Fel mae'r Gair yn gweyd"—terfynai gydag ochenaid—"Y galon a wyr ei chwerwder ei hun."

Ond o'r diwedd yr oedd afiechyd nas gallai neb ei anwybyddu na'i ddibrisio wedi talu ymweliad a thŷ Sali, ac yr oedd yr hen wraig yn ireiddio fel chwyn ar ôl cawod o wlaw. Pan ofynwyd iddi gan hwn a'r llall ar ol y cwrdd sut yr oedd Nat, gostyngai ei llais, sibrydai yng nghlust yr ymofynydd fod Nat wedi cael ei saethu! a'i fod yn gorwedd yn ei wely gartref! ac na wyddai hi beth ddeuai ohono! Dilynid hyn gyda siars i beidio dweyd gair wrth neb, neu ni fuasai'n gwybod beth fuasai'n digwydd! Cyn haner-dydd dydd Sul, yr oedd y newydd wedi tramwy fel tân gwyllt trwy'r plwyf. Nid oedd diwedd ar yr ymwelwyr i f Nat yn y prydawn;—Tomos y Crydd, John y Saer, Gruffydd y Coed, William y meiswn, a Jaci'r hooper, a "thyrfa fawr" meddai Nat, "nas gallai neb eu

rhifo." Synai Nat ar y dechreu; yna aeth i dymher ddrwg; ond ym mhen yehydig daeth i deimlo cymaint o bleser a balchder a Sali ei hun yn nifer yr ymwelwyr. Yr unig beth obeithiai Nat oedd na ddeuai Tomos Lewis, Coed Weddus, i wybod am y ddamwain; oblegid gwyddai nad arosai yr hen wr yn esmwyth am eiliad heb dalu ymweliad ag ef. Tomos Lewis, dylaswn ddweyd, oedd y diacon hynaf yn Salem, ac yr oedd wedi bod am ddeugain mlynedd a rhagor yn un o golofnau'r achos yno.

Ffarm fach a lle i gadw deg neu ddeuddeg o wartheg yw Coed Weddus, yn gorwedd rhwng Dolau Gwynion a'r pentref. Saif ar ael bryn teg sy'n edrych tua'r dê. Y mae yn dâl gwên gyntaf haul y boreu, ac yn derbyn ei gynar a'i ddiweddar wres. O glôs y ty ceir golygfa brydferth ó Ddyffryn y Tywi—dyffryn mwyaf swynol Cymru, yn ol tyb y trigolion. Bu amser pan nad oedd yr holl fryn ond rhan o gomin y plwyf, ond ar ddechreu'r ganrif fe basiwyd deddf i gau i mewn y comin, a phrynodd hen-dadcu Tomos Lewis tua phedwar ugain cyfer o'r tir gerllaw y pentref. Ond er mai Tomos Lewis oedd perchen gwaelod Coed Weddus, ac er nad oedd ganddo ef a Phegi ei wraig na mab na merch yn fyw, yr oedd yn eithaf tyn arnynt yn fynych i ddwyn "deupen y llinyn ynghyd." Dywedai Nat fod gan Morgans y siop un amser bymtheg cant o arian allan ar y tir, a gwyddai pawb fod Morgans yn gofyn iws gweddol am ei arian. Ond yr oedd Tomos a Phegi yn bobl ddiwyd a gofalus, ac yr oedd eu hamgylchiadau wedi gwella cymaint yn y blynyddoedd diweddaf fel y dywedid fod Morgans wedi cael ei dalu ymaith yn llwyr.

Priodolai Tomos y cyfan i ddaioni Rhagluniaeth. Pan benderfynwyd ail-godi Salem, yr oedd hi'n amser cyfyng iawn ar Tomos Lewis. Blinai oherwydd nas gallai roddi rhagor tuag at yr achos—yr oedd hyny yn amhosibl. Ond yr oedd chwarel bach ar ei dir. Cynygiodd Tomos, gan nas gallai roddi aur ac arian, gymaint o geryg ag a fyddai yn eisieu, yn rhad ac am ddim. Derbyniwyd y rhodd gyda diolchgarwch, a gwelwyd cyn bo hir nas gellid cael gwell ceryg yn un lle yn yr ardal. Daeth "Ceryg Coed Weddus" yn enwog, a chan fod pentref Llangoediog gerllaw yn cynyddu'n gyflym oddiar pan agorwyd y rheilffordd drwyddo, gwnaeth Tomos Lewis arian glew o'r chwarel.

Cymerai Tomos Lewis olwg ddifrifol iawn ar fywyd, yn ei holl agweddau. Ni welodd neb ef yn gwenu er pan yn fachgenyn, ac nid oedd dim mor adgas ganddo a'r ysmaldod haner rhyfygus a

nodweddaï ymddiddanion Nat. Er ei fod yn siaradwr rhwydd a hyawdl yn gyhoeddus, nemawr i air a geid oddiwrtho ar achlysuron cyffredin. Yr oedd yn un o'r dirwestwyr cyntaf a mwyaf selog yn y plwyf; ac er y byddai yn tynu ambell i fwgyn cyn myn'd i'r gwely, ni welodd neb ef a phib yn ei ben mewn tŷ dieithr neu ar y caeau. Nid rhyfedd felly, gan neb oedd yn adnabod y ddau, nas gallai Nat ddygymod a Tomos Lewis am eiliad. Er eu bod yn gymydogion agos, nid oedd fawr o gydnabyddiaeth rhyngddynt. Yr oedd Tomos rai blynyddau yn hyn na Nat, ac nid oedd Nat, er ei holl anystyriaeth, wedi colli yn llwyr ei ofn bachgenaidd o'r hen Biwritan didwyll a diwyro. Nid oedd Nat yn foddlon cyfaddef, hyd yn oed wrtho ei hun, fod ofn Tomos Lewis arno, ac, fel y gwna pobl dan y fath amgylchiadau, rhedai i eithafion haerllugrwydd er mwyn profi ei ddifrawder. Y fynud y canfyddai Nat gorff talgryf Coed Weddus yn croesi trothwy'r efail, dechreuai ddefnyddio y geiriau gwylltaf. Safai Tomos Lewis yn ddifrifol ac yn fud. Nid atebai air, ond cyflwynai ei neges yn ei ddull tawel, naturiol, troai ei gefn, ac ymadawai yn ebrwydd. Dim ond ar un adeg y temtiwyd Tomos i ateb Nat yn ol. Digwyddai Nat y tro hwnw fod yn cylcho *wheels* i Dafi Jones, ac adeg go wlyb oedd hi yn wastad ar y prydiau hyny yn hanes Nat. Ar ganol y rialtwech pwy ddeuai i mewn i'r efail ond Tomos Lewis.

"Helo, 'rhen Binael y Deml," meddai Nat yn ei ddull gwatwarus, ar goedd yr efail i gyd, "'rych chi wedi dishgyn o'r nefolion leoedd o'r diwedd i w'bod fod eische hoelon dan eich sgidie chi? Shwd mae'r cwâr gyda chi yco; e. Mae'r creigleoedd yng Nghoed Weddus, na chyfra i, yn dwyn gwell ffrwyth na dyfnder daear! Ha! ha! Jawst, boys, mae'n rhaid i fi gymeryd dosbarth yn Salem i ddnagos gyment o'r 'Sgrythyr wi'n wbod! Pwy o'dd y gwr b'neddig hyny yn y Beibl, stopweh chi, o'dd yn gweyd, 'Arch i'r ceryg hyn fod yn fara?' 'Stim dwt nag o'dd e'n perthyn i Tomos Lewis 'ma."

"Nathaniel," atebai Tomos, heb newid dim ar ei wedd na chodi ei lais, "mi ellwch chi 'neyd faint fynoch chi o spri arna i, a 'weda i 'run gair 'nol wrtho chi. 'Rych chi'n gwbod eich Beibl yn ddigon da i gofio fod y gwr doeth yn dweyd wrtho ni am beidio ateb y ffol yn ol ei ffolineb. Ond cofiwch hyn, mor wired a bod barn yn ein disgwyl ni i gyd, oddefa i ddim i chi na neb arall i 'neyd sport o'r Beibl yn 'y nghlyw i."

Cywilyddiodd Nat dan y cerydd, oblegid yr oedd ei gydwybod ei hun yn ei gyhuddo, a byth oddiar hyny bu yn ofalus o'i eiriau

pan oedd gwr Coed Weddus gerllaw. Ond er i Tomos gael y goreu yn hyn, glynodd y llysenw roddodd Nat iddo fel y gwahanglwyf wrth was y prophwyd, ac wrth yr enw "Rhen Binacl" yr adwaenid yr hen ddiakon ymysg crytiau'r ardal byth ar ol hyny.

Hawdd deall, gan hyny, nad oedd Nat yn dymuno gweled gwyneb Tomos Lewis wrth erchwyn ei wely cystudd.

## PENOD IV.

### NAT A'R "HEN BINAEL."

Yr hyn a ofnai Nat a ddigwyddodd iddo. Clywodd Tomos Lewis fod Nat wedi cael ei saethu, a chan na chredai neb yn Llan-elwid fod gwellhâd yn bosibl, ar ol i ddyn gael ei saethu, penderfynodd na chollai amser, ac yn union ar ol tē dydd Sul aeth lawr i ymweled a Nat. Curodd yn dawel wrth y drws.

"Shwd y'ch chi, Tomos Lewis," meddai Sali, gan ddyfod i'w gyfarfod. "Dewch miwn—peidwch sefyll wrth y drws, neu 'rych chi'n siwr o ga'l anw'd, wa'th mae'r drafft yn taro ar wegil dyn man yna——"

"Shwd mae Nathaniel gyda chi heddi?" gofynai Tomos Lewis, yn ei ddull arafaid.

"O mae e yn gwella gan bwyll," atebai Sali. "Mae Arthur Jones—wi'n ffeilu'n deg a'i alw e'n Doctor Jones—yn 'i dendo fe, a mae e'n gweyd i fod e ma's o ddanjer erbyn hyn. Ond, wir, mae e wedi ca'l pwl caled, druan; a mae e wedi bod yn towlu gyment amboitu fel i fi ffaelu cael llygadyn o gysgu os dwy nos-waith! Ond mi gewch chi weld e drostoch eich hunan!"

A gyda'r gair agorodd Sali ddrws y pen ucha'.

"Nat," meddai hi. "Dyma Tomos Lewis wedi dwad i dy wel'd di."

Nid oedd yr ystafell yn debyg iawn i ystafell dyn claf. Yr oedd Nat wedi bod yn tynu mwgyn gyda phob ymwelwr, ac yr oedd yn "didor greu ei dewdarth" ar y gwely pan ddaeth Tomos Lewis i mewn. Eisteddai Arthur Jones wrth erchwyn y gwely, ac nid oedd y wên a lonai ei wyneb wrth wrandaw ar ystoriau Nat wedi cilio.

"Mae'n dda gen i gl'wed," meddai Tomos Lewis, ar ol edrych yn sŷn ar Nat, "eich bod chi'n gwella'n raddol. Shwd ych chi,



Arthur Jones? Mae yn gysur mowr fod genoch chi ddoctor da yma."

"Eitha' gwir," atebai Nat, "mae'r doctor wedi g'neyd ei waith yn gampus! Mae wedi tynu deg shotsen arall o'n ngho's i. Mae'n beth mowr meddwl fod gyda ni eto physigwr yn Israel, Tomos Lewis."

Clywai Arthur swn brwydr yn neshau.

"Nathaniel," meddai Tomos Lewis, "'dwy' i ddim yn lico'ch barnu chi'n galed pan yr ych chi'n diodde' fel hyn, ond y mae'n rhaid i fi ddweyd wrthoch chi mod i wedi bod yn gobeitho y bydde cystudd yn eich gneyd i feddwl yn fwy seriws am bethe."

"Yn seriws?" atebai Nat. "Odych chi'n meauwl mai dim ond wrth dynu gwèp hir § gall dyn fod yn seriws? Nid bod yn seriws yw'r gamp ar eich cefen yn y gwely a chan'odd o shots yn rholian dwmbwr-dambar drwy'ch corpws chi, ond bod yn ysgon eich meddwl, glei."

"Ddymunwn i ddim i chi beido bod fel hyny, Nathaniel, ond odych chi ddim yn meddwl, 'nawr, mai cenad yw'r cystudd hyn i'ch rhybuddio chi?" meddai Tomos Lewis yn dyner.

"Wel, falle taw e, wir," atebai Nat ar ol moment o ystyriaeth. "Ond os taw cenhadon oedd shots Twm Crydd, mae'n rhaid gweyd i bod nhw yn rhedegydd buan."

"I'ch rhybuddio chi, 'rown i'n feddwl," aeth Tomos Lewis ymlaen i ddweyd yn araf, "fod adeg bwysig i'ch cyfarfod chi just yn union."

"'Dodd dim ishe'r shots i weyd hyny," cellweiriaai Nat, "mi wn yn dda pryd mae dwarnod rhent yn dwad rownd."

"Nathaniel," atebai Tomos, "'rych chi'n gwbod yn dda beth w i'n feddwl. Da chi, chymrweh chi ddim o'r wers atoch 'nawr? Beth ta chi wedi cwrdd a'ch angeu pwy nosweth yn yr allt? Fe fydde'n—"

"Marw yn yr allt!" torai Nat i mewn. "Jaist, 'nawr 'rwy'n cofio! Jist yn y man hyny cespwyd gafael ar gorff 'rhen Falen Six Props 'slawer dydd."

Teimlai Arthur yn anesmwyth iawn trwy gydol yr amser, ond ni wyddai y ffordd i dori ar draws yr ymddiddan. Credai y gwelai ffordd o'r diwedd i droi'r siarad at rhyw bwne llai peryglus, a gofynodd—

"Malen Six Props, Nat? Odw i ddim yn cofio am dani hi, odw i?"

"O nag ych," atebai Nat. "Mae blynydde ymbeidus oddiar pan y fuodd hi farw, a gyda'r hen Dwmi'r Gelynen gynt y clywes i'r hanes."

"A mi fuodd hi farw yng ngho'd y Parc?" gofynai Arthur.

"Do, mi cawd i yno'n farw rheng rhyw fore dydd Nadolig ddeugen o flynydde'n ol," ebai Nat. "Ond i fi ga'l gweyd y stori yn daliedd wrthoch chi, fe ddylsw'n ddweyd mai mewn tŷ bach ar bwys y pentre 'rodd hi'n byw. Parc-y-beili odd enw reit y tŷ, ond 'rodd pobol yn ei alw e'n Six Props, am mai dim ond hen goedach odd yn i gadw e fyny. Hen feniw fach fitw, a'i chefen yn grwca fel bwa sa'th, o'dd Malen. 'Ro'dd hi'n ca'l rhyw gyment o wrth y plwyf, ag yn 'whilo'i thoc yma, a thraw ar hyd yr ardal. Ag fe fydde'n fynych iawn yn yr allt yn crynhoi côd a'u llusgo nhw i Six Props. Ond rhyw nos cyn y Nadolig fe'i dalw'd hi gan y rhew yn yr allt, a fe gas haint neu rywbeth, a bore drano'th mi cespwd hi gen weision y Dole yngorff marw!"

"Dier mi," meddai Arthur, er mwyn gwneyd rhywbeth i gadw'r heddwch, "mae'n syndod gyment sydd wedi digwydd mewn un plwydd ta ni ddim ond gwbed ei hanes i gyd."

"Wedi digwydd! Ody, mae e'n syndod," ebai Nat. "Ond nid dyna ddiwedd y stori. Fe a'th y gweision i mo'yn help, ag 'mhen tipyn fe espwd a'r corff i Six Props. Halodd Morgan Jones, eich tadeu—fe o'dd y *guardian* ar y pryd, wyddoch—imo'yn tad John y Sar i neyd coffin iddi, a mae John yn gweyd na chas ei dad ariod shwd waith i 'neyd, gynt na chwedyn. Chi'n gwel'd, 'rodd Malen yn weddol grwca pan o'dd hi'n fyw—bron yn wastad fel ta hi yn i chwrewt—ond 'rodd hi wedi rhewi fynydd ar ol marw, nes odd hi fel pellen a'i phen yn cwrdd a'i thra'd."

"Yn wir i chi," mynte Dafydd, tad John, pan gwelws e hi, "'dos dim iws mesur rhywbeth fel hyn. Mae'n llawer gwell i doddi hi mewn sach neu rhyw hen goffor. 'Dos dim posib gneyd coffin i tharo hi."

"Ond," mynte'ch tadeu, "alle ni ddim 'i mhystyn hi ar y ford 'ma a doddi pwyse ar 'i phen hi, i chadw hi'n gwmws?"

"Wel, mi allwn ni dreio, ta beth," mynte tad John, a dyna lle buon nhw yn mystyn 'i heilodau hi, a doddi un haner can pwnd ar ei brest hi, a phobo un ar ei dwy thro'd hi. Ond 'rodd dim posib cadw'r hen Falen yn 'i hyd. Erbyn bod eich tadeu yn gellwng i phen hi'n rhydd, dyna lle byse hi'n codi ar ei heiste'; ag erbyn i Dafydd ellwng ei thra'd hi'n rhydd, dyna hi'n cico'i thra'd yn yr awyr, fel gwelwch chi ebol tairblwydd."

“Nathaniel,” dywedai Tomos Lewis yn ei lais cryf, a chwml ar ei wyneb, “allwch chi ddim siarad am gorff marw ond gyda gwamalarwydd rhyfygus?”

Nis gwyddai Arthur beth i wneyd yn iawn rhwng y ddau. Tafodd olwg ymbilgar ar Nat. Ond aeth y gof ymlaen a'i stori yn ei ddull mwyaf diniwed.

“Dw i ddim ond gweyd calon y gwir wrthoch chi,” meddai, “ag os bosib eich bod chi'n credu y bydde'n well peidio gweyd y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir, os gwedodd y jystysed yn Llangoediog. Ond dyna'r hyn own i'n 'weyd” ychwanegai Nat, gan droi at Arthur, “'rodd eich tadcu a Dafi'r Sar yn ffeilu diall beth i neyd, ag o'r diwedd mynte Dafi—

“Beth ta ni'n clymi'r corff wrth y ford, a me gymhwysith ei hunan wedyn falle?”

“Eitha gwir,” mynte'ch tadcu, a fel 'ny gnespwd. 'Nawr, chi'n gweld, 'rodd yn arferiad yn yr hen amser i wylad y corff, a'r nosweth hyny 'rodd Dafi'r Sar a Twmi'r Gelynen—fe odd ail was y Dole y flwyddyn hyny, mi ddylsw'n 'weyd—i fod i wylad gyda'u gilydd. Amser Nadolig odd hi, ag 'rodd hi'n oer dychrynlyd. 'Rodd yr hen Falen, druan, wedi crynhoi digon o go'd tân erbyn y gaua', ag wedi doddi nhw yn y pen isha. A dyna lle'r odd Dafi a Twmi yn eiste' i lawr wrth y tân co'd, a chorff Malen wedi ei glymu wrth eu hochor nhw. 'Mhen tipyn 'roedd y tân yn mynd yn ishel, a dyma Dafi'n gweyd wrth 'wmi—

“Twmi,” mynte fe, “cer i'r pen isha, da machgen i, a dere a choeled o go'd yma.”

Wrth fod Twmi'n dwad 'n ol, “Dir!” mynte Dafi wrtho fe, “beth ta'r hen Falen yn dy weld di, Twm, yn llogi ei cho'd hi fel hyn! Mae e'n ddigon i neyd i'r hen lodes i ddwad 'nol o'r ochor draw.”

“Paid a siarad fel 'na,” mynte Twmi, wa'th un un ofnus iawn odd Twmi arioed.

“Wel, cer i mo'yn coeled arall,” mynte Dafi, “a mi 'newn y tro wedyn dros y nos,” a dyma Twmi ma's i mo'yn rhagor. Gyda'i fod e ma's dyma Dafi dan y ford, a'r fyned y da'th Twmi 'nol a llond ei gol o go'd, dyma Dafi yn tori y rhaff odd yn mynd yn rownd i frest yr hen Falen, a dyma hi'n sponco ar ei heiste' gyda fod Twmi'n pasio heibo'r ford.

“Y Mowredd anwl!” mynte Twmi, a lawr cas y goeled go'd fynd, a ma's rhedodd Twmi, ac i'r Dole ag e nerth tra'd i weyd fod 'rhen Falen wedi codi o farw'n fyw. A chyn i fod e wedi dybenn 'i stori, dyma Dafi ymo a'i wynt yn 'i law, wa'th mi gas ynte ofon fod yn Six Props wrtho'i hunan a'r hen Falen fel'ny ar 'i heiste'!”

Os oedd Tomos Lewis yn ddyn difrifol, yr oedd hefyd yn wr call, a gwelai nas gallai wneyd un daioni wrth siarad rhagor a Nat

yn y dymher yr oedd ynnddi. Felly, ar ol ychydig o eiriau caredig yn gobeithio y byddai Nat yn dal i wella, a gofyn yn gynhes i Arthur ynghylch ei fywyd a'i ragolygon yn Llundain, ymaflodd yn ei hat ac aeth allan o'r ystafell.

"'Rych chi ddim yn myn'd, Tomos Lewis?" gofynai Sali wrth y drws. "Wel, diolch yn fawr i chi am alw."

"Ha, Ha!" chwarddai Nat ar ei gefn yn y gwely, "'rown i'n meddwl y bydde stori Malen yn rhy gryf i stymog yr Hen Binacl, wa'th 'rodd hi'n rhyw berthynas i dad e, ag 'rodd pobol yn synu iddo fe'i gellwng hi fynd ar y plwydd. Ond, na chyffra i byth o'r fan yma, 'rown i'n dishgwyl iddo fe bob myned i ofyn os cese fe ddarllen a gweddio gyda fi."

---

## PENOD V.

### MRS. MORRIS Y GELLI.

Pe bae rhywun yn gofyn, "Pwy yw'r person mwyaf parchus yn Llanelwid?" tebyg y buasai mwy na haner y plwyfolion yn ateb, "Mrs Morris y Gelli." Yn un peth, yr oedd yn gyfoethog, yn ol dull Llanelwid o gyfrif cyfoeth. Hi oedd perchen y Gelli, oddiar marwolaeth ei gwr rhyw ugain mlynedd yn ol; ac er nad oedd maint y ffarm yn fawr, eto yr oedd yn rhydd oddiwrth bob dyled. Nid oedd gwell stoc o anifeiliaid yn y sir, a synai ffermyr y plwyf wrth weled y fath "wedd" oedd ar wartheg y Gelli bob amser. Dywedid, ymhellach, fod gan Mrs. Morris arian lawer yn 'dwyn iws;' ac ati hi neu at Morgans y Siop yr elai pawb pan am fenthycia arian i brynu tir neu i dalu'r rhent. Nid oedd byth heb "wy addo" yn y banc, ac nid oedd gan neb ond hi a'r offeiriad a Morgans y Siop y fath beth a *cheque book*. Mynych, gan hyny, yr oedd ar ei llaw i wneyd cymwynas a'i chymydogion, hyd yn oed y rhai mwyaf cefnog o honynt. Edrychai Nat arni fel un oedd ond ychydig yn is na gwraig y Plas, ac ymddangosai Anghydfurfiaeth yn *respectable* i Mr. Gwyn, yr offeiriad, pan gofiai am Mrs. Morris. Pan fyddai Daf Jones yn ymofyn anfon arian i dalu am ysgol Arthur ei fab, drwy *cheque* Mrs. Morris y byddai yn arfer gwneyd hyny. Sibrydid fod ganddi arian yn y rheilffordd; beth bynag, amlwg oedd i bawb fod Driscoll y stesion yn myned allan o'i ffordd i fod yn daliedd iddi, pan fyddai yn talu un o'i hymweliadau anfynych a'r dref. Faint bynag oedd ei chyfoeth, gwyddai pawb mai hi gafodd y

“benshar” o arian ei hewythr, yr hen Ddoctor Bowen, yr hwn a fu farw yn union wedi dychwelyd i Lanelwid ar ol treulio ei oes ar y mor fel meddyg yn y llynges.

Mrs. Morris oedd un o golofnau'r achos yn Salem. Cyfranai ddeg punt y flwyddyn tuag at y weinidogaeth—cymaint arall a Morgans y siop. Tanysgrifiai hefyd yn haelionus at bob achos da,—at y Feibl Gymdeithas, y Genhadaeth, a'r Colegau enwadol, ac at dreuliau'r capel. Yn adroddiad blynyddol y colegau, ei henw hi oedd y cyntaf dan enw Llanelwid. Rhywbeth fel hyn y rhedai'r adroddiad am flynyddau:—

Mrs. Morris, Gelli .....	£0	10	0
Mr. Morgans, Cambrian House .....	0	5	0
Mr. D. Jones, Dolau .....	0	2	6
Mr. T. Lewis, Coed Weddus .....	0	2	6
Mr. Morgan, Plas Newydd .....	0	2	6
Rev. W. Thomas .....	0	3	0
Small sums .....	1	13	2
<b>Total .....</b>	<b>£2</b>	<b>18</b>	<b>8</b>

Nid yn Gymraeg, os gwelwch fod yn dda! Mae aelodau Pwyllgor y Coleg wedi bod yn gwrthdystio yn hyawdl a phenderfynol yn erbyn penodiad swyddogion anghyfiaith yng Nghymru, yn enwedig os mai ar Lywodraeth Doriaidd y byddai'r bai, ond Saesneg yw iaith Adroddiad y Coleg bob blwyddyn. Cymraeg ydyw'r iaith siaredir yn y Pwyllgorau; Cymraeg bregethir gan y myfyrwyr; yn Gymraeg y gwneir yr apel wrth gasglu; oddiwrth Gymry—y rhan fwyaf yn Gymry unieithog—y ceir y tanysgrifiadau;—ond yn Saesneg, bid siwr, y mae'n rhaid rhoddi'r Adroddiad swyddogol! Nid oes neb yn Salem, ond Mr. Thomas y gweinidog a Morgans y Siop, yn darllen yr adroddiad oherwydd hyn; ond edrychir ar enwau y tanysgrifwyr, neu clustfeinir pan eu darllenir allan ar goedd gan y myfyriwr pan ar ei daith gasglu, gyda dyddordeb enfawr; oblegid yr hyn yw'r “Almanac de Gotha” i fawrion y Cyfandir, a “Debrett” i uchelwyr y Saeson, hyn yw'r Adroddiad i aelodau Salem.

Ond nid trwy gyfranu arian yn unig y mae Mrs. Morris yn cynorthwyo yr achos yn Llanelwid. Nid oes nemawr i gwrdd gweddi na seiet, na chwrdd parotoad wedi ei gynhal er ys blynyddau hebddi hi. Ond pan fydd cwrdd cwarter neu gymanfa, neu gwrdd te'r Ysgol Sul neu gymanfa ganu ar waith y gwelir

Mrs. Morris yn ei gogoniant. "Fe wnaiff Mrs. Morris a'r gwragedd caredig ereill, feallai, gymeryd at ddarparu lluniaeth,"—dyna gân Mr. Thomas y gweinidog yn wastad pan awgrymir yn y cwrdd eglwys y dylid rhoddi gwahoddiad i'r cylch enwadol i gynnal gwyl yn Llanellwidi. Ac ni phallodd Mrs. Morris a'r "gwragedd caredig ereill" erioed. Yn wir, un o brif olygfeydd Llanellwidi yw Mrs. Morris—a chap lasis ar ei phen a sbôl fach ar ei hysgwyddau—yn gwneyd têt pan fo uchel wyl yn Salem. Ati hi yr aiff pob pregethwr mawr a phob diacon blaenllaw i gael têt, ac ni ddengys dim safle gwr yn yr enwad yn well na ph'un ai ar ford Mrs. Morris neu ford "un o'r gwragedd caredig ereill" y rhoddir ef i yfed ei dê.

Mae gan bawb yn Llanellwidi ffydd fawr ym marn Mrs. Morris ar bob pwno cymdeithasol, canys oni chafodd ei chodi mewn ysgol ferched yn Abertawe? Gwir na fu hi yno ond am ddwy flynedd, ac ni chafodd fawr o ysgol mewn un lle arall. Ond ni fu un wraig arall o Llanellwidi mewn boarding school yn Abertawe. Cafodd Mari Jones, mae'n wir, ddau gwarter gauaf yn ysgol Llangoeddiog; ond gwyr pawb nas gellir cymharu ysgol Llangoeddiog ag ysgol Abertawe. Erbyn hyn, y mae merched pob ffarm yn y plwyf yn cael eu danfon "bant i'r ysgol," ac y mae merched Henry Plasnewydd wedi dechreu chwareu'r piano a'r harmonium! Mae rhai o'r bobl ieuanc yn barod i amheu dysgeidiaeth Mrs. Morris; ond saif ffydd yr hen genhedlaeth yn ddiysgog. Gall Mrs. Morris ysgrifenu yn well nag un wraig yn y plwyf, ac y mae ei llythrenau mor bigfain fel nas gall ond ysgolorion a rhai sydd yn gyfarwydd â "gwaith llaw" ddeall ei hysgrifen. Y mae, hefyd, yn ol tyb preswylwyr yr ardal, yn hynod hyddysg yn yr iaith fain. Y mae ganddi Feibl Saesneg yn ei sedd yn y ty cwrdd, a phan goda'r pregethwr ei destyn, try Mrs. Morris ddail ei Beibl Saesneg, a darllena'r adnod yn yr iaith hono. Derbynia bob wythnos gylchgrawn Saesneg, yn o-gystal a phapyr lleol a gyhoeddir yn Saesneg. Ni chlywyd hi'n siarad Saesneg erioed, hyd yn oed pan ei cyferchir yn Saesneg gan un o blant Saleni ar ymweliad o Lundain; ond defnyddia eiriau Saesneg yn fynych wrth siarad Cymraeg. Nid yw yn gwneyd hynny yn anghelfydd; nid yw yn llusgo gair Saesneg i'r ymadrodd megis gerfydd ei glustiau; ond dywed ef yn naturiol a digyffro, gan gymeryd yn ganiataol fod pawb yn ei ddeall, fel y gwna ambell ysgrifenydd Saesneg fenthycia gair o'r Ffrancaeg neu frawddeg o'r Lladin. Mewn gair, menyw "genteel" yw

Mrs. Morris, neu, fel y dywed Leisa'r forwyn, "meniw steilus ambeidus yw mystres."

Edrycha holl blant y plwyf arni gyda pharchedig ofn. Nid am ei bod yn gâs nac yn sarug wrth neb. Ni welodd un o aelodau Salem gwmwl ar ei gwyneb, ac ni chlywodd hyd yn oed gwasanaeth-ddynion y Gelli hi'n gwneyd dim mwy na cheintach mewn llais cwynfanus. Ond y mae rhyw urddasolrwydd disglaer yn ei hymddangosiad nas gellir ei ddesgrifio. Y mae yn sicr fod y pattens a wisga ar ddydd Sul gwlyb, yn ychwanegu at y parch a deimlir tuag ati. Nid oes pattens gan neb arall yn Salem. Y mae Mrs. Morris yn dâl wrth natur, ond pan fydd y pattens ar ei thraed, y mae o'i hysgwyddau yn uwch na'i chymdeithion. Tyn y pattens ymaith yn y lobby; a cherdda hithau i mewn yn araf i'w sedd ym mhen pella'r capel mor dawel fel na ohlywir ond trwst ei gwn sidan du yn clecian i fyny'r ale. Ar ol cyrhaedd ei sêd, ni eistedda Mrs. Morris i lawr yn union. Ei harfer yw cymhwyso'r cwshin coch yn y sêd yn gyntaf—yr unig un yn Salem, oblegid y mae'r setau ereill i gyd mor noeth a chreigiau Ty Ddewi. Bu Tomos Lewis yn teimlo'n anfoddlon i'r cwshin am flynyddau. Ar un adeg cafodd Mr. Thomas waith mawr i atal yr hen frawd rhag siarad ynghylch y peth yn y seiet; ond, erbyn hyn mae hyd yn oed Tomos Lewis wedi cynefino a'r cwshin. Ar ol eistedd i lawr, plyga Mrs. Morris ei phen am fynud neu ddwy cyn tynu'r allwedd fach o'i llogell i ddadgloi y box lle y cadwa ei llyfrau hymnau a'i Beibl. Yna gosoda ei thraed ar y droedfainc fechan sydd ar lawr y sêd, agora ei Beibl, neu ei llyfr hymnau, a disgwylia yn dawel am ddyfodiad y pregethwr.

Ni chlywodd neb mo Mrs. Morris yn canu yn y cwrdd erioed, er ei bod yn hoff o glywed canu. Hi yw y cyntaf bob amser ar ei thraed ar ol i'r pregethwr roddi'r gair maes i ganu. Cwyd cyn i'r pregethwr orffen darllen; tra na fyddai'r lleill yn codi cyn i'r blaenor canu ddechreu'r don. Edrychai'r hen bobl ar hyn fel peth gweddaidd yn Mrs. Morris, ond ni wnant geisio ei hefelychu. Mae rhai o'r merched ieuanc yn y blynyddoedd diweddaaf wedi dechreu dilyn ei hesiampl, oherwydd, meddir, eu bod o'r farn ei fod yn fwy "steilus" na chodi pan fo'r llinell gyntaf wedi ei haner ganu. Ond er fod Mrs. Morris yn gynar ar ei thraed, nid yw byth yn ymuno yn y gân. Mae pawb yn cymeryd hyn fel peth eithaf naturiol, ac, yn wir, y mae'n dra thebyg nad oes neb ond Mr. Thomas wedi sylwi ar hyny. Beth ydyw'r rheswm

am ei hymddygiad nis gwn, oblegid, ar adegau, gall Mrs. Morris ganu yn gerddar a soniarus. Yr esboniad rydd Gladys yw i Mrs. Morris gael ei dysgu yn yr ysgol yn Abertawe, na ddylai pobl barchus ganu yn y cysegr,—ac, wrth gwrs, nid yw'r bobl barchus yn canu yn y capelau a'r eglwysi Saesneg. Mae'n well ganddynt dalu côr i ganu yn eu lle!

Ni fydd Mrs. Morris byth yn brysio allan o'r capel yn union ar derfyn y gwasanaeth. Eistedda yn ei sedd hyd nes y daw Mr. Thomas ac ereill ati i siglo llaw a hi. Hi yw'r ddiweddar, bron, i ymadel o'r capel. Pan gyrhaedda'r lobby, caiff y pattens yn union yn y man y gadawodd hwynt ar ddechreu'r oedfa, oblegid y mae pawb ar eu heithaf yn cilio draw oddiwrth y pattens, fel pe byddent yn rhywbeth gwaharddedig.

Ond er cymaint oedd y parch a enillodd Mrs. Morris, ac er esmwythed ei byd, nis gellid ei galw yn hapus. Bywyd unig iawn oedd ei bywyd; nid oedd ganddi gyfeillion mynwesol; ac nid oedd ganddi berthynas yn y plwyf. Bob a Gladys oedd ei pherthynasau agosaf, ac nid oeddynt hwy yn ymweled a hi yn fynych. Er mor dawel oedd Mrs. Morris, yn eigion ei chalon yr oedd yn dyheu am rywun i'w charu a chydymdeimlo a hi, rhywun y gallai ymddiried ei chyfrinach iddo. Yr oedd Mrs. Morris, drwy ei hoes, wedi amcanu cael ei pharchu gan y gymydogoeth; yr oedd wedi cadw gormod iddi ei hun i enill serch a hoffder ei chyd-blwyfolion. Ac fel yr heneiddiai teimlai yn fwy-fwy y gwagder yn ei chalon, ac hiraethai am ddyfodiad Gladys i'r Gelli gyda dwysder ac angerddoldeb na fyddai neb yn disgwyl ynddi hi.

Mor helbulus a thrafferthus yw bywyd dyn! Mor siomedig, yn fynych, y teimla y mwyaf llwyddianus ar ei ddiwedd! Pan fo cysgodion yr hwyr wedi disgyn, ac y cymer gwr hamdden i fyfyrion ar ystyr bywyd, a'i gymharu a'r gau-amcanion a fu efe yn ymestyn ar eu hol yn nyddiau ei nerth a'i gryfder, mor aml yr esgyn gwaedd y Pregethwr i'r nefoedd fry, "Gwagedd o wagedd, gwagedd yw'r cwbl!" Wele un wedi enill cyfoeth, arall wedi enill anrhydedd, arall eto wedi enill dysg,—ond, O! mor siomedig y maent pan welant, yn rhy ddiweddar, iddynt ddibrisio yr hyn sydd werthfawrocach na golud, na chlod, na diwylliant — sef y Cariad ni ddiffydd yn angeu, ond a erys yn ieuanc yn oes oesoedd.



## PENOD VI.

### DISGWYL GLADYS.

Ty ffarm hen ffasiwn, a "chartref" wedi ei gerfio ar bob careg ynddo, oedd y Gelli. Yr oedd yn ddiarhebol drwy'r ardal am ei lendid. Yr oedd fflagiau gleision y gegin, a llawr mortar y neuadd, bob amser mor lân "fel y gallech 'i llio nhw," meddai Sali Nat. Ond yr oedd yn amlwg ddigon nes Sadwrn cyn Nadolig fod Mrs. Morris yn disgwyl rhyw un dieithr. Yr oedd llinellau gwynion cywrain wedi eu tori a shale ar gareg lwyd yr aelwyd a'r cerbydau gleiston gerllaw y drws. Yr oedd y celfi, y cwpbwrdd cornel, a'r seld, a'r wedder-glas, a'r warming-pan bres yn disgleirio. Yr oedd y crân mawr uwchben y tân wedi ei flac-ledo fel y gallech wel'd eich llun yaddo. Yr oedd y canwyllarnau melynion ar y fantell fawr yn edrych fel pe baent wedi cael eu gwneyd o aur. Yr oedd Leisa wedi gwyngalchu dan y grat, a doddi cot newydd o göltar ar y ffwrn. Yr oedd tân mawr yn y grât, a'i ben yn wyn fel yr eira gan belau wedi eu gwyngalchu, a gwasgai fflam fach las allan, 'nawr ao yn y man, rhwng rhyw gilfach yn y pelau, ac ar ol dawnsio am eiliad ar ben y copa gwyn neidiai o'r golwg i dywyllwch y simneu! Ar un pentan haiarn gloew chwyrnai tegil yn ei gwsg, ac ar y llall yr oedd y tebot yn twymo ei ochr wrth y tân.

Yn y pen uchaf o'r neuadd yr oedd drws yn agored i'r parlwr goreu. Yno yr oedd tân siriol wedi ei gyneu, a dwy gadair freichiau esmwyth wedi eu tynu un bob ochr iddo. Nid oedd dim hên na chyffredin yn cael lle yn yr ystafell hon—prif addurn a gogoniant y Gelli. Yr oedd grât bach isel wedi cymeryd lle yr hen rât mawr, lle gellid cyneu tan coed pe bae galw am hyny. Yr oedd y pocer, a'r tongs, a'r shofel o waith cywrain tad Nat y gof wedi eu halltudio i'r neuadd, a'u lle wedi eu cymeryd gan haiarn mwy rhodresgar a brynwyd gan Mrs. Morris ryw ddydd marchnad yn Abertawe. Yr oedd carped trwchus ar y llawr, ac yn lle yr hen ford dderi gwelid bord gron fahogani yng nghanol yr ystafell. Ar hon yr oedd lliain gwyrdd, ac ar hwnw yr oedd mydylau bach o lyfrau Saesneg a Chymraeg, wedi eu trefnu wrth rif a mesur, fel na fyddai un mwdwl yn uwch na'r llall, na mwy na llai na throedfedd yn gwahanu un oddiwrth y llall. Ymhlith y llyfrau yr oedd "Llyfr yr Hen Ficer," "Taith y Pererin," "Watts on the Mind," "Baxter's Saints' Rest," a gweithiau defosiynol ereill. Ar ganol

y ford gorweddaï mat blewog, ac ar hwnw album a llyfr hymnau. Yn erbyn y mur gogyfer a'r ffenestr yr oedd *sofa* fawr wedi ei gosod; ac wrth ei thraed sheffinier, haner o wydr a haner o fahogani. Ond yr oedd un hen ddodrefnyn heb ei symud. Mewn cornel tywyll, wedi haner ei guddio, safai'r cwpwrdd tridarn, fu gynt yn destyn ymfrost a llawenydd i genedlaethau o hynafiaid Mrs. Morris. Nis gellid meddwl am ddim mwy anghydweddol a'r gwycheder a ffynai ymhob rhan arall o'r ystafell—fel pe bai un o'r hen Ddiwygwyr yn ei got lwyd, yn dyfod yn ol i dreio codi hwyl ymysg crefyddwyr parchus yr oes hon!

Crogai darluniau ar y mur—darlun o'r Mab Afradlon yn cael ei roesawi gartref, o'r Swper Diweddf, o Rowlands Llangeitho, a Dr Rees Abertawe,—y ddau gyntaf mewn lliwiau coch a glas a gwyrdd, a'r ddau olaf a fframiau euraidd yn eu cylch. Yr oedd pob stol wedi ei gwneyd o fahogani, ac yr oedd antimacasar ar gefn bob stol, a dau, un ar bob pen, ar y *sofa*. Ni ddylid anghofio, 'chwaith, y gwydrau amryliw ar y sheffinier, ac, yn ddiweddf oll, rhaid cofnodi fod papyr euraidd yn gorchuddio'r mur, y cyntaf welwyd erioed yn Llanelwid.

Anfynych iawn y caffai neb weled gogoniant y parlwr. Ni wneyd defnydd o'r ystafell ond ar achlysur ymweliad pregethwr mawr, neu Bob a Gladys. Nid elai'r morwynion iddo heb dynu eu hesgidiau oddiam eu traed, a phan ddeuai câr neu gyfaill i ymweled a hwy, ystyrid ef yn fraint arbenig i gael cipolwg ar y parlwr. Caffai gwycheder yr ystafell effaith hynod ar Leisa'r llaethwraig,—nis gallai hi ond sisial yn isel pan fyddai yno, ac yr oedd ei hymarweddiad yn y parlwr yn llawer mwy defosiynol nag oedd yn y capel. Credai Mrs. Morris fod y chwaeth mwyaf dichlyn wedi ei arfer wrth osod y celfi a'r pethau yn eu lle; ac nid oedd dim a'i synai yn fwy na gweled fod Gladys yn fwy hoff o'r neuadd—lle'r arosai hen gelfi deri y Gelli—nac o'r parlwr gorwych ar yr hwn yr oedd Mrs. Morris wedi gwario gymaint o arian a thrafferth.

Ond er fod tân yn y parlwr, eisteddai Mrs Morris y nos Sadwrn hon wrth dân y neuadd, yn tosto bara.

"'Nawr, Leisa, gwnewch *haste*," meddai mewn llais owynfanus (oblegid mae'n rhaid cyfaddef fod Mrs. Morris yn hoff o geintach). "Beth 'ych chi'n 'neyd yr holl amser? 'Dwn i beth sy' ar y merched 'nawr! Pwy cyd fyddwch chi cyn dwad?"

"'Rwy'n dwad yn y fyned, mystres fach," atebai llais cryg Leisa oddiar y llofft. "'Rwy' jist bod yn barod. Fe ddwa i lawr man ceia i'n ffroe."

"Wel, gwnewch *haste* i ddwad," dywedai Mrs. Morris, "neu mae Gladys yn siwr o ddwad a'n ca'l ni yn sang-di-fang i gyd."

Cyn pen ychydig gellid clywed Leisa yn dod lawr dros y grisiau, ac yr oedd swm ei thraed fel taranau yn cyrhaedd Mrs. Morris yn y gegin oreu.

"Da chi, Leisa fach," ceintachai Mrs. Morris, "peidwch a chadw cymaint o swm! 'Rych chi'n ddigon i fyddaru dyn, a 'uyw 'mhen i ddim yn agos da."

"Dewch chi, mystres fach," meddai Leisa, fel pe yn siarad a phlentyn, "fe wna i ddisgled o dê i chi cyn daw Miss Bowen, ag mi wellith eich pen chi wedyn."

Nid oedd yn anhawdd canfod fod Mrs. Morris yn tyneru dan y driniaeth.

"O na," meddai, "fydd hi ddim yn hir 'nawr, a fydde fe ddim yn dryched yn daliedd tawn i'n dechre hebddi hi."

Erbyn hyn yr oedd Leisa yn brysur wrthi yn hala menyn a y tost yr oedd Mrs. Morris wedi barotoi.

Ar ol gwylio Leisa am rai mynudaau yn gorffen ei gwaith, a chuddio y mwdwl tost dan fasn a'i ddodi i dwymo ar stand fach gopor o flaen y tan, meddai Mrs. Morris—

"Mae'n well i chi gyneu canwylle heno, Leisa. Ma'r lamp a rhywbeth ma's o le arni."

"O'r gore," eai Leisa, "ble ca i ganwylle? 'Dwy' ddim yn meddwl eich bod chi wedi gadael rhai ma's."

"Beth yn enw dyn ych chi'n neyd a'r holl ganwylle?" gofynai Mrs. Morris. "Weles i ariod neb fel y chi am ddifa canwylle! Dim ond dydd Mercher dwetha y rhoes i dair canwyll i chi! 'Rych chi'n ddigon i ddistrywa dyn fel hyn, ag odych!"

"Wel, mystres," atebai Leisa, "'dwy ddim yn credu y gallwch chi weyd y mod i'n wasto canwylle. Mi gas Tom y wagner un o'r canwylle nos Fercher, a John y cowman un arall neithwr i'r lantarn, ag 'rych chi'n gwbod am y llall i fi i hiwso hi jist i gyd nos Iau i gwyro'r sane."

Gwyddai Mrs. Morris y ffordd i gilio ar ol ei gorchfygu. Estynodd gwllwm o allweddau i Leisa, gan ddweyd—

"Yn y *cupboard* isha ma' nhw. Mae'r un peth i chi dynu 'whech canwyll mas 'nawr tro bo chi yn y man, ond cofiwch nag ych chi ddim i ga'l rhagor hyd genol yr wthnos! A mae dwy o'r *moulds* yna hefyd rhwng y *candle-box* a'r wal. Dodwch rheiny yn y canwyllerni pres. Mi gynta y bydd rhaid ddodi tipyn o bap-yr yn rownd iddi nhw,—fe gewch bap-yr yn nrar bach y seld."

Ar ol cryn drafferth, oblegid yr oedd Leisa yn well yn y llaet dy a'r beudy nag yn y neuadd a'r parlwr—cafwyd pethau at eu gilydd, a dyma Leisa yn ceisio cyneu'r ganwyll drwy wthio ei phen i'r tân.

"Leisa! lo's," ebai Mrs. Morris yn gyffrous, "beth ych chi'n neyd? Dyna fel mae'n nghanwylle i'n cael eu difa drwy ga'l eu sacco i'r tân fel yna! Cymrwch dipyn o bapyr, ferch, a chynwch hi a hwnw."

A rol cyneu y ddwy ganwyll a'u gosod nhw ar y ford, gofynai Leisa—

"Pwy lestri fynwch chi, mystres?"

Yr oedd gan Mrs. Morris ddau set o "lestri goreu," heblaw ei "lestri at iws." Y llestri goreu i gyd oedd y rhai a gafodd fel rhan o'i "stafell" pan briododd, a'r llestri ail-oreu oedd y rhai a gafodd ar ol ei mhamgu.

"O, mae'n well i chi ddwad a'r llestri ail-oreu," meddai, ar ol ychydig o betrusder.

Dim ond unwaith neu ddwy yn y flwyddyn y boddlonai Mrs. Morris i wneyd defnydd o'r llestri goreu, rhag ofn iddynt gael eu tori wrth eu golchi neu eu doddi i gadw. Buasai yn ddigon hawdd cael llestri o'r un batrwn, pe bai anffawd yn digwydd; ond ni vnai hyn i Mrs. Morris feddwl yn llai am danynt. Ond am y llestri "ail-oreu," nis gellid cael eu bath yn awr am arian yn y byd. Mae pob disgl a saser a chwpan wedi eu marcio a "stamp a delw" hen waith llestri Abertawe, y *forget-me-not*. Ond ni welai Mrs. Morris ddim prydfferthwch na gwerth yn y llestri cain, a chredai eu bod yn llai eu gwerth oherwydd eu bod yn henach na llestri "stafell" ei hun.

Erbyn fod y tê yn barod, fe glywid swm cerbyd ar y buarth, a llais Twm yn galw ar y poni.

"Wo na ti, 'r gaseg fach! Pam na elli di aros yn esmwyth?"

"Dyna Miss Bowen wedi dwad, mystres," ebai Leisa, a'i gwedd yn lloni wrth redeg allan i'r gegin.

Cyn pen ychydig eiliadau rhedodd Gladys i'r neuadd, a thafodd ei breichiau am wddf Mrs. Morris, a derbyniodd groesaw cynhes gan yr hen wraig. Arhosai Leisa wrth y ford rhwng chwerthin a llefain, yn disgwyl yr amser i arwain Gladys i'w hystafell ei hun ar y llofft.

"Cerwch i dynu'ch pethe bant, Gladys," meddai Mrs. Morris, ym mhen tipyn, "mae'ch rhwm chi'n barod ar y llofft. Ond peid-

iweh bod yn hir cyn dwad i lawr, wa'th 'rwy'n siwr eich bod bron llwgu ishe cwpaned o dê, ac y mae'r te ar y ford."

"O'n goreu, nanti fach," ebai Gladys. "Fyddda i ddim myned cyn dwad lawr."

A chyn pen haner awr chwi allech feddwl, gan mor gartrefol yr edrychai Gladys yn rhedeg oddeutu'r ty—i'r llaethdy a'r gegin maes, a'r rhwm caws, a phob man—a'r telerau da a ffynai rhyngddi a Leisa a'r gwasanaeth-ddynion i gyd, mai yn y Gelli yr oedd wedi byw drwy gydol ei hoes!

## PENOD VII.

### GLADYS YN Y GELLI.

Wythnos felus iawn fu wythnos gyntaf Gladys yn y Gelli, a chymaint oedd ei mwynhad fel nas gallai aros yn llonydd am awr gyfan. Yr oedd y ferch ieuanc hon yn hoff o bobpeth byw a mynych y byddai yn canu wrth ei hunan eiriau swynol "Serch Hudol":—

"Hardd yw llun a lliw  
Pob peth a ddaeth o ddwylaw Duw;  
I b'le â llygad dyn nad yw  
Yng ngwydd y tlws a'r cain?  
Prydferthwch sydd yn llanw'r nef,  
A phob creadur greodd Ef,  
O'r eryr ar ei aden gref  
Pr dryw sydd yn y drain."

Ymysg y geir a'r colomenod a'r adar bach y mynai fod, ac ni ch odd y creaduriaid asgellog yn y Gelli erioed y fath fyd o'r blaen. Pe gwelsai bardd neu arlunydd hi ben boreu yn rhedeg allan i'r clôs a phadellaid o geirch yn ei llaw—a'r gwynt nwyfus yn chwarteu a'i gwallt ac yn codi gwrid i'w gwyneb — a'r ednod gwancus yn tyru o bob cyfeiriad ar ei hol, wrth swm ei "shw, shw" soniarus, a'i gwel'd yn bwyda â llaw dirion y fronrhuddyn a'r aderyn tô, ac yn ysgwyd ei 'ffedog yng ngwyneb rhyw chwyad daeog neu iar reibus a'i gyru ar ffo i'w lle eu hun, — pe gwelsai bardd neu arlunydd hyn, meddaf, coronai hi ar unwaith yn Frenhines yr Adar.

Ond nid oedd bardd neu arlunydd yn y Gelli, ac ni thynodd sylw neb ond Leisa wrth fwyda'r gieir a'r adar. Ac ni ddywedodd Leisa ond hyn—

“Dir safio ni! garw mor ffond o ffowls mae Miss Bowen.”

Un diwrnod daeth Twm y Waginer ag oen bach i'r ty, yr hwn oedd wedi rhynu yn un o'r caeau, a chafodd Gladys ganiatad gan ei mhodryb i fagu'r oen bach yn swci. Nid hir y bu'r oen bach cyn adnabod llais ei feistres, a rhedai ar ei hol i bob twll a chornel o'r ty. Am oriau bob dydd byddai Gladys yn chwareu gyda'r oen yn y gegin o flaen y tan, neu yn ei fwyda a'i fagu. Nid oedd ei mhodryb mor foddlon i Gladys ei alw yn “Top Morris.” Dysgodd Gladys bob math o ystranciau iddo, a byddai'r holl deulu yn tori allan i chwervthin wrth weled ei ystumiau yn neidio yn yr awyr pan alwai Gladys “Top Morris” arno!

Prydnawn dydd Nadolig ehedodd Robin Goch i'r gegin drwy'r drws agored, wedi ei ddenu o'r oerfel gan sirioldeb y tân. Wedi i Gladys ei ddal, ei gusanu, a'i anwylo, a'i fwyda, a'i gynhesu, a siarad ag ef fel pe bai yn deall pob gair a ddywedai, gollygodd ef yn rhydd. Ehedodd Robin bach ymaith, ond daeth yn ol dranoeth, a bu yn ymwelydd cyson a hi ar ol hyn hyd nes i'r hia gynhesu. Yna, er dirfawr hiraeth i Gladys, ehedodd ymaith ac ni ddaeth drachefn yn ei ol. Ond am fisoedd ar ol hyny, credai Gladys mai ei Robin bach hi oedd pob bronrhuddyn a welai yn agos i'r Gelli. Y mae o fy mlaen wrth ysgrifenu gopi o benillion yn llaw-ysgrifen Gladys, ac y mae yn dra thebyg mai yn wytnos y Nadolig y cyfansoddwyd hwy—

Fronrhuddyn bach gwladgarol!  
 Can' croesaw gei gen i,  
 Waeth pwy fo heb ei damaid,  
 Bydd tamaid fyth i ti!  
 I geisio gwlad hawddgarach,  
 Ni hedaist dros y lli'—  
 Ar Gymru fach ni chefnaist  
 Pan ddaeth y gauaf du!

Dywedir i ti ruddo  
 Dy dirion fron dy hun,  
 Wrth gario dwr i'r ffamau  
 At ryw golledig ddyn.

Ti roddet, gwn, dy einioes  
 Dros gâr, neu gyfaill eu,—  
 Ar Gymru fach ni chefnaist  
 Pan ddaeth y gauaf du!

Ni feddi geinder gwylan,  
 Na chwimder gwenol dloa,  
 Na llais yr eos seinber  
 A lona ddyfnder nos.  
 Anwylach wyt, Fronrhuddyn,  
 Er llwyded yw dy blu',—  
 Ar Gymru fach ni chefnaist  
 Pan ddaeth y gauaf du!

Ond nid gan greaduriaid mud yn unig yr anwylid Gladys! Yr oedd pawb drwy'r ty wedi lloni ac ysgafahan oddiar pan ddaeth Gladys yno, a dywedai Leisa na fu erioed mor rhwydd i fyw gyda Mrs. Morris. Ar ddydd Sul, bid siwr, aeth Gladys gyda'i mhodryb i Salem, er mawr syndod a llawenydd i ferched yr ardal. Am wythnos a rhagor ar ol hyny, prif destyn siarad y merched oedd y ffordd newydd y gwisgai Gladys ei gwallt, a *style* ei hat a'i gwn. Yr oedd Mari'r Pandy o'r farn mai *imitation fur* oedd ar ei siaced, a mentrai Mari'r wnyddes i'w hat "gosto dros sofran os costodd hi geinog."

Ond yr oedd un gwr yn Salem wedi cael mwy o fwynhad na'r merched. Ni chafodd "Theophilus y Cantwr" ddydd Sul mor ddedwydd erioed. Er fod Theophilus erbyn hyn yn hen wr, nid oedd wedi colli ei gariad at gerdd a chan. Un o wroniaid y Tonic Solfa yn Ystrad Tywi oedd Theophilus, a llawer stori ddoniol yr arferai adrodd am y gwrthwynebiad a deimlid gan yr hen bobl, haner can' mlynedd yn ol, yn erbyn canu mawl wrth reol. "Pa fodd y gallwn ganu mawl i'r Arglwydd," meddai un hen ddiakon ffyllon, "gyda so fa mi?" Ond yr oedd Theophilus ar y pryd yn ddydd ieuanc, ac yn llawn sêl ac yni. Ymresymai a'r hen bobl; dadleuai yn gadarn dros ganu "a'r ysbryd ac a'r deall;" ac o'r diwedd llwyddodd i gael ysgol ganu ynghyd.

Er cymaint ei frwdfrydedd, nid oedd Theophilus yn llawer o gantwr. Nid agorai ei enau wrth ganu, a byddai y swn, gan hyny, yn cael ei wasgu allan drwy y ffroenau, "fel ta fe'n dwad ma's drwy wagar cro'n," meddai Nat unwaith. Nid oedd, chwaith, wedi clywed llawer o gantorion da erioed. Clywodd Eos Morlais

yn anterth ei nerth a'i boblogrwydd. Cofiai glywed Llew Llwyfo unwaith neu ddwy pan ar grwydr drwy'r Deheubarth. Ond y diwrnod dedwyddaf yn hanes Theophilus oedd hwnw pan glywodd Edith Wynne! Ni flinai byth siarad am y diwrnod euraidd.

Eisteddai Gladys dydd Sul yn set Mrs. Morris—nid nepell o'r set fawr, a phan glywodd Theophilus lais Gladys yn ymuno i ganu "Crug-y-bar" o'r braidd na neidiodd allan o'i sedd gan gymaint ei syndod. Ar y cyntaf credodd mai Edith Wynne oedd yno. Yna canfu mai Gladys oedd y gantores. Nid oedd gan Theophilus, druan, glustiau i ddim ond i ganu Gladys. Nid oedd y wasanaeth ond megys breuddwyd iddo—ond y canu! A mynych ar ol hyn, yn ystod ei haresiad yn y Gelli, y daeth yr hen wr yno i ofyn i Gladys ganu iddo-rai o'r hen alawon a thonau Cymru.

Yn ystod yr wythnos cafodd Gladys lawer o ymwelwyr heblaw Theophilus a Robin Goch. Daeth Mr. Rowlands y ciwrat yno, am ei fod, meddai ef, wedi clywed fod Mrs. Morris ddim yn iach; daeth Benni Bach yno i ddweyd fod ei fam am i Gladys fyn'd i de i Blas Newydd; daeth Arthur Jones yno prydawn ar ol y Nadolig i ffarwelio cyn cychwyn yn ol i Lundain. Felly dedwydd iawn fu wythnos gyntaf Gladys yn y Gelli,—ond eto, edrychai yn brudd ar ol rhoddi ffarwel i Arthur Jones!

## PENOD VIII.

### "CYNGHOR NAT AR DDEWIS GWRAIG."

Ni fu Nat yn hir ar ei gefn yn y gwely. Mewn tridiau ar ol ymweliad "yr Hen Binacl" eisteddai wrth y ford i fwynhau ei ginio Nadolig, a'r noswaith ar ol hyny galwodd Arthur Jones i'w wled, ar y ffordd yn ol o'r Gelli.

"Helo, doctor," meddai Nat o'r gadair freichiau wrth ochr y tân, "dewch ymla'n. 'Rwy'n gwella fel y g'irchen!"

"Mae'n dda gen i wel'd hyny," atebai Arthur, "wa'th—"

"Ie, mae'n syndod gen i, Doctor Jones," torai Sali i mewn, "i wel'd e wedi gwella fel hyn heb gael llwyed o foddion! 'Ro'dd 'nhad yn arfer gweyd, 'slawer dydd, nag o'dd dim dishgwl gwella heb ellwng gwa'd neu lyngcu moddion."

"Wel," atebai Arthur, "mae gwaith doctor yn newid, fel gwaith ffarmwr neu ôf, fel y mae'r byd yn myn'd yn i fla'n."



“Falle hyny'n wir!” ebai Sali, “er nag w i ddim yn credu y gwelir byth yto shwd ddoctor a'r hen Ddoctor Prydderch! Dir gaton pawb, 'rwy'n cofio am y 'nhad, fod gyda fe yn wastod botel o foddion gas e gan Ddoctor Prydderch, a ta pwy glefyd fyse arno fe, 'dodd e byth yn newid y moddion. 'Rodd son, chi wyddoch, am yr hen Ddoctor Prydderch drwy Gymru a Lloegr i gyd, wa'th 'rodd e'n disgyn o âch hen Feddygon Myddfai, medde nhw, a — mi gynta 'ch bod chi'n gwobod yr hanes yn well na fi — fe fuodd e unwaith yn tendo'r Brenhin pan o'dd e yn Llynden.”

“Na, chlywes i ddim am hyny,” atebai Arthur yn wylaidd.

“O, mae e'n eitha gwir!” meddai Sali, “wa'th mi glywodd 'y 'nhad yr hen ddoctor i hunan yn gweyd yr hanes. Wel, chi'n gwel'd, pan o'dd 'y nhad yn ddyn ifanc, cyn iddo fe briodi, 'rodd e'n waginer gyda'ch tadcu yn y Dole — yno cas e afel ar mam, wyddoch. Fe ddath hi yno o Lanerwys fel lleithreg yr ail flwyddyn oedd 'y nhad yn gwasaneithu yno — ag yn y flwyddyn hyny fe ddaeth rhyw dwymyn drwy'r wlad, ro'en nhw'n galw'r ddyrton arni.”

“Y ddyrton?” gofynai Arthur. “'Rwy'n cofio clywed son am yr enw.”

“A dyna pryd,” aeth Sali ymlaen i ddweyd, “y cas mamgu y twtsh cynta o'r gwinegon. 'Roen nhw'n gweyd i bod hi cyn hyny mor shonc na fyse'r gwllithyn ddim yn dyferu dan i thro'd hi, ag 'rodd shwd liw ar i boche hi fel taw “cochen fach Llanelwid” 'roen nhw'n 'i galw hi pan o'dd hi'n ferch ifanc. Ond fuodd hi byth yr un peth, druan, ar ol y ddyrton!”

Arosodd Sali am foment i gael ei hanadl. Ni feiddiai Arthur edrych ar Nat, yr hwn oedd yn plygu ei ben i gael tanio ei bib.

“Wel, chi'n gwel'd Doctor Jones,” meddai Sali ar ol cael ei gwynt ati, “'y nhad gas i gym'ryd gynta gyda'r dwymyn. 'Rodd e a'r gwas mwya' ym mhoilid yn un o'r ceie dan y ty, ag yn ddisymwth dyna nhad yn dechreu crynu nes odd e'n ffeilu cydio yng nghorn yr arad! A mi gas shwt ofan nes y gweiddodd e “Wb, wb!” ar y gwas mwya. “Be' sy arnat ti 'r ffwl!” mynte hwnw. A chyda bod y gair ma's o'i ben e dyma ynte yn dechreu crynu fel y ddeilen; a dyna lle buon nhw eill dau yn shiglo gyda'u gilydd man hyny am haner awr neu ragor, nes i'ch tadcu ga'l gafel arni nhw amser gellwng.”

“Sali fach,” torai Nat i mewn, “'dyw doctoried 'nawr ddim yn stydio hanes y ddyrton.”

“Falle nag y'n nhw,” atebai Sali yn swrth, “wa'th mae e'n syndod na fu hi byth yn y wlad wedyn! Ond fydde nhw ddim gwa'th e gael gwbod rhywbeth am y dwymyn, wa'th wyddon ni ddim pwy flwyddyn bydd i thro hi yma yto! A fel o'wn i'n gweyd wrthoch chi, fe gariwyd 'y nhad a'r gwas mwya' gartre i'r Dole. Fe gas y gwas mwya fyn'd i'r ty i orwedd, ond 'dodd dim lle i rhad yn y ty, ac fel'ny gorffod iddo fe orwedd yn y bedrwm uwch ben y boudy. Ag 'rodd e'n arfer gweyd y byse hi wedi myn'd i'r pen arno fe man 'ny on 'se i mam i dendo fel y gnath hi.”

“Mae ca'l nurse dda yn haner y fatl,” meddai Arthur, “fel y gwyr Nat yma erbyn hyn.”

“O, na!” brathai Sali, “'dyw Nat ddim wedi dysgu hyny eto, a'i dyngu, neu mi fyse gydag e lawer o olwg arna i nag sy'! Ond dyna beth own i'n mynd i weyd wrthoch chi, mi gas 'y nhad yr amser hyny boteled fowr o foddion gyda Dr. Prydderch. Mae'r botel gyda fi yma byth—mae gyment a mhen i—a mae Nat yn arfer gweyd y byse fe'n fo'lon ar lond hono o gwrw fel lwans ar ddydd cylcho wheels! Mae Nat, chi'n gwel'd, wedi myn'd rhag-ddo—dim ond meddwl am sacco yn 'i fola mae e byth a hefyd! A chas 'y nhad byth boteled arall o foddion tra buodd e byw! Os byse rhywbeth y mater arno fe—ta'i ben yn dost ar ol acshwn neu'r ddanodd arno fe, neu dwtch o'r gwinegon—'rodd e'n wastod yn cymeryd llond llwy bowtir o'r hen botel, ag 'rodd e'n gwella fel y cyw!”

“Wel, wel,” meddai Arthur, “dalle fe byth bod yn dost yn fynych, neu mi fyse wedi dybenu'r botel flynydde cyn iddo farw.”

“O, chi'n gwel'd,” ebai Sali, “'rodd 'y nhad yn credu fod yr hen Ddoctor Prydderch wedi diall 'i gyfansoddiad e drwyddo draw. Ag 'rodd e wedyn, pan fyse'r moddion wedi myn'd yn isel yn y botel, yn ei llanw hi a dwr, lan i'r top; ag 'rodd e'n gweyd fod dim ond blas moddion Doctor Prydderch yn hala ofan ar bob clefyd.”

“Pryd byddwch chi'n myn'd 'nol i Lynden, Doctor Jones?” gofynai Nat ar ol i Sali orffen.

“O, mae'n rhaid i fi fyn'd 'nol y peth cynta' fory,” atebai Arthur.

“Yn myn'd 'nol i Lynden fory?” ebai Sali, a'i dwylaw i'r lan. “'Dych chi ddim yn ceisio gweyd hyny! Yn 'y ngwir i, 'rych chi'n gweithio lawer rhy galed. Dim ond 'whech dwarnod o wyle amser Nadolig, a haner yr amser yn slafo gyda Nat!”

“Dwyt ti ddim yn diall Sali fach,” meddai Nat, cyn i Arthur gael amser i ateb, “fod y doctoried ifenc yn leico ca’l dyn fel fi dan eu dwylo! ‘Ti’n gwel’d, mae Doctor Jones wedi gorffod talu cano’dd o bune er mwyn ca’l trafod pob math o gleifion, a mi gynta na chas e’r cyfle i dynu shots ma’s o lawer o honi nhw!”

“Talu am drafod cleif’on, wir!” ebai Sali yn syn. “Y cleif’on, gwlei, ddyle dalu, a thalu’n dda, am ga’l eu trafod. Ond dyna, pobol od yw’r Saeson a’r Padis ‘na. ‘Dyn nhw ddim fel y Cymry; ag os gwnewch chi gymwynas a nhw, o’r braidd y rhodda nhw thenciw i chi am eich trwbwl. Ond, ‘dyw e ddim yn wir, ody e, Arthur Jones, eich bod chi’n gorffod talu am roddi moddion i’r bobl ‘dlodion yn Lynden?”

“Wel, odi, mae e’n eitha gwir,” atebai Arthur, gan wenu.

“Chlywes i ‘riod shwd beth!” meddai Sali. “Garw’r fath fydd sydd ar gleif’on Llynden, ‘weda i! A dyne fine yma, llawer gwaith ‘rwy’n teimlo eisho doctor, ond ni feiddia i ddim i hala i, moyn Doctor Davies, wa’th mae’n nhw’n gweyd ‘i fod e’n shwd ddoctor pryd,—yn codi wheigen ar Benni’r Lletty, druan, am bob siwrne y da’th e yno i wel’d e, er i fod e’n myn’d drws nesa’ i wel’d Mr Morgans,—a dou swilt am bob poteled o foddion! A mi fyse’n well gan Nat ‘y ngwel’d yn marw ar ‘y nhra’d na thalu pum’ punt i ddoctor am ‘y ngwella!”

Yr oedd llais Sali wedi lleddfu llawer wrth siarad, ac yr oedd ei thosturi oherwydd ei chyflwr truenus ei hun yn cynyddu gyda phob brawddeg. Erbyn iddi ddirwyn y frawddeg olaf i’r pen, yr oedd y dagrau ar ei grudd, ac aeth ymlaen i ddweyd—

“Ag ‘rwy’n credu, Arthur Jones bach, na fyse fe’n hido fowr tawn i’n myn’d i ffordd yr holl ddeiar fory nesa’. A ‘dwy i ddim yn credu y bydda’ i ar ffordd neb yn hir. ‘Rwy’n diodde mwy nag yw neb yn feddwl o wrth ddolur y galon er na cha i ddim cydymdeimlad—a mae’r gloch farw’n ‘y nghlust i’r fyned yma! A phan af fi, falle gwelith Nat golled ar ‘nol i, er nad w i ddim yn meddwl y claddith e fi fel y dylse fe!”

Ac allan a Sali i’r pen uchaf, tra yr edrychai Nat ar ei hol gyda gwen ar ei wyneb.

“Arthur,” meddai, ym mhen ychydig amser, gan siarad yn bwyllog a thynu mwgyn rhwng pob brawddeg, “‘rwy’ wedi bod yn meddwl mai peth ymbed yw dewis gwraig; ag wn i ddim pam mae pobol mor ddwl a gneyd peth mor bwysig pan mae nhw yn rhy ifanc i wybod dim yn i gylch e—(pwff, pwff, pwff). ‘Rych chi wedi bod yn garedig iawn yn ‘y nhendo i fel hyn, a

mi gynta na alla i byth eich talu chi 'nol, fel y dylwn i (pwff). Ond mi alla i roi cyngor i chi'n gystled a rhyw un arall—(pwff, pwff),—wa'th 'dyw cyngor ddim yn costi dim i neb, ta faint mae'r profiad wedi gosti cyn gellir ei roi e—(pwff). Fe fyddwch chi'n dryched ma's am wraig un o'r dwarnode nesa' 'ma—mae doctor yn ots i bregethwr. Mae mwy o ddylanwad gan bregethwyr cyn priodi—(pwff)—ond 'dos gyda pobol ddim fydd mewn doctor dibriod—(pwff, pwff). Wn i ddim pam, os nad y'n nhw'n meddwl na all e uam cydymdeimlo a phobol s'yn diodde—(pwff, pwff). 'Dos dim iws i chi ga'l gwraig salw, neu mi fydd yn gas gyda chi i gwel'd hi amboitu'r ty—(pwff); ond peidwch mynid un *rhy* lan, neu fydd hi'n meddwl am ddim ond gwisgo a thaclu a myn'd ar ger'ed, er mwyn dangos 'i hunan—(pwff, pwff). Mae'n dda ca'l meniw a thipyn o waddol gyda hi, neu falle 'dyfarwch chi pan fydd y teulu'n pryfo a helbulon yn dwad ar eich traws chi—(pwff); ond peidwch mynid gwraig rhy abal, neu falle y bydd hi'n danod 'i harian o hyd—(pwff, pwff, pwff). Ac er mwyn pob peth, mynwch feniw syber, wa'th 'dos dim mor gas ag aelwyd frwnt a thy pendramwnwg—(pwff); ond 'dos dim iws i cha'l hi yn *rhy* lanweth, neu mi fydd yn meddwl nawy am gadw'r ty yn lan na gneyd y gwr yn gysurus—(pwff, pwff). 'Neiff e ddim drwg iddi fod yn feniw grefyddol, wa'th mae tipyn o elfen crefyddu yn taro gwraig, ac yn helpi i chadw hi'n bles—(pwff); ond gochelwch beidio ca'l un dduwiol-frydig, os gwedodd yr Hen Binacl, neu fe fydd am hadel i chi ga'l un pleser yn y byd hyn er mwyn i chi fod yn hapus yn y byd arall—(pwff, pwff, pwff). Mynwch wraig a thipyn o stamp ynddi, wa'th 'dos dim yn wa'th i ddyn na cha'i i ffordd ym mhob peth—(pwff); ond ymswynwch rhag ca'l gwraig fydd yn moyn ca'l pobpeth fel y myn hi, ag yn ceintach yn erbyn pawb—”

“Beth wyt ti, Nat, yn falban 'nawr wrth Doctor Jones?” gofynai Sali, wrth ddyfod i fewn dros drothwy'r drws. “Rhyw lol, yto, mi wn!”

“Rhoi cyngor iddo shwd i ddewis gwraig rown i, Sali fach,” meddai Nat.

“Llawer wyt ti'n wbod nag yn hido am rinwedde gwraig,” atebai Sali, “a bachgen pert wyt ti i roi cyngor i neb.”

“Wel, 'y nghalon i,” meddai Nat yn ddifrifol, gan sugno mwg yn araf o'i bib, “wedes i ddim llawer wrth Doctor Jones, ag falle na chofith e ddim o'r tipyn glywodd e gen i. Ond fe gofith y cyfan os cofith e i fynid gwraig yn gwmws fel ti!”

"Cer o 'na ti'r creadur!" ebai Sali, gan wenu'n foddhaus, "glywsoch chi ariod y fath lol a'ch clyste, Doctor Jones? Ag ynte'n hen ddyn, wedi gadael 'i haner cant, ag wedi bod yn briod os saith mlynedd ar hugain i G'langaua' nesa'—ond 'dych chi ddim yn myn'd yto, os bosib, Doctor bach?"

"Odw'n wir," atebai Arthur yn frysiog, oblegid yr oedd wedi clywed eithaf digon o hanes teuluol Sali, "mae yn rhaid i fi fyn'd. Fe fydda'n 'madael yn fore bach fory, a mae gen i grugyn o waith i 'neyd cyn bydda' i'n barod."

"Wel, os os yn rhaid i chi fyn'd," ebai Nat, "'dos gen i ond diolch yn fawr am eich caredigrwydd."

"Ie'n wir, Doctor Jones," meddai Sali, "wn i beth ar wyneb daear las nese'n ni—"

"Peidiwch siarad," meddai Arthur, "'rown i'n falch i ga'l y cyfle i dalu pwyth i Nat yma. A goodbye i chi'ch dou, a halwch i weyd shwd mae Nat yn dwad yn mla'n."

"Gnewn yn siwr!" ebai Sali. "Goodbye Doctor Jones, a lwo dda i chi yn Llynden."

"Dyna fachgen neis yw Arthur," meddai Sali wrth Nat ar ol i'r drws gauad arno. "Mae e mor garedig a'i dad, ag mor stydi a'i fam."

---

## PENOD IX.

### MR. ROWLANDS Y CIWRAT.

Un o'r rhai cyntaf i alw yn y Gelli wedi dyfodiad Gladys oedd Mr. Rowlands y ciwrat. Ni fu ciwrat yn Llanelwid o'r blaen. Hyd yn hyn yr oedd Mr. Gwyn yr offeiriad wedi boddioni gwneyd y gwaith i gyd ei hunan, a chan nad oedd dwsin o bobl yn yr eglwys "hirddydd haf, pan fyddai sychaf y ffyrdd a chlaearaf yr hin," nis gellid cyhuddo Mr. Gwyn o weithio yn rhy galed. Ni chynhelid un math o gyfarfod eglwysig ar noswaith waith, ac ar y Sul awyddfryd mawr Mr. Gwyn oedd myned trwy'r gwas-anaeth mewn tri chwarter awr. O'r "anwyl gariadus frodyr" hyd yr "Amen" ddiweddaf, carlamai drwy'r gweddiau'r a'r Salmau, ac yn fynych byddai haner y ffordd drwy'r weddi nesaf cyn y clywid "amen" gysglyd Harri'r crydd ar ddiwedd y weddi flaenorol. Ni chyfrifid Mr. Gwyn yn rhyw lawer o bregethwr,

a honai Nat mai'r un pregethau oedd ganddo oddiar pan ddaeth gyntaf i Lanelwid, ddeng mlynedd ar hugain yn ol. Ar y Suliau darllenai bregeth bymtheg mynud; ond ar adegau neill-duol, megis ffest clwb neu gwrdd diolchgarwch, pregethai am bum mynud yn hwy. Er hyn i gyd, yr oedd gan y plwyfolion barch mawr i Mr. Gwyn. Hanai o deulu da—yr oedd ei fam yn perthyn i Mrs. Bassett y Plas. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychen. Ar ol ei briodas yr oedd yn ddyn cyfoethog, ac yr oedd ei haelioni wedi lloni bywyd llawer hen wr tlawd a llawer hen wraig fethiantus. Eisteddai yn fynych ar fainc yr ynadon yn Llangoediog, a chodai ei lais i fyny bob amser o blaid lleddfu llymder y gyfraith a thrugaredd. Dan yr hen oruchwyliaeth, efe oedd Cadeirydd Ffestri'r plwyf, ac yn y swydd hono enillodd edmygedd pawb. Ei air oedd ei ddeddf; ni wnaeth ddrwg i neb, ac ni chreodd chwerwder ysbryd a digofaint yn ei blwyf. O lwyrfryd calon gweddiad bob boreu Sul, "Oddiwrth genfigen, digasedd, bwriad drwg, a phob anghariadoldeb, gwared ni, Arglwydd daionus." Mewn gair, yr hyn ddywedai Macaulay y dylai pob offeiriad fod, hyny oedd Mr. Gwyn yn Llanelwid—yr oedd yn foneddwr yn y plwyf.

Ond erbyn hyn yr oedd Mr. Gwyn wedi heneiddio, a chan na ddeallai ei wraig a'i ferch ond ychydig o Gymraeg, aeth gwaith yr eglwys yn fwy o faich iddo o hyd, ac o'r diwedd penderfynodd gyflogi ciwrat i'w gynorthwyo. Cafodd fwy o anhawsdra i gael ciwrat, nag a feddylodd. Plwyf mawr gwledig yw Llanelwid, ymhell o gyrhaedd tref a rheilffordd, heb ond dwsin o Eglwyswyr yn trigo o'i fewn. Da fuasai gan Oronwy neu'r Prydydd Hir gael y fath giwradaeth, lle cawsent hamdden i farddoni a llenyddda heb eu blino gan waith plwyfol na dyledswyddau eglwysig. Ond pobl o dymher wahanol yw'r ciwradaid ieuanc yng Nghymru heddyw. Nid hamdden ond gwaith a geisiant, a chan fod llawer o honynt wedi eu codi yn Anghydfurfwyr neu dan ddylanwad Anghydfurfiaeth, gosodant safon uchel o'u blaen o weithgarwch yn y weinidogaeth. Ar ol cryn drafferth, llwyddodd Mr. Gwyn i gael gwr ieuanc wyth ar hugain oed, yr hwn oedd newydd orffen ei yrfa fel "myfyriwr dwy-flynedd" (*biennial student*) yn Llanbedr i gymeryd y giwradaeth. Enw'r bachgen ieuanc oedd William Rowlands.

Brodor o Sir Aberteifi (nid oes eisieu dweyd) oedd Mr. Rowlands. Ffarmwr oedd ei dad, ac yr oedd ef a'i deulu yn aelodau ffyddlon gyda'r Methodistiaid, mewn plwyf nid nepell o Lanbedr-

pont-Stephan. William oedd yr ieuengaf o dri o feibion. Bu yn gweithio ar y ffarm gartref hyd nes iddo gyrhaedd oedran gwr; ond daeth y tad i weled yn raddol nas gallesid cadw'r tri mab gartef. Gan nad oedd argoel i'r ddau henaf briodi, penderfynwyd fod yn rhaid i William hedfan allan o'r nyth. Ar ol llawer o ystyriaeth, cytunodd William i fyned yn offeiriad. Nid oedd ei dad yn twyllo ei hun fod yn ei fab ieuengaf gymhwysderau arbenig at yr offeiriadaeth. Ond beth arall ellid wneyd o'r bachgen? Yr oedd eisieu gormod o arian a dysg i wneyd meddyg neu gyfreithiwr o hono; nid oedd ganddo ddawn pregethwr; ac yr oedd yn rhy hen i'w ddanfôn fel prentis i siop. Nid oedd dim yn aros gan hyny, ond gwneyd offeiriad o'r bachgen.

Danfônwyd ef am dymhor i ysgol ramadegol, ac oddiyno pasiodd ym mhen blwyddyn i Coleg Llanbedr. Ond bu'n anhawddach i William, druan, i ddyfod allan o'r Coleg nag i fyned yno. Ar ol cryn drafferth, a siomedigaethau lawer, o'r diwedd coronwyd ei ymdrechion â llwyddiant mewn pryd i dderbyn cynyg Mr. Gwyn i weinidogaethu fel ciwrad yn Llanelwid.

Achosodd ei ddyfodiad lawer iawn o siarad a holi yn ei gylch ymysg pobl y plwyf. At Nat y rhedai pawb dan y fath amgylchiad, oblegid yr oedd Nat yn berchen ar allu hynod i chwilio allan hanes pobl.

"Faint o amser fuodd y ciwrat newydd yn y Colej, wedsoch chi?" meddai un diwrnod yn yr efail. "O, 'dos dim gwybodeth faint! 'Rodd y bobol o'dd yn 'i gofio fe'n myn'd yno i gyd wedi marw cyn iddo fe ddwad ma's—ond dou. Un o'dd ei dad, a wede fe ddim wrth gwrs, a'r llall yw'r cymydog drws nesa', a hwnw wedws wrtha i am dano fe. Pan basodd e miwn i'r Colej, 'rodd 'i dad mor falch a phe byse fe wedi ca'l i neyd yn ganon neu'n esgob! A dyma fe'n gweyd wrth 'i fab—

"William," mynte fe, "'rwy'n doddi wye dan yr wydd heddi, ac erbyn dy fod di'n barod i fyn'd yn 'ffeirad, mi fyddan wedi tyfu'n wydde braf. Mi gadwa i un o honyn nhw, i ni cha'l hi i gino pan fyddi di wedi dybenu paso trwy'r colej."

"O'r gore," mynte ynte, "fe gawn i bwyta hi cyn pen tair blynedd."

"Fel o'dd y lwc yn bod, dim ond un o'r wye dda'th lawr, a chlacwydd o'dd hwnw! Wel, fe dda'th y tair blynedd i ben— a dim son am William yn paso. A'r bedwerydd, a'r bumed, a'r 'wheched, nes i'r hen wr 'i dad i golli cownt, a'r hen glacwydd

i fyn'd mor deneu a sgadenyn, a 'stim dowl medde'r cymydog, na fyse William wedi scriwo gwddwg yr hen glacwydd ta fe wedi ca'l haner shawns, gan gyment ma's natur o'dd e'n myn'd bob tro gwele fe'r hen griadur amboitu'r clôs. 'O, deico di!' myute'i dad wrtho fe o'r diwedd, 'os na basi di'n gloi, fe fydd yr hen glacwydd yna wedi troi'n wythi i gyd.' Ond 'ta beth, yng nghyflawnder yr amser, mi basodd William. Ac yna fe laddwyd y clacwydd, fe'i rhostwyd e',—ond 'do'dd dim posib saco ffore drwy 'i gro'n e! Wedyn fe'i berwyd e yn y cawl am orie ar y tro, ond erbyn ei ddodi e ar y ford, 'rodd i gig e wedi troi yn gare sgidie! A chespwd fowr o flas wrth dreio pilo esgyrn yr hen glacwydd."

"Ie, lycoch chi!" meddai Dafî Jones, yr hwn oedd, fel arfer, yn un o'r gwrandawyr, "'rwy't ti, Nat, yn gallu golchi erni pan ei di'n nghyd a hi!"

"Na chyffra i, mae'n wir bob gair," ebai Nat, gan chwerthin.

Ond gwir neu gelwydd, aeth y stori am y "clacwydd" ledled y plwyf yn llawer cynt nag y gallai Mr. Rowlands ei dilyn.

Yn fuan ar ol dyfodiad Mr. Rowlands cymerodd cyfnewidiadau dirfawr le yn ffurf y wassnaeth eglwysig. Dywedai'r clochydd, sef Harri'r Crydd—fod y ciwrat newydd yn haner Pabydd, oblegid yr oedd yn troi i'r Dwyrain wrth adrodd y Gredo, mcesymgrymai'n isel bob tro y dywedai enw'r Gwardedwr, rhoddai'r fendith o'r "allor," a chanai'r "Amen" ar ddiwedd pob emyn. Ar ol clywed cwynion Harri yn y Red Lion, penderfynodd Nat fyn'd i'r eglwys i gael gwel'd y defodau newydd drosto ei hun.

"Un rhyfedd yw'r 'ffeirad newydd 'na," meddai yn yr eiail boreu dranoeth, yn ei ddull mwyaf gwawdlyd. "'Dall e ddim bod fyned yn llonydd yn yr eglwys, ond dyna lle mae e, chi'n gwel'd, yn symud yn ol ag yn mla'n ag yn codi ag yn ishte, ag yn penlinio ag yn bowo fel meilart ar domen! Mae'n bownd fod springs go dda yn ei wddwg e, neu, na chyffra i, mi dore gan mor fain a hir yw e! Jaist, mae'n werth ca'l gwddwg fel 'na! Un ymbeidus o dda yw e i lyncu pwdin!"

"Lycoch di, Nat," meddai Dafî Jones oddiar "stol y gwrando," "'rwy't ti gystal a chrwth a thelyn mewn-tÿ, ag wyt," gan dori allan i chwerthin drachefn.

Profedigaeth fwyaf Mr. Rowlands oedd darllen y llithiau foreu Sul yn Saesneg. Pan fyddai Mr. Gwyn yn bresenol, cymerai efe arno ei hun y gwaith o wneyd hyn, ond ni fyddai



Mr. Gwyn yn croesi dros drothwy'r drws ar ddiwrnod gwlyb neu oer. Nid oedd Mr. Rowlands, chwareu teg iddo, wedi cael fawr o gyfle i ddysgu'r iaith fain yn ddileidiaeth. Er iddo fod am saith mlynedd yn paratoi ar gyfer yr offeiriadaeth, yr oedd wedi gwario hanner yr amser neu ragor gartref. Buasai yn dda ganddo pe gallai osgoi'r ddyledswydd; ond nid oedd Mrs. a Miss Gwyn yn deall y wasanaeth Gymraeg, ac angenrhaid a osodwyd arno i gyfranu moddion gras iddynt hwythau. Bu Mr. Gwyn, hefyd, yn garedig iawn wrtho pan welodd ei gyfyngder. Gwnaeth iddo ddyfod i'r Persondy, ac yno y bu yn ei gyfarwyddo pa fodd i ddarllen y llythiau yn Saesneg. Ond er holl ofal Mr. Gwyn, nis gellid trwsio ar unwaith acen Gymraeg y ciwrat, ac adroddai Miss Gwyn (mae'n rhaid ychwanegu, gyda gwên faleisus) wrth ei thad, fel y darllenodd y ciwrat un boreu adnod fel hyn:—  
 "And Pilate asked, What is truth? And when he had said this, he went out again unto the juice."

Ychydig cyn i Gladys ddod i'r Gelli, adroddid stori arall ynghylch Mr. Rowlands yn y plwyf.

Galwodd yn yr efail un tro i wel'd Nat.

"Shwd ych chi heddi, Nathaniel Williams?" meddai yn foesgar wrth Nat.

"Weithe fel hyn, weithe fel arall," atebai Nat. "A ffordd i chi'n lico Llanelwid?"

"Lle ardderchog yw e," meddai Mr. Rowlands.

"Wel," ebai Nat, "'rych chi'n gwbod yn well na fi, wath weles i 'run lle arall ariod."

"Naddo fe?" gofynai'r ciwrat.

"Naddo," meddai Nat, gan edrych yn ddiniwed. "Mi fues yn Sir Aberteifi, wrth gwrs, ond 'dwy i ddim yn cownto hynyn ddim.—Fuoeh chi'n gwel'd Harri'r Crydd yn ddiweddar?"

"'Dyw Henry ddim yn dost, 'rwy'n gobeithio?" gofynai Mr. Rowlands, wedi ei frawychu gan wyneb difrifol Nat.

"Nag yw, am wn i," atebai Nat. "Ond mi glywes bore heddi i fod e wedi ishte lawr ddo' i gino yn eitha iach am haner awr wedi deuddeg, ond cyn un ar gloch yr oedd e' wedi darfod!"

"Dir gaton ni," meddai'r ciwrat yn gyffrous, "ni chlywes i 'run gair am hyny."

Ac ymaith ag ef, heb ragor o siarad, i dŷ'r clochydd. Pan gyrhaeddodd y lle, mawr oedd ei syndod pan welodd Harri yn cistedd ar ei faine yn tapo par o eisgidiau i'r offeiriad.

"Yn enw dyn," meddai'r ciwrat, "beth ych chi'n 'neyd man hyn?"

Drwgdybiodd y clochydd fod Mr. Rowlands yn cyfeirio at ei absenoldeb mynych yn y Red Lion.

"Ond ble dylswn ni fod," torodd Harri i mewn "ond ar y ffwrwm yn y siop waith?"

"Ond 'rown i wedi clywed," ebai'r ciwrat, "eich bod chi wedi marw ar gino ddo'!"

"Y fi wedi marw?" meddai Harri, fel pe b'ai hyny'n amhosibl. "Dyma'r tro cynta' i fi glywed y fath beth!"

"Wel, Nat wedodd wrtha i yn yr efel 'nawr," atebai'r ciwrat.

"O!" meddai'r clochydd, "Nat wedws wrtho chi, ie fe? Fe ddewch i nabod Nat yn well cyn bo hir!"

Ffromodd Mr. Rowlands yn aruthr pan ddeallodd fod Nat wedi ei dwyllo, ac aeth i'r efail ar ei ffordd gartref, yn llawn natur ddrwg.

"Beth oech chi'n feddwl, y dyn?" gofynai yn awdurdodol, "wrth 'y nhwylo i gyneu fach?"

"Eich twyllo chi?" gofynai Nat yn ddyryslyd.

"Ie; wrth ddweyd fod Henri'r Crydd wedi marw?" ebai Mr. Rowlands.

"Ond wedes i ddim wrtho chi ariod fod Henri wedi marw!" meddai Nat.

"Allwch chi wadu wrtha i," gofynai'r ciwrat yn syn, "i chi weyd wrtha i fod Henri wedi marw ar gino ddoe?"

"Galla'," atebai Nat.

"Rwy'n rhyfeddu eich bod chi o'r wyneb i ddweyd y fath beth," meddai Mr. Rowlands. "Do's dim dwy hwr oddiar hyny."

"Howld on, syr," ebai Nat. "Whare' teg i bawb. Fe ofyn-sech chi i fi os o'dd Harri'n dost, ond do fe?"

"Do," meddai'r ciwrat.

"A mi wedes ine nag odd e, am a wyddwn i, ond 'y mod i wedi clywed 'i fod e wedi ishte wrth y ford ddo' yn holliach am haner awr wedi doudddeg i fyta'i gino, a'i fod e wedi darfod cyn un ar gloch. Gwir neu gelwydd, dyna glywes i," ychwanegai Nat, "ag os ych chi'n dewis 'y nghanddiall i, nid arna' i mae'r bai."

Boddwyd atebiad sarug Mr. Rowlands yn y llifeiriant o chwerthin a ddilynodd, a throdd y ciwrat ymaith yn ddigllawn.

## PENOD X.

### “ROBIN O'R LLWYN.”

Bu'r ciwrat yn ymwelydd cyson yn y Gelli ar ol y Nadolig, ac nid oedd gan Mrs. Morris na Gladys unrhyw wrthwynebiad iddo. Edrychai Mrs. Morris arno fel rhyw “haner gwr boneddig,” ac nis gallai Gladys lai na hoffi cwmni dyn ieuanc mor syml a diddichell, yn enwedig pan y gwyddai, heblaw, holl hanes y plwyfolion i gyd. Ond po fwyaf a welai Mr. Rowlands o Gladys, mwyaf i gyd oedd ei hiraeth wrth ymadael a hi. O'r negesau a luniai fel esgus i alw yn y Gelli, a'r ystrywiau a ddefnyddiai i gael gweled Gladys ar ei ffordd adref o'r seiet neu gwrdd gweddi, a'i hebrwng yn ol ar noson oleu leuad! Yr oedd amcan y ciwrat yn amlwg i bawb — i Mrs. Morris a Leisa, ac i'r gwasanaeth-ddynion, a chyn bo hir aeth y si drwy'r plwyf fod Mr. Rowlands a Gladys yn caru! Ond edrychai Gladys mor ddiniwed drwy'r cyfan fel yr oedd yn anhawdd gan y ciwrat gredu ei bod yn deall ei neges i'r Gelli. Ambell waith gwnai ymdrech i wneyd ei feddwl yn hysbys iddi. Ond nid cynt y dechreuai ei gân nag y byddai Gladys yn troi'r ymadrodd at rywbeth arall, — a'r cyfan mor naturiol ag anadlu! O'r diwedd daeth dydd pan nas gallai'r ciwrat ymatal yn hwy. Tua chanol Mis Bach penderfynodd wneyd ffrynd o Leisa'r llaeth-wraig. Un noswaith yr oedd Leisa yn gwanu drwy'r llwydnos tua'r pentref i brynu nwyddau i'r ty, pan y cyfarfyddodd Mr. Rowlands a hi.

“Nosweth dda i chi, Elizabeth,” meddai'r ciwrat, yn foesgar — ni chymerai'r byd am ei galw yn Leisa. “Shwd mae nhw gyda chi yn y Gelli?”

“Gweddol iawn, syr,” atebai Leisa, “ond fod mystres dipyn yn wanllyd, fel mae hi'n arfer bod yr amser hyn. Ond mae Miss Bowen gyda ni 'leni i thendo hi.”

“A—a—mae Miss Bowen yn iach?” gofynai'r ciwrat.

“O, ody, thenciw,” atebai Leisa. “Mae hi mor iached a'r gog amboitu'r ty yco. Ta pwy ceiff hi'n wraig, me fydd yn lwcus iawn.”

“Elizabeth,” meddai Mr. Rowlands gyda difrifoldeb mawr, “ddyfarweh chi ddim os arosweh chi'n ffrynd i fi, a gweyd gair drosta i gyda Miss Bowen. Ody chi'n meddwl fod shawns gen i am dani hi?”

"Wir, 'dwn i ddim," atebai Leisa. "Mae'n dipendo shwd garwr ych chi, wath mi ellwch fentro'ch pen fod ces mowr ar Miss Bowen. Hi geiff y ben-shâr ar ol ei nhanti yn y Gelli; ag, am lân — wel, 'dos dim ei phertach hi yn yr holl gwmpas'odd 'ma! Mae pawb yn gweyd mai hi yw topins Dyffryn Tywi."

Suddai calon y ciwrat wrth glywed rhagorolion Gladys yn cael eu chwythu yn udgorn Leisa, er ei fod wedi dweyd yr un peth ganwaith wrth ei galon ei hun.

"Ody chi'n meddwl nad o's gen i ddim shawns, 'te?" gofynai yn ofnus.

Tynerodd hyn deimladau Leisa ar unwaith, oblegid nid oes menyw ar y ddaear na theimla ei chalon yn eynhesu at un wedi ei glwyfo ym mrwydr serch.

"Cystal shawns i chi ag i neb arall," meddai yn galonog. "'Tawn i'n fachgen ifanc, fyse dim byd yn fwy wrth 'y modd i na phowlo mewn ffair am ferch ifanc. 'Rown i ddim diolch am ga'l merch heb fod neb arall yn ei mhofyn i o gwbl."

"Falle gallech chi roi cynghor i fi," gofynai'r ciwrat, "beth i 'neyd er mwyn pleso Miss Bowen?"

"Mae'n ddigon hawdd gwel'd," ebai Leisa, gan chwerthin, "nag ych *chi* ddim yn gyfarwydd a merched ifenc. 'Dos dim ond un peth *allwch* chi 'neyd i pleso nhw ym Mis Bach."

"A beth yw hwnw?" meddai'r ciwrat.

"Ha, ha ha!" meddai'r llaethwraig, "ddim yn gwbod beth i 'neyd ym Mis Bach! Mi golchsoch chi'r tro yma, ta beth! O, 'rych chi'n gwbod yn well na hyna, 'rwy'n siwr, ond eich bod chi'n lico'n rigan i!"

"Nag wn wir, Elizabeth," ebai'r ciwrat, "'dwy ddim yn gwbod dim am arferion Llanelwid."

"Arferion Llanelwid, wir," meddai Leisa. "'Run arferion sy' yma ag sy' ym mhob man arall, gwlei! Beth feddylech chi mae merch ifanc yn ddishgwyl ym Mis Bach ond ffolant?"

"Ffolant?" gofynai'r ciwrat yn syn. "Ody chi'n meddwl y byse fe ryw les tawn i'n hala ffolant i Miss Bowen?"

"Wel," meddai Leisa, "'dwn i am un ferch ifanc fyse'n tori ei chalon ta hi'n derbyn ffolant."

"Ond ble galla i ga'l ffolant?" holai Mr. Rowlands.

"O, mae digon i ga'l yn siop Morgans," oedd yr ateb parod. "Mi cewch nhw yno am bob pris o ddime lan i haner coron. Ond, wrth gwrs, mi ddylech chi hala un neis, a *scent* yndi hi, a oherdyne gwynon, a phethach, at Miss Bowen."

"Wel, a brynwch chi un i fi?" meddai Mr. Rowlands. "Mae arna i gwilydd myn'd miawn i brynu un 'yn hunan."

"O, gna i yn y fyned," meddai Leisa yn rhwydd.

"Pwy bris ddylai hi fod?" gofynai'r ciwrat,—oblegid yr oedd y gwr wedi ei ddysgu er yn ieuanc i gadw ei lygaid ar y geiniog.

"Pwy bris?" brathai Leisa. "Y dyn! odych chi'n mynd i gownto tocyns wrth hala ffolant at eich cariad? 'Dallech chi ddim meddwl, os bosib, hala un dan haner coron at Miss Bowen! Chymerwn i ddim ffolant 'yn hunan fyse'n costi dan swllt, a na 'neswn."

"O'r gore, 'te," meddai Mr. Rowlands, gan estyn haner coron iddi — gyda'r ochenaïd fach leiaf yn y byd. "A fydd dim eisieu i fi 'neyd dim ond i hala hi drwy'r post?"

"Bydd, wrth gwrs," atebai Leisa. "Odych chi'n meddwl y gallwch chi enill Miss Bowen mor rhwydded a hyna? 'Dyw pobol erill, ta beth, ddim yn meddwl hyny, wath dyna Arthur Jones Dolau Gwynion—wi'n gwbod iddo fe hala barddoniaeth ati pwy ddwarnod."

"Do fe?" gofynai'r ciwrat yn sarug. "Pwy fysnes sy' gydag e i neyd y fath beth?"

"O, dim ond yr un fysnes a sy' gyda chithe," ebai Leisa yn esmwyth.

"Wel 'sgrifenes i ddim lein o farddoniaeth ariod," meddai'r ciwrat yn fwy sarug fyth.

"O, 'dyw ffolant ddim yn werth taten bwdwr," ebai Leisa, "heb farddoniaeth arni. Ag hefyd, 'daŵ neb hala'r ffolant yr ail waith os bydd gwaith llaw arni."

"Beth 'na i 'nte?" gofynai Mr. Rowlands, yn helbulus.

"Pam na ewch chi at Robin y teiliwr?" meddai Leisa. "Fe sy'n gneyd y farddoniaeth i fi yn wastod, ag rwy'n gwbod y byse fe'n ddigon bolon i neyd e i chithe hefyd. 'Rwy'n cofio iddo roi'r penillion gas y preis yn Steddfod y Cwrt i William Tanlan am ddou swllt."

"Wel, a ewch chi i ofyn iddo drosta i?" gofynai'r ciwrat.

"Yr arswyd anwyl, nag af fi!" atebai Leisa, "mi fues i ddwy-waith gydag e'r wythnos ddywetha, a mi ddylech chi weyd wrtho fe shwd ych chi am iddo neyd y farddoniaeth, a beth yw enw'r ferch ifanc."

"Wel mi af fi a hi ato fe 'te," ebai'r ciwrat, gydag ochenaïd ysgafn arall.

Nid yw yn werth aros i adrodd y modd y prynodd Leisa'r ffolant, ar ol cael y tê a'r siwgr, a ffraethebion y bechgynos oedd yn y siop pan oedd yn ei phrynu. Cyn pen hir amser, yr oedd Leisa wedi dianc o'r siop, a'r ffolant gyda hi, a chyda balchder nid bychan trosglwyddwyd hi i Mr. Rowlands.

"Diolch yn fowr i chi, Elizabeth," meddai'r ciwrat, gan wasgu rhywbeth i'w childwrn.

"O, 'dos raid i chi, syr," atebai Leisa. "Mynwch chi farddoniaeth bert gyda Robin, a mi dynga i na chesech chi ddim gwell swyn serch gyda'r hen Harris Cwrt-y-cadno."

Cyfeiriodd y ciwrat ei gamrau yn nesaf tua phen y pentref, lle yr oedd Robert Williams y teiliwr yn byw.

Robin y Teiliwr — neu Robin y Llwyn fel ei gelwid yn yr Eisteddfodau — oedd prydydd y plwyf, ac yr oedd ei ofn ar bawb bron ond Nat. Y gosp drymaf allai drwg-weithredwyr dderbyn oedd cael rhigwm oddiwrth Robin. Dywedid fod ofn Robin yn dylanwadu mwy ar Griffith y Coed — y cybydd mwyaf yn y plwyf — i gyfranu fel y dylai at yr achos yn Salem na phregethau llymaf y gweinidog; a gallai gwraig Dai'r Gelynen fygwth y police ar y gwr heb gael yr un effaith, ond yr oedd hyd yn oed Dai yn ofni awen y teiliwr! Ar ol pob cwrdd politicaidd, a phreimin, ac Eisteddfod, a chyfreithia, yr oedd y plwyfolion yn disgwyl cân gan Robin, a byddai son am dani am wythnosau ar ol hyny. Ymddangosodd rhai o'r caneuon yn y Golofn Gymreig yn un o'r paperau lleol, er mawr falchder a rhyfeddod i'r plwyfolion, a byth oddiar hyny teimlai Robin ei fod yn Rhywun. Yn y siop waith — neu "Weithdy Ceridwen," fel y galwai Robin hi — hongiai rhyw ddeugain o godau Eisteddfodol fel scalps yr Indiaid Cochion mewn wigwam, yn arwyddion gweledig o wrhydri awenyddol y prydydd. Nid oedd nemawr Eisteddfod yn cael ei ohynal yn y Sir lle yr oedd Robin yn anhysbys. Nid oedd, mae'n wir, wedi enill Cadair, na Choren, na Thlws; ond yr oedd wedi enill y gwobrau canlynol, ymysg ereill:—

Gwobr o dri gini am Farwnad i Frederick Bassett, Ysw., Y.H., o'r Plas Mawr, yn Eisteddfod Llanellwid (rhoddedig gan y weddw).

Gwobr o ddau gini yn Eisteddfod y Cwrt am Bryddest (heb fod dan 400 na thros 600 o linellau o hyd) ar "Caleb."

Gwobr o gini yn Eisteddfod Llangoediog am y chwech penill goreu i'r Gareg Fawr, ger llaw'r pentref hwnw.

Gwebr o goron yn Eisteddfod Llanelwid am englyn i'r Dderwen Gam, ynghanol y pentref;

Ynghyd ac ereill, "*too numerous to mention*," ys dywed paprau acshwn. Er cymaint o wobrau a gipiwyd gan Robin, y mae eto heb gyrhaedd ei haner cant, ac felly nid yw ond pe ar drothwy ei yrfa farddonol. Yn wir, tybia llawer y bydd Robin wedi enill Can' Punt drwy farddoni cyn diwedd ei ddydd. Mor falch fyddai llawer i fardd Saesneg, sydd a mwy o son am dano, pe gallai wneyd yr un peth!

Pan y mae Robin yn paratoi ar gyfer rhyw gystadleuaeth, daw'r holl blwyf i wybod am hyny, oblegid, ar achlysur o'r fath, dengys y prydydd yn ei ymarweddiad ei fod mewn dwfn gynghor â'r Awen. Cerdda â'r yr heol a'i lygaid tua'r llawr; nis adwaena ei gymydog agosaf â'r y ffordd; clywir ef yn mwmlau rhywbeth wrth ei hunan, a gwelir ef 'nawr ac eilwaith yn rhifo'r sillau ar ben ei fysedd. A phan ganfyddir ei ystumiau, dywed un o'r cymydogion wrth y llall—

"Mae Robin Bach wrthi eto! Gewch chi wel'd y daw'r gadair i Lanelwid cyn y dybenith y teiliwr a barddoni!"

Un arall o hynodion Robin yw ei ysfa i adrodd ei benill neu ei englyn diweddf wrth y cyntaf a ddaw ar ei draws, a gofyn ei farn am dano. Nid yw Robin yn malio pwy fydd "oen y poeth-offrwm." Jane, ei wraig — dynes dawel, amyneddgar — sydd fynychaf yn cael ei haberthu. Erbyn hyn y mae hi wedi cynefino ag ef, ac y mae Robin yn dweyd ei bod wedi yfed digon o gawl o bair Ceridwen i nofio llong. Un amser yr oedd tuedd yn Jane i wrthryfela yn erbyn Robin a'i farddoniaeth. Ychydig ar ol iddi briodi, deuai Robin a'i rigwm newyddaf, — weithiau pan y buasai hi ar ganol ffwrno bara neu grasu teisen,—a byddai hithau yn gwrthod gwrando arno ac yn gofyn iddo gadw ffrwyth ei awen hyd oni ddelai amser cyfaddas. Yna elai Robin i'r Red Lion, lle caffai yn wastad dderbyniad croesawus.

"Mae'n well gen i losgi ffwrned o fara," dywed Jane, yr hon sydd yn fenyw ymarferol a llygadgraff, "na hala Robin i'r Red Lion; wath mi wn beth fydd y golled gyda'r bara, ond dyn a wyr faint gostith dwarnod yn y tafarn!"

Y mae Robin bob amser yn gofyn, ar ol darllen ei benill neu ei englyn—

"'Nawr, 'y merch i, beth wyt ti'n feddwl am y penill hyn 'nawr? Wyt ti'n meddwl ei fod e'n ddigon da?"

Un tro cyn iddi ddyfod i adnabod ei gwr yn well, penderfynodd Jane ddangos ei bod yn ddynes o farn addfed ar bethau llenyddol, ac atebodd—

“Wel, Robin bach, 'rwyf ti'n gwbod yn well na fi, ond fe allwn i feddwl y byse'n llawer rhwyddach i ddweyd hyna heb iwso'r farddoniaeth.”

Bu Robin bron llewygu wrth ei chlywed, ac ni cheisiodd Jane byth mwyach feirniadu barddoniaeth ei gwr, ac y mae gan Robin feddwl uchel iawn am ei chwaeth a'i barn mewn llenyddiaeth.

Ond os na fydd y wraig wrth law, dyn helpô'r cymydogion! Mae Robin, ar ol gwneyd penill, fel iar wedi dodwy — mae'n rhaid iddo glochdar nes daw'r holl ardal i wybod am yr wy! Yr unig un sydd yn cael llonydd ganddo yw Nat. Mae blynyddau oddiar pan fu Robin yn yr efail, ac nid yw yn ymddiddan byth a'r gof, hyd yn oed yn y Red Lion, os na fydd rhaid. Flynyddau yn ol yr oedd Robin yn galed wrthi yn gorffien ei Bryddest—ei Bryddest fuddugol, fel y digwyddodd — ar “Caleb.” Mae'n debyg na cheir llawer o hanes y gwr da hwnw mewn Beibl nac esboniad, ac yr oedd y teiliwr mewn cryn drafferth ynghylch cyfansoddi Pryddest ar y testyn heb fod dan 400 o linellau. Ar y ffordd adref o Ffair Fedi, gerllaw'r efail, cafodd Robin weledigaeth newydd, yr hon a'i galluogodd i ddwyn y Bryddest “i fwtwn,” ys dywedodd yntau. Eisteddodd ar ochr y clawdd, ac ysgrifennodd y llinellau ar gefn *envelope*, rhag iddo eu hanghofio. Yna rhedodd, yn ol ei arfer, i'r ty nesaf i'w darllen — a'r efail, fel y digwyddodd, oedd hwnw. Cyn cyfarch Nat, dyma'r teiliwr yn dechreu adrodd y llinellau—“yn bwrlwmu,” meddai Nat wrth adrodd yr hanes, “fel potel o ddwr wyneb wared heb gorc yn ei gwddwg.” Pwysodd Nat ar ei forthwyl yn erbyn yr eingion, a gwrandawodd yn ddistaw ac yn ddifrifol hyd nes i Robin orphen.

“Wyt ti'n well 'nawr, Robin bach?” meddai o'r diwedd yn dyner, fel pe yn anerch dyn claf.

“Beth wyt ti'n feddwl?” gofynai Robin yn syn.

“Wyt ti ddim wedi cael dy gymeryd yn waeth, 'te?” ebai Nat.

“Cal 'y nghymeryd yn waeth?” meddai Robin. “Dwy'i ddim yn dy ddeall di!”

“O,” ebai Nat yn araf, “meddwl own i dy fod dy synwyr di wedi dyrysu ar ol cwrw Llangoediog.”



"Nag ydyw'n synwyr i wedi dyrysu!" llefai Robin. "Ond adrodd yr own ddiwedd y Bryddest ar Galep."

"O, dyna beth oedd gen ti," atebai Nat. "Fe glywes i well Pryddest na hona ar Galep pwy ddwarnod 'na gyda Gwilym Coediog."

"Odi e ddim yn hala mewn, os bosib?" gofynai Robin

"Wel, mi fuodd yn adrodd peth o honi i fi nwy nosweth 'na, yn y Black Ox yn Llangoediog," ebai Nat.

"Wyt ti'n cofio peth o honi?" gofynai'r teiliwr yn eiddigeddus.

"Nag w i, na chyffra'i," meddai Nat. "Ond arosa fyned, 'rwy'n meddwl 'y mod i'n cofio'r ddwy lein dwetha yndi hi!"

"Ffordd mae'n nhw'n myn'd?" gofynai Robin.

"Cofia di na ddwedi di 'te, i ti gal gwbod gen i, neu cha i byth faddeuant gan Gwilym!" dywedai Nat.

"Na ddweda'n wir i ti, tawn i'n ateb barn," ebai'r teiliwr.

"Wel, fel hyn oe'n nhw'n myn'd, os wy'n cofio'n iawn," ebai Nat:—

"Mae Galep ar galap yn malio dim grôt  
Am 'rhen deiliwr llibyn sy'n ffeilu gneyd côt."

Arosodd Robin am fynud yn edrych ar Nat, heb allu credu yn iawn ar unwaith fod y gof yn meiddio tafu'r fath sarhad arno — canys yr oedd gwell gair i Robin fel prydydd nag fel teiliwr. Yna trodd yn sarug at y drws, ac aeth allan gan adael Nat yn pwyso ar ei forthwyl, a gwên ddi-reidus ar ei wyneb du!

## PENOD XI.

### "FFOLANT I GLADYS."

"Shwd ych chi heno, Robert Williams?" meddai'r oiwr, ar ol cyrhaedd ty'r teiliwr.

"Sut yr ydach chi, syr," ebai'r teiliwr, yr hwn a ddefnyddiai bob amser ddullwedd y Wyndodaeg wrth siarad, gan gredu fod hyn yn gweddu prydydd a llenor yn well. "Sut yr ydach chi, syr, ystalwm?"

"Eisieu'ch gwel'd chi sy' arna i ar fater *private*," meddai'r oiwr.

“Mater cyfrinachol?” ebai'r teiliwr. “Deuwch gyda mi i'r ystafell nesaf i mewn. Waeth i mi heb geisio cael ymgom hefo neb yn y gegin yma. Deuwch i mewn yma i 'Weithdy Ceridwen.’”

“Beth allaf wneyd eroch chwi” gofynai Robin, pan gyrhaeddwyd diogelwch y siop waith. “Eisteddweh i lawr ger y tân yn y gadair freichiau, tra'r eisteddaf finau yn hon. Dwy gadair fendigedig, — go dda, ynte, Mr. Rowlands?”

“Wel, Robert Williams,” ebai'r ciwrat yn swil, ‘r'wy'n clywed eich bod chi'n gneyd barddoniaeth i rai sydd a'i eisieu fe.”

“Ydwyf,” atebai'r teiliwr, “mae rhai hogiau a genethod weithiau yn dyfod ataf i ofyn am gyfarwyddyd pa fodd i ymddwyn ym mhalas Tydain Tad Awen.”

“Wel,” meddai'r ciwrat, “eisieu cwpwl o benillion sy arna' i i ddodi ar ffolant.”

“Felly,” atebai'r teiliwr yn foddhaus. “Rhiangerdd fechan, aie? Pa sawl llunell ddymunwch iddi fod? Mae genyf gerdd fechan dlos ar ei chetyn—”

“O, dou neu dri phenill fydde'n ddigon i fi, gwlel,” ebai'r ciwrat.

“A, iel!” dywedai Robin, “a fuasai'n well genych benillion na chywydd, dywedwch? Mae'r mesur cywydd yn digymod yn ofnatsan a Chwyn Serch, fel y gwyddai'r hen Feirddion yn dda, er fod drychfeddyliau swynol wedi eu rhoddi cyn hyn ar ffurf Penillion Telyn.”

“Stim ots p'un, lawer,” meddai'r ciwrat, “yr un fydd yn rhoi lleia' o drwbwl i chi.”

“Trwbwl i fi,” ebai'r teiliwr yn fawreddog. “Dos dim yn rhoddi trwbwl i fi—ond rhyddiaeth. Gallaf farddoni mor naturiol ag aderyn yn pyngcio,

‘A'm cân yn rhedeg i'm cof  
Yn winaid awen ynof,’

fel y deydodd yr hen Ddafydd.”

“Falle taw penillion fyddai oreu,” meddai'r ciwrat, er na wyddai, druan, beth oedd y gwahaniaeth rhwng mesur cywydd a mesur salm.

“A beth yw enw y rhian?” gofynai Robin.

“'Dos dim rhaid i fi ddweyd hyny?” gofynai'r ciwrat, gan wrido.

“Oes, yn siwr,” atebai'r teiliwr. “Wrth gwrs, mae genym enghreifftiau lle mae beirddion wedi ymfoddloni ar roddi flug-enw i wrthddrych eu serch. Geilw Dafydd ei Forfudd yn Wen, fel y gwna yn y llinellau—

‘Un wyf pan b'wyf heb Wên,  
Afrywiog heb fawr awen.’

A chana Mynyddog am ei Weno. Ac os dymunech mi a'i galwaf yn Wen neu yn Forfudd, neu yr un enw a fynoch, ond yr enwau bastardaidd Seisnig sydd erbyn heddyw wedi ymgripian i gydarfer y werinos.”

“Wel, galwch hi'n Gladys,” sisialai'r ciwrat, fel pe bai ofn arno i ddweyd ei henw, a chan wrido hyd at ei ddeu-clust.

“O'r goreu,” ebai'r teiliwr. “Gladys! Enw reit glên i chi—

Mae dweyd ei henw ar hin oer  
Yn gwneyd i'm corph gynesu.

Gladys! Enw gwir Gymreig — mae'n odli â ‘melus,’ ‘Lewys’—nid ‘Lewys’ yw'ch enw chwi, ie fe?”

“Nage,” meddai Rowlands, “William yw'n enw i.”

“Gresyn, gresyn!” ebai'r prydydd, “piti garw am hyny, o blegid basai'r odl yn natariol a chymwys; ond ni wiw i ni feddwl am hyny 'rwan. Beth ydyw lliw gwallt y feinwen?”

“'Dwn i ddim beth yw'r enw yn Gwmrag,” meddai'r ciwrat. “*Auburn* yw'r enw gyda'r Saeson.”

“Pa fath liw yw'r *oborn*?” gofynai Robin. “Mae genym yn Gymraeg gyflawnder dihybydd o enwau rhagorol ac ysblenydd ar liwiau. Chwi glywsoch yr hen rigwm, mae'n dra thebyg genyf—

Giâr fach bert yw'n ngiâr fach i,  
Coch a gwyn a melyn a du?

'Rwan deydwch i mi, coch neu gwyn neu felyn neu ddu yw pluf eich giar fach chwi?”

“Dyw e ddim yn goch nag yn felyn,” ebai'r ciwrat yn ddyrlyd. “Ehywbeth rhwng y ddou.”

“Aie? Gwawrgoch neu ruddaur, ynte? Aroswech am eiliad,” meddai Robin, gan ysgrifenu'n frysiog ar ddarn o bapwr, “i mi

gael gosod y ffeithiau hyn ar gof a chadw. Enw—Gladys; gwallt—gwawrgoch? Ie, ewch ymlaen hefo'ch disgrifiad. Pa liw yw ei llygaid?"

"O, dyna lawn digon, Robert Williams," dywedai Mr. Rowlands, "tynwch ar eich dychymyg am y rhest."

"O'r gore ynte," ebai'r prydydd. "Pa bryd y byddwch yn ymofyn y penillion, oblegid credwyf mai Penillion Telyn a ddymunech gael?"

"A allwn eu cael erbyn fory?" gofynai'r ciwrat.

"Cewch yn reit siwr," ebai'r teiliwr. "Heno os hoffech alw ym mhen awr neu ddwy."

"Wel, heno fydde'n oreu," ebai'r ciwrat. "Mi alwa' ar ol y wasanaeth hwyrol yn yr eglwys."

"Bydd y penillion yn eich disgwyl," dywedai'r teiliwr yn bendant, gan godi ar ei draed a gosod ei bensil yn ei logell.

Cododd Mr. Rowlands hefyd yn araf, gan fwmian rhywbeth am bris y penillion.

"Yng nghrog y bo'r pris!" llefai Robin. "Nid peth i'w brynu a'i werthu fel llwdn mewn marchnad neu frethyn mewn maelfa ydyw ffrwyth yr awen wir! Ond ar ol i chwi glywed y penillion, gallwch roddi i'r bardd unrhyw gydnabyddiaeth a dybiech yn deilwng, fel y gwnai Tywysogion Cymru yn yr hen oesoedd.

Ai er gwobr neu ryw gôd  
Yr wylodd Tudur Aled?

Na, syr; pan fyddaf fi yn cystadlu, am y clod ac nid am y gôd yr ymdrechaf. A hyn sydd wir am holl Feib yr Awen, "Am y dorch yr ymdrechant." Nos dawch, syr,—Jane, tyr'd a chanwyll yma i oleuo'r gwr parchedig dros y trothwy."

"Ie, Mr. Rowlands," meddai Jane; "meindwch na chwmpwch chi yn erbyn y bwced a'r golchon 'na ar bwys y drws."

"Good night, Jane Williams," ebai'r ciwrat, "mi alwa eto cyn pen dwy awr."

Nid cynt y cafodd Robin lonydd nag yr ymaflodd yn ei waith. Ysgrifennai air neu ddau, yna cerddai oddiamgylch yr ystafell fel llew mewn cell, yna ychwanegai air neu ddau, yna croesai linell allan a roddai un arall yn ei lle. Ar ol awr o ymdrech galed, rhedodd at Jane i'r gegin.

"Jane, Jane," llefai'n gynhyrfus, gan anghofio yn ei wylltineb ei Gymraeg clasurol, "mae geni gwpwl o benillion yma, a fe licwn gael dy farn onest di am deni nhw, pan gei di amser."

"O, mae gen i amser 'nawr, Robin bach," atebai Jane, gan eistedd i lawr.

"A wyt yn siwr, 'rwan?" meddai, gan wisgo ei urddas barddonol fel mantell am dano, "oblegid gwnaiff y tro rywbyrd eto."

"O na," ebai Jane, "r'wy bron marw eisieu clywed nhw."

"O'r goreu," meddai'r prydydd, "cofia mai dy farn onest a geisiaf, neu ni wnaif ddarllen y penillion i ti."

"O, mi ddweda i beth w i yn feddwl am deni nhw," atebai Jane, "yn go glou."

"Penillion ydan nhw," meddai Robin, "i'w rhoddi ar ffolant at ferch ieuanc o'r enw Gladys."

"Neis iawn," ebai Jane.

"Ar y dôn 'Nos Galan' yr ysgrifenydd nhw, yn ol dull yr hen Benillion Telyn," ychwanegai Robin.

"Fel y rhai yn y llyfr coch swllt 'na," ebai Jane, yn awyddus i brofi ei bod yn feirniad deallgar.

"Ie'n siwr," atebai'r teiliwr, "fel y rhai glywest ti fi'n darllen o lyfr y Proffeswr Siencyn Tomos o Fangor. Dyma fel y rhedant:—

I.

Nid oes i mi ond dau elyn—  
B'le bynag af gwna rhain fy nilyn;  
Nid y'nt ond dy lygaid tirion  
A'm trywanant trwy fy nghalon.

II.

Clywais unwaith enwi rhywun  
Oedd a blodau yn ei dilyn;  
Hawdd yw credu hynyn ddilys  
Gan bob un a welodd Gladys.

III.

Melus ydyw addfed 'falau  
Pan yn byngad mewn perllanau;  
I fy meddwl mil mwy melus  
Ydyw cusan pur fy Ngladys.

## IV.

Pleth o fellt yw gwallt fy meinwen,  
Eira purwyn yw ei thalcen ;  
Ceiros cochion ei dwy wefus,—  
Dyna lun fy nghariad Gladys.

“Beth wyt ti'n feddwl am danynt,” gofynai Robin ar ol gorffen eu darllen.

“Mae'n nhw'n ardderchog, Robin,” atebai Jane. “Dyna'r rhai goreu 'nest ti ariod, yn ol 'y meddwl i. Mae'n nhw'n llawer pertach na rheiny yn y llyfr coch.”

“O, na, na!” tystiai Robin, a gwên foddhaus ar ei wyneb teneu. “Mae hynyna yn ormod i ddweyd.”

“Nag yw'n wir,” ebai Jane, yn benderfynol, “mae nhw'n biwtiffwl.”

“'Rwy'n credu fy hun,” awgrymai Robin, “fod naws yr hen Feirddion arnynt. Ond os ydynt cystal a'r hen Benillion, nis gallaf grefu am ragorach canmoliaeth.”

“Wel, yn ol 'y marn i,” meddai Jane, gan godi ar ei thraed, “'dos dim shâr rhynt caneuon y llyfr a nhw!”

“Wyt ti'n meddwl hyny, 'rwan?” gofynai Robin, gan estyn ei bum' troedfedd a phedair modfedd i'w hyd mwyaf. “Wel, a dweyd y gwir i ti, 'rwyf bron credu hyny fy hun weithiau — yu enwedig y ddau benill blaenaf. Ac yn wir mae'r ddau olaf mor syml, mor naturiol, mor llawn o asbri a nwyfiant a thynnerwch serch—”

Ond cyn iddo ddybenu ei frawddeg curodd Mr. Rowlands wrth y drws. Darllenwyd y penillion drachefn yng “Ngweithdy Ceridwen.” Boddlonwyd y ciwrat ynddynt, ac, wrth ymadael, gwasgodd haner coron ar gledr llaw y prydydd.

“Haner coron?” ebai Robin yn syn, wrtho ei hun. “‘Hwn yw un hael, hyn yw'n nhyb.’ Ond cafodd werth ei arian yn llawn.”

## PENOD XII.

## “GLADYS YN ATEB.”

Cafodd Leisa waith caled i beidio dweyd wrth Gladys am ei helynt gyda Mr. Rowlands; ond, chwareu teg iddi, cadwodd y gyfrinach yn anrhydeddus. Eto, hawdd oedd gwybod oddiwrth ei

hymddygiad fod rhywbeth neu gilydd "yn y gwynt." Nis gallai edrych ar Gladys heb dori allan i chwerthin, nes o'r diwedd i Mrs. Morris ddweyd wrthi yn ei ffordd haner geintachlyd—

"Yn enw dyn, Leisa fach, beth sy'n bod arnoch chi?"

"'Stim byd yn bod arna i, mystres fach," ebai Leisa gan chwerthin yn uchel, "ond 'y mod i wedi ca'l ffolant."

"Ca'l ffolant, wir!" meddai Mrs. Morris. "Mae'n hen bryd i ryw hen lol fel 'na fyn'd ma's o'r wlad. 'Rwy'n synu at Mr. Morgans ei fod e'n cadw shwd ffwbri yn y siop."

Boreu dradwy, er syndod i Gladys, daeth Leisa ati yn gynar ar ol brechwast a pharsel bach yn ei llaw.

"Dyma rwbeth dda'th i chi gyda'r post, Miss Bowen," meddai gyda gwên.

"Beth yn enw'r anwyl all hwn fod?" ebai Gladys gan ryfeddu.

"Ffolant!" meddai wedi agor y parsel.

"A phenillion!" ychwanegai ym mhen ychydig, a'r wên fach harddaf yn y byd yn chwareu ar ei gwefusau.

"Odych chi'n ei lico hi?" gofynai Leisa gyda balchder.

Yr oedd Gladys wedi anghofio Leisa.

"Lico peth?" meddai.

"Lico'r ffolant!" atebai Leisa.

"Shwd gwyddoch chi taw ffolant odd hi?" gofynai Gladys.

"Hi! hi!" 'e'bai Leisa, "'rown i'n 'gwbod."

"Ond shwd gwyddech chi?" gofynai Gladys.

"O, fi prynodd hi iddo fe, hi! hi! hi!" atebai Leisa.

"Wel, pwy ga' i ddweyd yw'r fe?" ebai Gladys.

"Wyddoch chi ddim?" gofynai Leisa.

"Na wn i," atebai Gladys. "Shwd galla i wbod?"

"Allwch chi ddim specto?" meddai Leisa.

"Na alla i," atebai Gladys, "a 'stim ots pwy halodd hi."

"O's ots wrth gwrs," meddai Leisa, "wa'th mae'n rhaid i chi hala barddoniaeth 'nol ato fe."

"Nonsense, Leisa," atebai Gladys, "odych chin meddwl 'y mod i'n myn'd i ateb rhyw ddwli fel hyn?"

"Nid dwli yw e," meddai Leisa, "a chofiwch chi ei fod e'n beth anlwcus iawn i beido ateb ffolant."

"Anlwcus?"

"Ie," meddai Leisa. "'Rwy'n cofio pan own i'n ail forwyn yn y Fron i fi ga'l ffolant, ag i fi beidio hala ateb iddi; a chyn pen

dou fis yr own wedi tori ar 'y nghyflog, a'r C'langeua ar ol nyn, mi gytunes i fyn'd i dri lle, a gorffid i fi hala'r ern yn ol i'r tri!"

"Ond shwd galla i ateb ffolant pan nag o's enw neb wrthi?" gofynai Gladys.

"O, 'rodd e'n gwbod y byswn i'n gweyd wrthoch chi pwy oedd e," atebai'r Ilaethwraig.

"Wel, 'dych chi ddim wedi gweyd eto," 'meddai Gladys.

"Ody chi'n addo hala ateb 'te?" atebai Leisa.

"Wel," meddai Gladys gyda gwên, "falle gna i 'te, gan eich bod chi mor daer."

"Mr. Rowlands y ciwrat, hi! hi! hi!" dywedai Leisa.

Syrthiodd gwynebpryd Gladys. Nid oedd wedi meddwl am y ciwrat. Yr oedd yn amlwg ei bod wedi disgwyl clywed rhyw enw arall — Benni Bach, feallai, neu Arthur Jones.

"Mr. Rowlands!" ebai Gladys.

"Hi! hi!" meddai Leisa, "doech chi ddim yn meddwl am dano fe?"

"Wel, nag own," atebai Gladys, dipyn allan o'i chof. "'Rown i'n meddwl fod gydag e fwy o synwyr nag i hala'r fath ddwli."

"Dwli?" gofynai Leisa. "Mae pawb yn hala ffolant ffordd hyn: a mae Morgans y Siop yn eu gwerthu nhw, a mae e'n ddi-acon!"

"O, wel," meddai Gladys, gan chwerthin, "mae'n rhaid fod y peth yn iawn gan fod diacon yn gwerthu ffolante."

"At Robin ewch chi i ga'l y farddoniaeth?" gofynai Leisa.

"At Robin?" meddai Gladys yn syn. "Ody merched ifenc yn myn'd at Robin i ga'l barddoniaeth?"

Yr oedd llawer o wawd a dirmyg yn y gofyniad. Ac yr oedd hyn yn fwy rhyfedd am fod Gladys yn hoff iawn o riangerdd Ceiriog, lle'r â Myfanwy i ofyn peithynen at Hywel y Bardd. Ond y mae pethau yn edrych yn wahanol iawn mewn bywyd i'r hyn ydynt mewn Rhiangerdd.

"Odyn, wrth gwrs," atebai Leisa, "'dos neb arall yn werth dim baw am farddoniaeth."

"Wel, 'daf fi ddim ato fe, 'ta beth," ebai Gladys. "Fe wnaif i'n marddoniaeth iddo 'yn hunan, ne hala i ddim o gwbl!"

"Allwch chi 'scrifenu penillion?" gofynai Leisa, a'i llygaid fel afalau yn ei phen.

"Galla',—rhyw fath o benillion," atebai Gladys yn ysgafn.

"Peth mowr yw ca'l eich codi yn y colej!" ebai Leisa. "Chlyw-



es i ddim son am un feniw arall ond Cynnogwen o'dd yn gallu gwneyd hyny. Shwd oech chi'n lico barddoniaeth Robin?"

"Weles i ddim o'i waith e eto," meddai Gladys.

"Do, wrth gwrs!" 'ebai Leisa, "wath fe sgrifenodd y farddoniaeth ar eich ffolant chi i Mr. Rowlands."

"Shwd gwyddoch chi hyny?" gofynai Gladys.

"O, wi'n gwbod yn splended," atebai Leisa, "wath fe wedws Mr. Rowlands wrth a i!"

"Rych chi ag ynte dipyn o bartners, mi wela'," ebai Gladys.

"Fe allech chi ga'l gwath gwr nag e, Miss Bowen," meddai Leisa yn gyfrinachol, "er fod ei wddwg e mor fain."

"O, mi lycech 'y ngweld i'n ei briodi e?" gofynai Gladys yn wawdlyd.

"Wel, mae'n ddyn neis caredig," ebai Leisa yn benderfynol, "er nad w i ddim yn lico'r ffeiriadon 'ma fel arfer, ond mae Mr. Rowlands shwd ddyn bach isel, ag yn siarad a phawb yn Gwmrag jist fel pregethwr Dissenters."

"Leisa," llefai Mrs. Morris yn ei llais cwynfanus o'r neuadd, "beth ych chi'n neyd yn balban man yna o hyd, a'r holl waith yn eich disgwyl chi? O's gyda chi ddim rhytach gwaith na chlebran a chwerthin ar genol glanhau'r gegin? 'Rych chi'n gallu sefyllan drwy'r bore, pan ddylech chi fod yn tori pen y gwaith, a dyna lle y byddwch chi heno yn llawn ffair a ffwdan i gyd yn treio dybenu'r gwaith mewn pryd i fynd i'r pentre ag yn wasto canwylle. Gwnewch hast yn y fyned, wath 'dych ddim wedi golchi'r llestri brechwast yto."

"O'r goreu, mystres fach," ebai Leisa'n ddigyffro ei gwala, "me fydda i'n barod miwn wincad.—Miss Bowen," gan ostwng ei llais, "ga' i weld y farddoniaeth cyn i chi hala fe bant?"

"Cewch, os liewch chi," meddai Gladys.

"O, licwn, wrth gwrs!" ebai Leisa, "Ga' i fynd i brynu'r ffolant i chi hala hi'n ol?"

"Dir gaton ni, na chewch!" atebai Gladys yn gyflym. "Mi sgrifena i'r farddoniaeth ar y ffolant hyn, a mi hala hi iddo fe 'n ol."

"'Dych chi ddim yn mynd i hala hona'n ol, os bosib!" ebai Leisa. "Mi roiodd haner ceron am deni!"

"Odw, wrth gwrs," meddai Gladys. "'Doech chi ddim yn meddwl y byswn i'n ei chadw hi?"

"Wel, own i," dywedai Leisa. "Ond dyna — 'dos dim dal beth 'neiff merch ifanc sy' wedi ca'l ysgol!"

Ar ol têt, darllenodd Gladys y "farddoniaeth" i Leisa, a chyda'r nos aeth Leisa a'r ffolant i'r post, a'r penillion hyn wedi eu hys-grifenu arni :—

## I.

Os fy llygaid yw'r gelynion  
A'th drywanant drwy dy galon,  
Gochel rhagddynt, enaid gwirion,—  
Gwell yw cadw rhag gelynion.

## II.

Blodau gwynion oedd yn dilyn  
Olion cantrau ysgafn Rhywun;  
Ni ches i'r fath dynged felus—  
'Deryn du sy'n canlyn Gladys.

## III.

Os fy ngwefus sy' fel ceiros  
Yn dy ddenu ati'n agos,  
Cofia'r 'deryn du, mor galed  
Yw calonau ceiros addfed!

## IV.

Gwyn yw'r eira ar Eryri—  
Gwynder sydd yn cuddio oerni;  
Oerach nag oer eira'r mynydd  
Calon Gladys at y prydydd.

## V.

Gwir fod 'falau per Glan Tywi  
Dan y dant fel mêl yn toddi;  
Hèr it ddweyd ai sur ai melus  
Ydyw'r cusan sydd gan Gladys!

"Wir, Miss Bowen," meddai Leisa, ar ol clywed y penillion,  
"rych chi wedi ffysto'r hen Robin yn lân! A chi nath rheina'ch  
human fach?"

"Ie, wrth gwrs," atebai Gladys, "pam 'rych chi'n gofyn?"

"Wel, na chyffrai, 'daf si ddim yto at Robin, wath 'rych chi'n  
gallu prydyddu'n well na Wateyn Wyn!"

## PENOD XIII.

### LLYTHYRAU GLADYS AT BOB.

Ni cheisiaf roddi hanes manwl o'r plwyf a'r plwyfolion yn ystod arosiad Gladys yn y Gelli, canys oni cheir y cyfan yn ysgrifenedig yn Nyddiadur Daf Jones, os teimla neb yn gywrain yn ei gylch? Yno gwelir, mewn du a gwyn, pwy bryd y cynhaliwyd y preimin yng Nghoed Weddus, a phwy oedd yr aradwyr gwobrwyedig; beth oedd testyn Mr. Thomas yn Salem Sul ar ol Sul, a phwy bryd y cyhoeddwyd cyfres o'i bregethau ar y Thessalonïaid, ar gais yr eglwys (yn llyfr haner coron); pwy adeg y dechreuwyd planu'r ardd, a phwy ddydd o'r flwyddyn yr hauwyd y gwenith gwanwyn, a'r ceirch, a'r haidd; pwy bryd y clywyd y gwew gyn-taf, a phwy noswaith y bu farw gwr Gwern-y-Gaseg.

Yn agor o fy mlaen wrth ysgrifenu gorwedda rhai o llythyrau Gladys at Bob ei brawd yn Neheudir Affrica; ac nis gwn am well ffordd i adrodd hanes ac esbonio cymeriad Gladys — oblegid am dani hi yn benaf yr wyf am son — na rhoddi dyfyniadau ohonynt yma. Dyfyniadau ydynt, cofier; oblegid yr oedd y llythyrau yn llawer meithach nag yr ymddangosant yma. Mae rhanau o honynt yn rhy gyfrinachol i'w gwneyd yn gyhoeddus; mae rhanau ereill yn cyffwrdd a phersonau a phethau nas gwyr y darlennydd ddim yn eu cylch; cyfeiria rhanau ereill, drachefn, at ddigwyddiadau a helyntion yr ydys wedi adrodd eisoes. Gwn fy mod, wrth eu talfyru, yn amddifadu y llythyrau o lawer o'u swyn a'u naturioldeb, ond rhaid i mi ymfoddloni ar wneyd y goreu o bethau fel y maent.

Ar yr eilfed dydd o bob mis yr ysgrifennai Gladys at Bob. Byddai Bob yn ateb "gyda throad y post," a chyrhaeddai'r atebiad ben ei daith cyn diwedd y mis. Gwariai Gladys ddiwrnod neu ddau i gyfansoddi llythyr hir yn ol i Bob gan nad oedd ganddi lawer i wneyd, a chan y gwyddai na finai Bob ar feithder un llythyr o Lanelwid. Gyda hyn o ragymadrodd, gwell gollwng y llythyrau i siarad drostynt eu hunain:—

IONAWR 2, 1896.— . . . . 'Rwy'n teimlo'n gartrefol iawn yn y Gelli, Bob. Mae nanti yn garedig dros ben i fi — "Dyw hi ddim yn fo'lon i'r gwynt whythau arni," tystia Leisa wrth Tom y Waginer. Ac am Leisa, 'dy'w hi ddim yn hapus os

na wnaf "forwyn fach" o honi byth a hefyd. Yn wir mae pawb fel pe ar eu heithaf yn fy ngwneyd yn gysurus. . . . .  
 . . . . . Mae'r wlad yn hyfryd! 'Rwy'n synu weithiau ffordd y gallwn ni, a ninau yn wladwyr, fyw mewn tref fel Llundain. Rhyfedd mor ffond yw'r Cymry o'u cartrefi! 'Roedd nanti yn dweyd wrthyf ddoe nad oedd wedi cysgu o'r Gelli er ys pymtheg mlynedd ar hugain! Pwy ryfedd ei bod yn caru'r fan lle mae wedi gwreiddio mor ddwfn? Ac y mae rhai yn Llanelwid na fuont yn cysgu erioed tu faes i gyffiniau'r plwy'. Dyna pam, gallwn feddwl, y mae'r Cymro yn teimlo fod tir Cymru yn gysegredig. Am bobl Llanelwid, 'rwy'n credu y byddai'n well ganddynt farw na cholli golwg ar yr hen fynydd tu ol i'r pentref. Yr oedd Islwyn yn 'nabod ei genedl pan y canodd:—

"Tylodi a phrinder sydd well gyda Chymru  
 Na gogoniant y byd a'i lawnder oll hebddi."

. . . . . Neithiwr buodd Theophilus yma yn gofyn i fi helpi rhai o'r bobl ifenc i gael Eisteddfod a Chyngherdd ar Ddydd Gwyl Dewi Sant. Nid ydynt wedi penderfynu eto ar beth y gwariant yr elw. Addewais helpi os defnyddient yr "arian dros ben" tuag at gychwyn Darllenfa Rydd yn y pentref, ac addawodd Theophilus y byddent yn gwneyd. Beth bynag, 'rwyf wedi addaw beirniadu'r canu (dyna i ti Ddynes Newydd, *with a vengeance*), ac yr wyf yn cynyg gwobr ogoron (rhoddedig gan Mr. Robert Bowen o Ddeheudir Africa), am benillion ar "Fedd Llewelyn ein Llyw Ola'."

CHWEFROR 2.— . . . . Wedi ysgrifenu atat o'r blaen, yr wyf wedi newid llawer yn fy meddwl ynghylch swyn a phrydferthweh bywyd Llanelwid. Gwelaf dy lygaid yn agor mewn syndod a siomiant; ond y mae yn rhaid i fi ddweyd fy meddwl wrthyf fel pe buasem wyneb yn wyneb. O, Bob! y mae hiraeth arnaf ar dy ol, ac er fod nanti'n garedig iawn, 'rwy'n teimlo fod gwagder mawr yn fy nghalon. . . . .

. . . . . Ond 'rwyf wedi fy siomi yn Llanelwid. Mae cymaint o gyfnewidiadau yn cymeryd lle yn arferion y bobl, hyd yn oed yn fy nghof i. Ac am yr hen ddefion diniwed oedd mewn grym yn amser tadeu, 'does braidd son am danynt erbyn heddyw. . . . . Dim ond Mali'r Graig sy'n gwisgo hat uchel yn Salem; mae hyd yn oed Sali Nat wedi ei rhoi heibio oddiar pan

gafodd fonet gan un o'r plant. Brethyn o waith gwlad oedd gwisg y bechgyn yn amser tadcu — nid rhyw ddynwarediad o ffasiynau Lloegr. Gwisgai'r gwragedd yn syml ac yn dlws; nid mewn imitation ffurs, na hetiau salw, na dillad yn ol ffasiwn Whitechapel. Hawdd oedd adnabod Cymro wrth ei got, a Chymraes wrth ei het a'i phais fach. Ond heddyw edrycha'r gwragedd fel Harriets Bethnal Green, a'r gwyr fel crugyn o *mutes* mewn angladd yn eu cotau duon! . . . .

. . . . Ac am y bwyd, mae yn waeth fyth! Nid bwydydd cryf, iach, blasus, o laeth a cheirch a haidd a geir, ond te wedi ei stiwiio, a bara menyn byth a hefyd. Dywed Theophilus y Cantwr ei fod e'n cofio tair cenhedlaeth o Gymry. Y gyntaf, meddai oedd "cenhedleth Bili a Beto a chawl; yr ail oedd cenhedleth meistr a meistres a *broth*; a'r drydedd yw cenhedleth syr a madam a the!"

. . . . A beth ddaeth o'r hen arferion cartrefol a champau yr aelwyd oedd gynt yn crynhoi pob aelod o'r teulu o gylch y tan ar hwyrnos gauaf? Clywaf son am amser pan oedd y gweision yn eistedd ar yr aelwyd yn gwneyd basgedi a chintelli a llwyau pren a rhacanau gwair, a'r morwynion yn gweu sanau neu gweirio dillad. Adroddid storhaus am y Tylwyth Teg a chanwyllau cyrff, neu ddarnau o bregethau, ac hanesion am bregethwyr; neu cenid hymn neu garol neu alaw Gymreig. Ond b'le erbyn heddyw y maent oll? Nid oes gan Tom y Waginer amser i aros eiliad yn y gegin ar ol swper. "Rho ganwyll fi," medd wrth Leisa, "mae eisieu myn'd i'r stabal arna i." Y cowman a'r crwt—allan ânt hwythau ar ei ol, ac y mae nanti yn *falch* eu gweled yn myn'd maes o'r ty! Pwy obaith sydd am fywyd gwledig os pery pethau fel hyn? Codir ysgolion ym mhob cwr o'r wlad, ond yr ydym yn esgeuluso'r gwasanaeth-ddynion. Pe bai chwant darllen arnynt, ni cha'nt gyfle i wneyd hyny, oblegid nid oes ganddynt le i eistedd na chanwyll i ddarllen wrth ei goleu.—Mae'n dda genyf fod argoel y ceir Eisteddfod dda ar ddydd Gwyl Dewi. Carwn erbyn y gauaf nesaf gael digon o arian i agor ystafell gyfleus, siriol, hawddgar yn y pentref lle gall y gweision a'r morwynion a phobl ifenc y plwydd gyfarfod a'u gilydd. Ond cymaint gwell fuasai cael yr hen drefn yn ol!

. . . . Ac, O, Bob, yr hyn sydd yn fy synu fwyaf yw'r gwahaniaeth sydd yn syniad pobl at grefydd, rhagor yr hyn a fu.

Gynt yr oedd crefydd yn rhan o fywyd Cymro; nid elai maes i'r cae, ni werthai mewn ffair na marchnad, heb gofio bob awr o'r dydd fod llygad Duw arno. Nid oedd yn oleuedig ei ddeall, ond yr oedd ei agosrwydd at Dduw wedi rhoddi safon uwch o'i flaen mewn bywyd na'n holl addysg a'n diwylliant ni. Nid ffasiwn oedd ei grefydd, nid dilledyn i'w gwisgo a'i dad-wisgo yn ol yr herwydd; ond prif amcan ac angenrhaid ei fywyd. Mor wahanol yw pethau erbyn hyn! Ffasiwn yw crefydd gan lawer, ac o'r braidd y gellir cael digon o wrywod ynghyd ar noswaith waith i gynnal seiet. Nos Sul diweddfaf bu'n ddadl yn Salem p'un a ddylid rhoddi heibio'r cyrddau gweddi teithiol neu beidio. Er na lwyddwyd i'w difetha y tro hwn, ofnaf fod eu dyddiau wedi eu rhifo.

. . . . Clywaf lawer o hanes tadcu a mamgu gan Theophilus ac ereill. Mae'n dda genyf ddyohmygu gweled coryn moel yr hen wr yn plygu fel corsen o flaen gwynt nerthol pan yn gwranddo ryw bregethwr seraphaidd yn pregethu yn Salem: neu ei weled ef yn brochgau, a mamgu wrth ei sgil, yr holl ffordd i Grugybar neu Gapel Isaac, i gwrdd cwarter neu gymanfa; neu yn gadael pob peth, gan nad pwy mor stresol y byddai hi, er myn'd mewn pryd drwy'r cwm i'r cwrdd gweddi. Ond yr hyn a'm llonodd fwyaf oedd olywed Theophilus yn adrodd fel y dysgodd tadcu ef i ddarllen ac ysgrifenu yn yr Ysgol Sul. Dywed nanti nad oedd tadcu wedi cael ond cwarter o ysgol ericed, ac nad oedd yn fawr o 'sgoler; ond mae'n dda genyf feddwl am dano a'i fysedd oelyd ar astell yr A B C yn dysgu'r wyddoreg i Theo. bach pan nad oedd na Senedd na ffeiriad yn hidio dim am dano. Siarada Theophilus lawer am mamgu — menyw drafferthus a helbulus am bob peth, meddai. Ond 'nawr ac yn y man, anghofiai'r cyfan dan ddylanwad pregeth rymus, a mynych y gwelid hi a Sara Daniel yn neidio o'u setau yn Salem, ac yn dawnsio ar yr alê, gan folianu a chanu a gweddio. Bues yn sefyll uwch ben ei bedd yn y fynwent dydd Sul, ac er nas gwelais hi erioed nis gallwn beidio tywallt deigr yn wrth feddwl am dani. . . . .

. . . . Yr ydym yn darllen dy erthyglau gyda blas yn Llanelwid. Mae nanti yn derbyn dau gopi o'r papyr l.ob dydd, ac y mae tri arall yn dwad i'r plwydd. Ni chafodd un papur Llundain gymaint o gylchrediad erioed yn Llanelwid, ac 'rwy'n credu fod nanti'n barnu y codir dy gyflog pan ddaw y golygydd i

wybod am hyn! Mae Nat yn galw'n fynych i ofyn dy helynt, ac y mae yn ddoniol iawn yn disgrifio dy fywyd wrth Leisa. . . .  
 . . . . Ond eto 'rwy'n teimlo'n "unig ac yn goddef gorthrymder." Nid wyf byth yn derbyn llythyr ond oddiwrthyt ti. 'Rown wedi meddwl y cawswn glywed ambell waith oddi wrth rai o'n ffryndiau yn Llundain; ond nid yw Eenni Bach nac Arthur Jones wedi anfon gair ataf wedi iddynt ymadael. . . .

(Mae Bob wedi gosod marc glâs mawr dan y frawddeg ddiweddaf. Fe allai ei fod yn credu fod hon yn esbonio prudd-der a anobaith y rhan arall o'r llythyr).

## PENOD XIV.

### EISTEDDFOD LLANELWID.

MAWRTH 2.— . . . . O, Bob! ti fuaset wedi lico'r Eisteddfod ddoe! Daeth Arthur Jones lawr yn unig swydd o Lundain i gymeryd y gadair, ac fe wnaeth *shwd* araeth dda. 'Roedd pawb yn ei chanmol drwy'r holl le. 'Down i ddim yn meddwl y gallai Arthur siarad oystal, ac y mae gydag e'r fath lais clir a thwyer! 'Rwy'n ffeilu deall paham nag yw e'n well canwr. 'Roedd ei dad a'i fam yno, ac yr oeddynt yn edrych mor bles a hapus a balch. 'Roedd yn gwneyd lles i enaid dyn i wel'd yr hen bobl!

. . . . Cafwyd llawer cystadleuaeth ardderchog. Tom y Waginer — "Eos y Gelli" yw ei ffugenw — gafodd y wobr am yr Unawd Tenor, ac, yn wir, nid oes ganddo lais gwael o gwbl. Bu'n dynu tyn rhwng Cor Undebol Llanelwid a Chor Llangoediog ar y brif dôn, "Mor weddaidd ar y Mynyddoedd." Ond dyfarnais y wobr, ar air a chydwybod, i Langoediog, — er mawr siomiant i wyr Llanelwid ac i mi fy hun. "Robin o'r Llwyn" gipiodd dy wobr di am y penillion ar "Fedd Llewelyn." Cyn addurno'r Bardd, adroddodd Arthur pa fodd yr oeddit yn gobethio dathlu Gwyl Ddewi gyda Chymry Johannesburg, ac ymysg "cymeradwyaeth fyddarol," dywedodd dy fod yn meddwl dod yn ol cyn diwedd yr haf i ymweled a'th hen gartref. Pasiwyd penderfyniad brwdfrydig o ddiolchgarwch i ti am y wobr, a'th rodd o £5 at y Ddarllenfa.—Hen greadur rhyfedd yw Robin hefyd! Pan esgynodd i'r llwyfan, sicrhaodd fi na chyfansoddodd erioed y fath linellau o'r blaen. Credai nad oedd bai na choll ynddynt

o'r dechreu i'r diwedd, a dywedai ei fod yn hollol foddlon i'r oes-  
au a ddel farnu ei awen wrth y penillion hyn. Siarsiodd fi i  
ddanfôn copi atat ar fyrder, "oblegid," meddai, "er nad yw eich  
brawd yn fardd yn ol braint a defawd, ni fedd Cymru benbaladr  
feirniad craffach nag ef." Mae Robin yn awyddus iawn i gael  
dy "farn onest" di am y penillion. Ti wyddost beth yw ystyr  
hyny, oblegid "bardd a llenor" y geilw Robin ei hun. Ond  
dyma'r penillion i ti:—

### BEDD LLEWELYN EIN LLYW OLA.'

#### I.

Bu farw ein Llewelyn,  
Drwy rym estronol gledd!  
Bu farw yn esgymun,  
Heb weddi dros ei fedd!  
Dirmygwyd ef gan fonedd  
Ac eglwys gaeth ei wlad;  
Ond gan y werin ffyddlon, fud,  
Drwy lawer canrif ar eu hyd,  
Fe gadwyd ei goffhad.

#### II.

Pa le mae bedd y gwron?  
Nis gwyr ond engyl nef!  
Nid oes na chroes na cholofn  
Yn adgof arno ef.  
Fel Moysen hen, yn ddirgel,  
O halog olwg dyn,  
Mewn llanerch, lonydd, dawel,  
Fe'i claddwyd wrtho'i hun.

#### III.

Cymylau'r nef yn unig  
A wylent uwch ei fedd,  
A'r gwyntoedd trist gwynfanent  
Eu mwyn alawon hedd;  
A blodau gwyllt y mynydd  
Mewn galar blygent ben  
Ar ol y gwr fu farw  
Dros ryddid Cymru Wen!



Mi ddylet fod wedi clywed Arthur Jones yn "rigan" yr hen Robin ar ol yr Eisteddfod.

"Ydach chi'n meddwl, 'rwan, Doctor Jones," ebai Robin, "y buasai gwerthiant ar lyfr bychan o Delynegion dan yr enw 'Robin yn Pyngcio?'"

"Gallwn feddwl y byse fe," meddai Arthur. "Oes arnoch chi 'whant eu cyhoeddi?"

"Y mae amryfal lenorion yn fy anog i wneyd hyny," atebai Robin yn ei ddull mawreddog. "Ond y mae peth ofn arnaf gan nas gwypum ddim am y fath anturiaeth. 'Y dychryn yw y dechreu' fel y gwyr pob Eisteddfodwr yn dda. Beth yw eich barn onest chwi, 'rwan, Doctor, am y penillion ar 'Fedd Llewelyn?'"

Canfyddais wrth lygad Arthur ei fod yn meddwl poeni tipyn ar y prydydd.

"Wel, mae'n well gen i i beidio a dweyd wrthoch chi, Robin," meddai, "wath 'dwyf fi ddim yn ddigon o lenor."

"Na, na, Doctor," atebai Robin, "deydwch, deydwch i mi."

"'Rwy'n credu," meddai Arthur yn bwylllog, "er nas gwn i ond ychydig am farddoniaeth, y gellid cymhwyso llawer arni nhw."

"Yn mha fodd?" gofynai Robin yn chwyddedig.

"Yn gyntaf," atebai Arthur, "y mae yn anghywir dweyd i Lewelyn gael ei ladd gan 'ryw estronol gledd.' Nid a chleddyf ond a gwaywffon, y lladdwyd Llewelyn."

"Nid yw hynyna," meddai Robin, "ond megis hollti asgell gwybedyn. Defnyddir y gair cledd yn fynych gan feirddion i arwyddocau marwolaeth waedlyd ddisyfyd. Neu fel y dywed y Beibl, 'pawb ar a gymerant gleddyf a ddifethir a chleddyf.'"

"Heblaw hyny," ychwanegai Arthur, "yr ych yn dweyd yn yr ail benill nad oes neb on 'engyl nef' yn gwybod ym mha le mae'r bedd. Eto, yn y trydydd penill yr y'ch yn rhoi disgrifiad o'r angladd, gan ddweyd ei fod yn rhywle ymysg y mynyddoedd."

"Ai nid oes i fardd ei ddychymyg?" gofynai Robin, yn gyffrous. "Ai ni ddywedir am Foysen iddo gael bedd yn rhosydd Moab, er na welodd dyn ei gynhebrwng? Pob parch i chi Doctor Jones, ond nid ydych eto ond megis plentyn sugno, heb wybod dim am reolau barddoniaeth. Ac am eich beirniadaeth, syr, nid yw ond 'cerydd o enau corach.'"

"Ond y mae'r beirniad wedi dwyn gwaeth cyhuddiad yn eich erbyn," aeth Arthur ymlaen i ddweyd.

"A pha beth yw hwnw?" gofynai Robin,—oblegid, oherwydd prinder amser, ni ddarllenwyd y feirniadaeth ar g'oedd.

"Dywed fod genych fwy o gof nag o wreiddiolder, Robin," meddai Arthur, "ac mai adlais o gan Ceiriog yw'r penill diweddfaf. Gyda chi mae'r cymylau'n wylo a'r gwynt yn cwynfan, a'r blodau yn plygu eu pen. Ond mae Ceiriog, o'ch blaen wedi dweyd fod

'Dagrau y cwmwl yn gwyhod am dano,  
A deryn y mynydd yn nabod y bedd,'

'Yr awel a gwyna a'r ddaear a ddywed  
Fod calon hen Walia yn curo'n lled wan.'

"Doctor Jones!" ebai Robin, wedi ffroni yn aruthr, "yr ydych chi, neu y beirniad, wedi dwyn i'm herbyn gyhuddiad cywilyddus. Ni cheir, syr, 'llenladrad yn Llanelwid.' Fe allai i'r un drychfeddwl wibio drwy fy meddwl i a meddwl Ceiriog — digwydda hyny yn fynych gyda llenorion a beirddion uchelryw. Oni chyhuddwyd Elis Wyn o len-ladrad? Ac oni cholodd Cymru weledigaeth arall gan y Bardd Cwsg yn herwydd y cyhuddiad oreulawn hwnw? Na nid 'lleidr yw gwr y llodrau.' Mae genyf fi, fel pob bardd arall, hawl i alw ar natur i wylo ar ol gwrthdrys fy molawd. Oni ddywedodd hen Iolo mai ofer fusesai hau ym Mon ar ol marw Tudur Fychan:—

'Na sonier am adderyw  
Na lafurier,—ofer yw;  
Na chwardder, yn iach heirddion,  
Na hauer mwy yn nhir Mon!'

Ac os galwaf ar alluoedd natur i alaru, beth all y cymyl wneyd ond wylo, neu'r gwynt ond cwynfan. Na, Doctor Jones, nid gofyn a ddylech p'un a wnaeth Ceiriog ddefnydd o ffigwr neillduol o'm blaen i, ond pa un ai Ceiriog ai myfi wnaeth y defnydd goreu o hono?

A haeraf, mentraf i mi  
Ar Geiriog dra ragori."

A chan chwythu bygythion a chynghanedd, ymaith a Robin a'i hwyliau'n llawn o wynt, a'n gadael ninau yn chwerthin ar ein gwaethaf. Ond, chwareu teg iddo, ni fachludodd yr haul ar ei ddigofaint. Cyn y cyngherdd daeth at Arthur, a dywedodd, gan estyn ei law,—

"Doctor Jones, y mae yn wir ddrwg genyf i mi gollu fy nhym-er. 'Hen Robin drodd yn rebel.' Dylwn fod yn eich adnabod yn well. Maddeuwch i hen fardd. 'Anghofier fy nhymher hy.' Eich llaw, Doctor Jones. 'Does neb yn teimlo'n anwylach o hon-och na fi. 'I Lanelwid eilun y'ch;' ac i minau bydd hyn yn wers i roddi ffrwyn ar fy nwyd.

I'r bardd, gwyllt try hyn er budd,—  
Robin a gymer rybudd!"

Ac ymadawodd y ddau yn ffryndiau mawr!

Ar ol gwneyd y cownt i fyny, cafwyd fod genym dros £20 o elw, a chyda'th bum' punt di, mae genym £25 at gychwyn y Ddarllenfa y gauaf nesa'. Ohredu di ddim mor falch 'rwy'n teimlo. . . .

Ar ol y Concert, daeth Arthur Jones i'm hebrwng gartref i'r Gelli, wa'th 'rodd nanti wedi myn'd 'nol yn gynar. Garw fel mae e'n dadblygu! Mae'n gwneyd lles i fi siarad ag un mor dawel, mor synhwyrol, mor ddeallgar, ac yr oedd yn siarad mor garedig am ei rieni, ac yn dweyd ei fod yn gobeithio y buaswn yn eu lico. . . .

---

## PENOD XV.

### YR EOS YN LLANELWID.

Ni roddaf ragor o ddyfyniadau o lythyrau Gladys at Bob, er y gwnaf ddefnydd o honynt o hyn hyd y diwedd. Ceir ynddynt gyfeiriadau mynych at y digwyddiadau a adroddaf yn fy ffordd fy hun; ond ni welir ynddynt ond cipdrem unochrog ar yr helyntion a fwriadaf ddesgrifio, a bu raid i mi chwilio dyddiadur Dafï Jones, a chasglu rhai pethau oddiar dafod leferydd y plwyf cyn dyfod o hyd i'r holl fanylion.

Ni cheir ond y peth lleiaf o son am Arthur Jones yn llythrau Gladys o hyn allan. O'r braidd y gellir dyfod ar draws ei enw; ymgripia unwaith neu ddwy i lythyr fel pe o'i hanfodd, a llecha mewn cornel fel un a chywilydd arno ddangos ei wyneb. Ond am Rowlands y ciwrat — nid oes diwedd ar y son am dano! Yn awr y mae Mr. Rowlands yn gwneyd hyn, bryd arall y mae Mr. Rowlands yn dweyd y peth arall. Ceir llawer mwy o hanes Mr. Rowlands na hanes Gladys, dyweder, neu Mrs. Morris. Diau fod Bob yn meddwl fod gormod o son am y ciwrat newydd—oblegid nid yw Bob yn orhoff o offeiriaid, — ond, er hyny, ni fynegwyd iddo mo'r haner. Cefais lawer o drafferth yn ol llaw cyn gwybod y cyfan, ac yr wyf yn benderfynol o ddweyd yr hanes yn union fel y bu, heb ofni gwg na chrefu ffafr neb. Mae yn llawn bryd, erbyn hyn, i bobl Llanelwid gael gwybod pa sail y sydd i'r gwanol ystoriau am Gladys a'r ciwrat.

Mor belled ag y gallaf fi ddeall, ar nos Sul, y diwrnod diweddaf ym mis Mawrth, y dechreuodd y cyfan. Digwyddai Mr. Rowlands a Nat fod yn cyd-gerdded a'u gilydd o'r pentref ar ol cwrdd y boreu.

"Mae'n dywydd hyfryd, Nathaniel Williams," ebai'r ciwrat—oblegid, er nad oedd y ddau yn ddim gwell na "ffryns gwyr bon'ddigion," ni chymerai Mr. Rowlands y byd am heidio cyfarch pob un o'r plwyfolion ar y ffordd.

"Ody mae hi, syr," atebai Nat. "'Dwy i ddim yn cofio shwd dywydd hindda yr amser hyn o'r flwyddyn o'r blaen. Mae'n syndod pwy mor gynar mae pobpeth leni! Mi glywodd Dafydd Jones y gwew wthnos yn ol ar gaeau Coed Weddus, a mae'n nhw'n gweyd wrtho i fod yr eos yn canu yn ngho'd y Parc!"

"'Dos dim shwd beth," dywedai Mr. Rowlands. "Dyw'r eos byth yn dwad ffordd hyn, ody hi?"

"Nag yw fel arfer," meddai Nat, "ond 'dos dim mwy o ddal arni hi nag sy' ar y rhest o'r canwyr 'ma! Rhai rhyfedd o whit-whit ydyn nhw i gyd—weithe man hyn, a weithe man draw! Mi glywes gen 'y nhad iddi fod yn canu yn y Parc dair-blynedd o'r bren, er nad mor gynar a hyn, ond 'rodd hyny'n mhell oyn cof gen i."

"Dier mi!" ebai Mr. Rowlands, "pwy fyse'n meddwl clywed eos yn Llanelwid!"

Ni wnaeth Nat un ateb, ond trodd yr ymadrodd at ryw bwne arall. P'un a oedd y gof yn credu'r stori sydd fwy nas gall neb yn awr benderfynu. 'Rwy'n lled dybied ei fod. Beth bynag, cyn y nos yr oedd Mr. Rowlands wedi gwneyd y newydd yn esgus dros alw yn y Gelli, ac yr oedd wedi llwyddo gan Gladys addaw myned gydag ef nos dramoeth i goed y Parc i glywed yr eos.

Nos Lun a ddaeth — noson oleu leuad braf, pan y mae natur fel pe wedi ei gwisgo ag arian, pan nad oes chwant myn'd i'r gwely ar neb, a phan yr hoffa plant yr ardal rodio'r caeau, dan ganu—

“Goleu leuad fel y dydd,  
Siencyn Dafydd ar ei hyd,  
Rhifo'i blant wrth y nant,  
Saith ugain ac wyth cant.”

Yr oedd Mr. Rowlands dipyn yn hwyr yn cyrhaedd y Gelli, gan ei fod wedi ei gadw mewn “cwrdd nos Lun cynta'r mis,” yn ysgoldy'r Eglwys. Ond er hwyred ydodd arno, yr oedd yn ddigon cynar, oblegid dywedai nad oedd yr eos yn dechreu canu tan ganol nos. Nid yw gallt y Parc nemawr o ffordd o'r Gelli. Gellir gwel'd y coed duon mawrion yn eglur o'r clôs, fel y maent yn tadu eu cysgodion tywyll ar y cwm distaw wrth eu traed. Tuag unarddeg o'r gloch cychwynodd Gladys, a Leisa, a Mr. Rowlands ar eu siwrne. Nid oedd un o'r tri yn awyddus iawn i gychwyn, mae'n rhaid cyfaddef, a phe cawsent esgus dros heidio myn'd, buasent yn falch i aros gartref. Ond cychwyn a wnaethant o'r diwedd, yn aniddig eu gwala. O'r braidd y dywedodd un air wrth y llall hyd nes y gofynodd Leisa yn ddisymwth—

“Miss Bowen,” meddai hi, “beth yw'r eos?”

“O,” brysiodd Mr. Rowlands i ateb, “'deryn bach sy'n canu yw e.”

“Ie fe?” meddai Leisa, “'rodd mam yn arfer gweyd 'y mod i yn gallu canu fel 'deryn.”

“O'dd hi'n wir?” gofynai Mr. Rowlands yn foesgar.

“O'dd'n wir,” ebai Leisa; “a wyddoch chi pwy dderyn yw hwnw?”

“Na wn i,” meddai Mr. Rowlands yn ddiniwed.

“Brân!” meddai Leisa, gan chwerthin.

"Rhag cywilydd, Leisa!" ebai Gladys, yn sarug, "os——"

"O, gadewch iddi hi, Miss Bowen," meddai Mr. Rowlands yn llariaidd. "Mae Elizabeth a fi yn diall ein gilydd cyn heno!"

"Odyn, gwlei!" atebai Leisa, gan chwerthin drachefn.

Erbyn hyn yr oeddynt wedi cyrhaedd y cwm wrth odreu'r Parc, ac yng ngoleu'r lleuad gwelent fintai fechan o fforddion yn aros wrth wal y Coed. Wedi cyrhaedd hyd atynt, pwy gawsant yno, er eu syndod, ond Robin o'r Llwyn a dau neu dri o'r pentrefwyr.

"Nosweth dda i chi, Robin," meddai Gladys. "Beth sy' wedi'ch tynu chi ma's mor hwyr?"

"Nos dawch, Miss Bowen," meddai Robin, "a nos dawch i chwithau, gymrodyr. Tybed ein bod i gyd yn cyrchu at yr eos?"

"Odyn, roen ni'n meddwl cael ei chlywed hi," atebai Mr. Rowlands. "Wyddoch chi ble mae hi'n canu?"

"Yn ddilys," ebai'r teiliwr, "ni cheir eos — os credwn feirddion — ond mewn llwyn, ac ni cheir llwyn yn y coedydd hyn ond o gylch y llanereh werdd lle gorwedd yr hen Gromlech. Awn felly i'r fan hono, a chawn wybod wrth ei thelori mwyn yn mha lwyn yr erys Peneerdes yr Adar.

Cerdd eos a ddangosai  
I mi'n bert y man y ba'i."

"Ie, gnewn hast," meddai Leisa, "neu falle y bydd hi wedi dybennu canu cyn yr own ni yno."

"Nid yw'ch llawforwyn, Miss Bowen," ebai'r teiliwr, gan droi at Gladys, wrth ddringo i fyny ar hyd y llwybr cul drwy'r allt, "erioed wedi darllen yr hyn ddywed y beirddion am yr eos—

'Yn nyfader nos o boen a thrais,  
Y dyru lais felusaf."

Gwyddai'r hen feirddion am bob ysgogiad o eiddo pob ysgrubliad ac edn — yn y wig ac ar y buarth. Ond ni cheir neb 'rwan yn canu i'r eos; ac nid wyf fi, brydydd trwstan, erioed wedi clywed ei chainc. Ond heno caf ei chlywed, fel y clywodd Dafydd hi, yn y coed. Er nad yw hi eto yn Fai, 'Af i'r coed fel hen Ddafydd' —"

"A—a—a!" gwaeddai Leisa o'r tu ol.

“Beth sy'n bod ferch?” gofyanai Robin yn grynedig, a iasau dychryn yn rhedeg drwyddo. Arosai'r lleill hefyd yn ofni tynu eu hanadl yn y cysgodion tywyll.

“A—a—a!” gwaeddai Leisa drachefn.

“Leisa! gwedwch beth sy'n bod?” meddai Gladys, gan gydio yn ei braich, “neu dyma finau'n gwaeddi!”

“O dier, O dier!” ebai Leisa, gan dynu ei hanadl ati, “dyna ofan ge's i!”

“'Dos dim eisieu i chwi weyd hyny!” atebai Gladys dipyn yn fyr. “Ag 'rych chi wedi hala ofan arnon nine hefyd. Beth o'dd yn bod?”

“Demshgyn ar froga nes i!” dywedai Leisa; “Ac yn 'y ngwir i, 'dallwn i byth peidio 'sgrechen wrth i glywed e dan 'y nhraed i!”

“Dowch chi, 'ngeneth i!” ebai Robin yn dadol. “Broga oedd yna, aie? Rhyfedd mor rhwydd y dychryniair y genethod! ac, ond eu dychrynu, 'gwaeddant, ysgrechant yn groch!’ O'm rhan i fy hun, nid yn fynych y teimlaf arswyd ond pan welaf alluoedd anian yn terfysgu! Ond rhaid i mi gyfaddef nad da genyf weled llyffant na broga, — yn wir, temtir fi i regu pan welaf eu cyrff gwenwynllyd! ‘Ie, broga a bair regu.’ Nid yw'r gynghanedd yn hollawl uniawn, ond mae'r meddyldrych yn gywir. — Ond atolwg, hogen, nac ysgrecha mwyach, neu fe ‘derfi'r eos a'th dyrfaeu.’ Ymlaen, felly, gymdeithion, i Le'r Gromlech, mor fuan ag sydd modd.

‘Awn yn ffyddlawn ein ffydd  
I lanerch hyfryd, lonydd.’”

Cyn pen hir amser cyrhaeddwyd y maen lle gorwedddai hen Gromlech lwyd, fwsoglyd, a phenderfynwyd aros yno hyd ganol nos.

“Faint o amser sy' cyn iddi hi ddechreu?” gofynai Leisa yn isel, fel pe bai yn disgwyl cantores mewn cyngherdd.

“Mae hi obeitu dechre, gwleil!” ebai'r ciwrat, gan dynu ei oriawr allan, “mae hi 'nawr yn ugen myned rhynti a douddeg.”

“Wel, 'rwy' i wedi blino, ta beth!” meddai Leisa, gan eistedd ar gareg uchaf y Gromlech.

“Ferch y fall!” gwaeddai Robin, a'i lygaid yn melltenu yn y goleu-leuad. “Ymswyna beth a wnelych! Na haloga'r maen cysegredig!”





Yr oedd golwg mor wyllt a dieithr ar Robin, a'r fath gyffro yn ei lais, fel y neidiodd Leisa ar unwaith i ochr Gladys, ac ebai hi yn frawychus—

“Down i ddim yn meddwl dim drwg, Robin, yn wir yn wir!”

“Na, na, feinir!” meddai Robin, “nis gwyddost beth yr oeddit yn wneuthur, a'th anwybod yn unig a'th geidw! Ac yr wyt ti meddant, wedi derbyn addysg! *Ti*,—am dy fod wedi dysgu am flynyddau yn yr ysgol 'sothach gwanach na gwynt!’ Dywedwyd wrthyt, druan, am uchder mynyddoedd y byd; ond ni wyddost ddim am hanes dy wlad dy hun! Ni chlywaist son am Gyfrinach y Maen Llog, na mawrion bethau barddas. Nis ynganwyd gair wrthyt am ‘gyfrinion beirddion y byd,’ nac am grefydd dy gyn-deidiau!

‘Does llef yn dweyd am grefydd  
Cymru Fu wrth Gymru Fydd.’

Wyddost ti fod y maen hwn, ar yr hwn y mynet bentyru anharch, wedi goroesi'r Rhufeiniaid a'r Sacsoniaid a'r Normaniaid? Ei fod yn golofn dyst i fyrder hoedl gelynyon y Brythoniaid? Ar bob gelyn ‘trechodd yr hen Gromlechau——’”

“Hisht!” ebai Mr. Rowlands yn ddisymwth, “mae rhywbeth yn y llwyn yco.”

“P'un, p'un?” gofynai Gladys a Leisa ar un anadl.

“Hwn'co,” meddai'r ciwrat, gan estyn ei fys at lwyn o gyll, rhyw ugain llath oddiwrthynt.

Edrychodd pawb yn astud ar y llwyn. Clywid trwst ym unben yehydig yn tori ar y distawrwydd poenus.

“Tw-hw, tw-hw!” meddai rhywbeth mewn llais aflafar yn y llwyn, ac ehedodd aderyn gwyn o hono yn groes i'r llanerch agored.

“Eos yw hwna?” ebai Leisa yn llawn syndod, wrth Robin

“Yng nghrog y b'ot, ti a'th eos!” llefai'r teiliwr yn ddigofus.  
“Nid yw hi ond dylluan.”

“Dylluan?” meddai Leisa, “beth yw hyny?”

“Go deico di, gwdi-hw!” gwaeddai Robin.

“Ond — ond — ody'r eos ddim yma!” gofynai Mr. Rowlands, yn ddyrlyd.

“Yma?” ebai Robin yn llidiog. “Nag yw, a 'chredai neb ond ffwl Ebrill' y clywid hi'n pyngcio cyn Mai. Awn yn ol, cyn i aeb ein gweled.”

"Pwy ddywedodd wrthoch chi, Mr. Rowlands?" meddai Gladys, "fod eos yma?"

"Nathaniel y gof," ebai Mr. Rowlands, gan blygu ei ben.

"A phwy ddywedodd wrthoch chi, Robin?"

"Hwn," meddai Robin, gan osod ei law ar ysgwydd un o'r pentrefwyr,

Hwn yw ef, gwn yn gynil,  
Awn ato'n syth ym mhlith mil."

"A phwy ddywedodd wrthoch chi?" gofynai Gladys i gyfaill Robin.

"Nat," meddai hwnw yn swil.

"Dylaswn fod yn gwybod hyny!" ebai Robin yn bruddaidd. "Pwy erioed glywodd son am yr eos yn canu cyn Ebrill? Ow, ow, i mi, a minau'n fardd, gael fy nhwylo fel hyn!"

"Peidiwch a becsu, Robin bach," meddai Gladys, oblegid canfyddai fod y teiliwr wedi teimlo i'r byw, "'dos neb yn gwbod ond y ni!"

Adfywiodd hyn dipyn ar ysbryd y bardd.

"Eithaf gwir," meddai, "ac ond ni beidio ynganu gair wrth neb am hyn, ni fydd son am ein pererindod ffol. Cofwn, ynte gadw'n ddistaw!—

Na foed, fy ngwiw gyfoedion,  
Un son am y noson hon!"

"O'n goreu!" llefai pawb gan droi i ddychwelyd gartref.

Mintai ddistaw oedd y "pererinion" siomedig wrth gyfeirio eu camrau yn ol. Ni ddywedodd un air o'r braidd wrth yllall, a balch oedd gan bawb gyrhaedd pen eu taith.

Ond os oeddynt yn meddwl cadw'r hanes yn gél, druain o honynt! Cyn nos dranoeth yr oedd pawb drwy'r plwyf yn gwybod am y cyrchu i Le'r Gromlech, am ddisgwyliadau'r teiliwr, ac am ymddangosiad y gwdi-hw; ac, wrth gwrs, yr oedd Nat yn doddi lliw ei hun ar bobpeth.

"'Rown i yco!" meddai Nat yn yr efail dydd Mawrth wrth Daf Jones, "gyda Twm Waginer y Gelli, yn gellwng yr hen gwdi-hw yn rhydd. 'Rodd Twm wedi'i dala hi, chi wyddoch, 'rwthnos ddwetha yn y Dderwen Gou sy' ym Mharc sgawen—' Tw-hw, tw-hw,' mynte hi. 'Feirddion.' mynte Robin, 'clywch delori mwyn yr eos.' 'Tw-hw, tw-hw,' mynte'r hen gwdi-hw. Ond

ydi hi'n llesmeiriol o brydferth?" mynte Robin. 'Nid eos yw hona!' mynte Leisa'r Gelli. 'Beth wyddost ti am farddas?' mynte'r teiliwr bach. 'Ie cantores Ceridwen yw hona.' 'Wel, mae'n canu fel gwdi-hw, ta beth!' mynte Leisa, a gyda'r gair dyma Twm yn gellwng yr hen haleliwia'n rhydd. 'Ie'n wir,' meddai'r cwrwr, 'gwdi-hw yw hi, sownd!' 'Gwdi-hw?' mynte'r teiliwr, 'gwdi-hw?' a 'nol a fe fel oi a phadell wrth 'i gwt. 'Dyw e ddim wedi dangos ei big tu fa's i'r ty heddi. Mae Jane yn gweyd taw gwneyd pryddest y mae e, ond 'rwy'n gwbod gwell am hyny, a me fyddwn ni dro cyn ca'l pip ar y gwalch yto."

"Ie, lycoch di, Nat," ebai Dafu Jones oddiar ben "stol y gwrando" ar y pentan, "doş dim o dy fath di am rigs i ga'l yn y byd!"

Ond er gwaethed tafod Nat, yr oedd profedigaeth lemach yn eu haros. Yr oedd hen, hen gweryl rhwng Robin o'r Liwya a Gwilym Coediog, bardd y plwyf cyfagos. Cyfaddefid gan bawb yn ddiwahaniaeth mai Robin oedd wedi cael y goreu yn y "cerddi tuchan" a hurddiwyd o Langoediog i Lanelwid, ac o Lanelwid yn ol i Langoediog. Ond clywodd Coediog y stori am y gwdi-hw, a phenderfynodd ddal ar y cyfle. Ysgrifenodd gyfres o dribarau, a bu llawer o ganu arnynt gan grytsach y wlad am wythnosau a misoedd. Nid oedd ynddynt unrhyw werth llenyddol, a dywedat Robin yn wawdlyd am danynt nad oeddynt ond "penwendid rhyw dalcen slip." Ond er gwaeled eu llun, derbyniwyd hwy gyda brwdfrydedd yn Llanelwid, ac y mae rhai o honynt ar gof a chadw yn yr ardal hyd heddyw. A phe ond er dangos rhagoriaeth Robin fel bardd ar Gwilym Coediog, rhoddaf yma rai o'r penillion y medrais eu hachub o ebarhofiant. Teg, serch hyny, yw dweyd mai oddiwrth Nat y cefais hwynt, ac felly y mae yn dra thebyg nad ydynt mor goeth a dichlynaidd a phan y gadawsant eu awdwr :

Dewch ataf, fy nghyd-Gymry,  
Cewch glywed stori ddigri',  
Am ffwliaid Ebrill dwyllwyd gan  
Ddylluan ger y Gelli.

Un noswaith fe aeth teiliwr  
A chwmni mawr eu mwstwr,  
I glywed eos yn y co'd  
Yn canu clod ei Chrewr.

Ac yn eu mysg yn eger  
 'Roedd ciwrat Eglwys Loeger  
 Yn falch i ddangos ei fod ef  
 Yn ffond o lef mor dyner.

Ni chlywsant eos mwynlon  
 Yn chwareu tannau'r galon,  
 Ond clywsant leisiau, medde nhw  
 Y gwdi-hw wen dirion.

Hwy gofiant, o hyn allan—  
 Y bardd a'i gwmmi penwan—  
 Na cheir yn Ebrill yn y nos  
 Un eos ond dylluan.

Mae pawb, o'r bron, yn chwerthin  
 Ar ben y teiliwr Robin,  
 A'r ciwrat bach mewn dillad du,  
 A'i deulu oedd yn dilyn.

Rhof gynghor i'r lodesi,—  
 O, peidiwch, ar ol hyny,  
 Byth gredu bardd na 'ffeirad ffol  
 Sy'n dilyn 'r ol pob dwli.

Nid oes eisieu dweyd fod Mr. Rowlands mor ddigofus pan glywodd y penillion a Robin o'r Llwyn; ond am Gladys — ni fentraf ddesgrifio ei theimladau hi!

## PENOD XVI.

### "AR HYD Y NOS."

Mil a mwy o obeithion oedd y ciwrat, druan, wedi sylfaenu ar y "pererindod" gyda Gladys i goed y parc. Breuddwydiodd y buasai wedi cael cyfleusdra i siarad a hi'n gyfrinachol, ac i ddweyd wrthi am y teimladau nerthol oedd bron a'i lethu i'r llawr. Ond yn groes i'w ddisgwyliadau y digwyddodd pob peth. Yn lle

noson felus swynol, yn gwrandaw ar lais eos ac yn adrodd cwyn serch, cyfarfu ag un siomedigaeth ar ol y llall, a gwaeth na'r cyfan, gwelodd fod Gladys, yn ol arfer merched, yn tueddu i'w feio ef am yr anlwc i gyd. Aeth i'r Gelli yn gynar boreu dranoeth, ond dywedwyd wrtho fod Gladys yn dioddef oddiwrth gur yn ei phen, ac nas gallai ei weled. Ym mhen diwrnod neu ddau daeth i wybod am gân watwarus Gwilym Coediog, ac ni ryfeddai, ar ol hyny, i Gladys ei basio ar yr heol dydd Sul heb roddi ond yr arwydd leiaf o'i hadnabyddiaeth o hono. Gyrodd hyn Mr. Rowlands bron yn wallgof. Nis gwyddai yn iawn beth i wneyd. Pendrymodd lawer drwy'r nos hono uwchben y mater, gydag ocheneidiau fyrdd, ond cododd boreu dydd Llun yn iselach ei obaith ac yn fwy llwfr ei ysbryd na chynt. Ond nos Lun, pwy gyfarfyddai gerllaw y pentref ond Leisa'r llaethwraig. Ysgafnhaodd calon y ciwrat pan welodd ei gwyneb llydan. Aeth ymlaen ati a'i law yn estynedig, a gobaith newydd yn ei lygaid.

"Mae'n dda gen i'ch gwel'd chi, Lisabeth," ebai ef. "Shwd mae Miss Bowen yco?"

"Miss Bowen?" meddai Leisa. "Mi allwch ofyn hyny'n wir! Llauer 'rych chi'n hido, mi gynta, a chithe heb fod yn agos os wthnos! 'Rodd hi'n ddigon ma's natur o achos yr hen eos 'na wthnos i heno, ond wedi gwel'd y gân mae hi'n benwan holics!"

"O'dd hi ddim ma's n'atur wrthw i?" gofynai'r ciwrat, yn ofnus. "Wa'th yn 'y ngwir i, nid arna i o'dd y bai!"

"Wel, alla i ddim a gweyd ar bw y o'dd y bai," atebai Leisa, "mi wn i pwy sy'n ca'l y bai gyda Miss Bowen. Fyse hi ddim wedi myn'd yno o gwbl on' se i chi ofyn iddi. A mae arni ofan o hyd y daw 'i brawd ne' Arthur Jones ne' rai o fechgyn Llynden i w'bod am y ffordd y twylloch chi hi."

"I thwylo hi?" llefai'r ciwrat. "Y fi yn twyllo Miss Bowen? Chymrwn i ddim o'r byd am neyd y fath beth."

"Wel, chi sy'n ca'l y bai ta beth," 'eb'ai Leisa yn bwyllog, "a chi geiff y bai os na ddewch chi i siarad a hi."

"Ond shwd galla i?" meddai'r ciwrat, a'i lais yn llawn an-obaith. "Mae arna i ofan dwad yn agos i'r Gelli, rhag y gneith rhw un gân arall amboitu ni. A phan es i yno pwy dddwarnod 'na, che's i ddim gwel'd neb ond Mrs. Morris."

"O fe ddylech chi fod wedi dwad wedyn," ebai Leisa.

"Dos dim shawns esbonio pethe wrthi, tawn i'n dwad," ebai'r ciwrat, "wa'th ddaw hi ddim ma's o'r ty, ac yn y ty mae Mrs. Morris gyda hi'n wastod."

“Pam na ddewch chi i gwel'd hi wedi nos?” awgrymai Leisa, gan ostwng ei llais yn gyfrinachol. “Mae mystres ym myn'd i'r gwely'n wastod 'boitu naw o'r gloch.”

“Odych chi'n meddwl,” ebai Mr. Rowlands yn syn, “y byse Miss Bowen yn fo'lon i fi ddwad yco wedi nos?”

“Wel,” atebai Leisa, “nid y fi all ateb y cwestiwn, ond tawn i fel y chi, mi dreiw'n i ta beth.”

“Lisabeth,” meddai'r ciwrat, yn daer, “tawn i'n dwad, a 'nelech chi weyd wrth Miss Bowen 'y mod i tu fa's yn dishgwl i gwel'd hi?”

“Gna, fi 'na i hyny yn rhwydd,” ebai Leisa.

“Pwy amser ddylwn i fod yno?” gofynai'r ciwrat drachefn.

“O,” atebai Leisa, “'boitu'r deg 'na, wa'th fydd mystres ddim wedi myn'd i gysgu cyn hyny.”

“A ble ca i wel'd Miss Bowen?” gofynai Mr. Rowlands.

“Cnocwch chi wrth ffenest y gegin fach pan fyddwch chi'n barod,” meddai Leisa, “a fe weda i wrth Miss Bowen pwy fydd 'no.”

“Anghofia i ddim mo honoch chi ar ol hyn, Lisabeth,” ebai'r ciwrat yn wresog, “fe ellwch chi fentro hyny.”

“O, twt,” meddai Leisa yn ysgafn, “fe gewch chi'n mhriodi i am ddim am hyn!”

“Gna'n wir!” atebai Mr. Rowlands yn ddifrifol. “Pwy nos-weth fydd yn well i fi ddod i'r Gelli?”

“Goreu i gyd po gynta’,” ebai Leisa. “Pam na ddelech chi yco heno?”

“O'n goreu!” meddai Mr. Rowlands. “Am ddeg o'r gloch heno, 'nte!”

“Wrth ffenest y gegin fach!” ebai Leisa.

Pan ddychwelodd Leisa i'r Gelli, rhyfedd y cyfnewidiad oedd wedi dyfod drosti. Nis gwyddai Mrs. Morris beth i wneyd o honi. Yr oedd yn wên o glust i glust wrth gerdded o gylch y ty, a chlywai Mrs. Morris hi'n crechwen wrthi ei hunan yn y pantry bach pan yn olirio swper.

“Beth sy' wedi dwad dros Leisa, hawyr bach?” meddai Mrs. Morris o'r diwedd wrth Gladys.

Nid oedd Gladys yn edrych mor llon ag arfer. Yr oedd cwmwl ar ei gwyneb siriol, ac nid oedd ei llygaid glasddu yn dysgleirio fel cynt.

“Rwy'n ffeilu diall,” meddai, oblegid nid oedd Leisa wedi dweyd dim o'i chyfrinach wrthi hyd yn hyn.

"Beth sy' arnat ti, lodes?" gofynai Mrs. Morris, pan ddaeth Leisa yn ol o'r pantry. "Wyt ti'n myn'd i briodi, ne beth?"

"Ho! ho! ho!" chwarddai Leisa — ac yr oedd swm ei chwerthin fel rhuad taran o bell—"nag w i, na chyffra'i, mystres fach, ond fyse'n nghalon i ddim mwy ar y jigs tawn i'n myn'd i briodi C'langeua nesa'. Ho! ho! ho!"

"Wel, yn enw'r anwl, Leisa fach," ceintachai Mrs. Morris yn ei llais mwyaf dolurus, "peidiwch a'n syfrdanu a'ch swm, ta beth!"

Cyn pen hir aeth Mrs. Morris i'r gwely, gan adael Gladys yn y neuadd yn darllen erthygl ddiweddf Bob yn ei newyddiadur. Ond cyn iddi orffen ei haner, torodd Leisa ar draws ei hamdden. Yr oedd yn amlwg oddiwrth holl osgo Leisa fod ganddi ryw newydd pwysig i'w gyhoeddi. Daeth ymlaen at Gladys ar flaenau ei thraed, rhag ofn i Mrs. Morris ei chlywed yn y neuadd pan y dylai fod yn dawel yn ei gwely. Daeth yn glos at Gladys, a sisialodd yn ei chlust—

"Mae rhywun bach yn dwad yma, heno, Miss Bowen, i'ch gwel'd chi!"

"Yn dwad i'n ngwel'd i?" ebai Gladys yn syn.

"Hi! hi!" meddai Leisa. "Ie, i'ch gwel'd chi."

"Wel, 'cheiff neb 'y ngwel'd i!" ebai Gladys, "wa'th 'rwy'n myn'd i'r gwely 'nawr."

"Ond ewch chi ddim os gweda i wrthoch chi pwy sy'n dwad!" dywedai Leisa.

"Ody Doctor Jones ga'tre yn y Dole?" gofynai Gladys yn ddiniwed.

"Doctor Jones?" ebai Leisa. "Na, 'dwy' i dim yn gwbod dim am dano fe. Mr Rowlands sy'n dwad yma!"

"Mr. Rowlands, y ciwrat?" gofynai Gladys.

"Hi! hi!" chwarddai Leisa. "'Doech chi ddim yn meddwl am dano fe? Fe fydd yma am ddeg o'r gloch, ar bwys ffenest y gegin fach."

"A beth mae Mr. Rowlands yn mo'yn yma?" gofynai Gladys yn fawreddog.

"'Nawr, whare teg iddo fe hefyd!" meddai Leisa. "Peidwch a bod yn gâs wrtho fe, wa'th mae e bron tori 'i galon am danoch chi!"

"Peidiwch siarad nonsens, Leisa," ebai Gladys yn fyr. "'Dos gydach chi ddim bysnes i 'neyd i Mr. Rowlands gredu'ch dwli chi, ag am ddwad ag e amboitu'r ty yr adeg hyn o'r nos—"

A chyda'r gair dyna'r cloc yn taro deg.

“ Mae e'n siwr o fod ar bwys ffenest y gegin fach,” ebai Leisa. “ Dewch i ga'l gwel'd, Miss Bowen.”

Blin genyf gyfaddef, ond nis gallaf wadu'r ffaith, i gywreinarwydd Gladys gael y trechaf ar ei natur ddrwg, ac iddi, yn lle myned i'w gwely, redeg fel ewig ar ol Leisa at ffenestr y gegin fach!

Tra'r oedd hyn yn digwydd tu fewn i'r Gelli, yr oedd wedi bod yn amser pryderus ar y ciwrat oddiallan. Cyn deg o'r gloch yr oedd wedi cyrhaedd y buarth, ac wedi cael y glwyd yng nghau.

Ni fu lleidr erioed yn ymdrechu cymaint i agoshau at dy yn llechwraidd. Treiai agor y llidiart heb gadw swm, ond ar ganol codi'r glicied arosai'n ddisymwth, gan ysbio a chlustfeinio rhag ofn fod ci neu un o'r gweision gerllaw. Pe bae'r ciwrat erioed wedi clywed am Oronwy, buasai'n ddiâu yn cofio am hwnw yn

Codi'r glicied wichiedig,  
Deffro porthor y ddor ddig,

ar gyfryw amgylchiad. Ond nid oedd gan Mr. Rowlands un adgof melus am “ Galendr y Carwr ” i sirioli ei ysbryd ofnus. O'r diwedd penderfynodd fyned dros ben y glwyd yn lle ei hagog, ac yna daeth yn ddistaw i'r “ cwrt bach ” ac i bwys ffenestr y gegin fach.

Druan o'r ciwrat! Credai ei fod wedi gwneyd ei ffordd yn ardderchog, ac nas gwyddai neb am ei ddyfodiad i'r Gelli, ond Leisa a Gladys. Ond yr oedd hyd yn oed Leisa wedi anghofio un peth—sef fod Twm y Waginer yn cysgu uwchben y gegin fach! Yr oedd clustiau Twm mor deneu a chlustiau ysgyfarnog, a phan glywodd swm rhywun yn ceisio agor llidiart y clôs yn llechwraidd, neidiodd ar unwaith i'r ffenestr. Yr oedd mewn pryd, er ei fawr syndod, i weled y ciwrat yn dringo dros y glwyd.

“ Jaist i fach i!” meddai yn ddistaw ym mhen ychydig, “ pwy feddylse am y cadno hyn, 'te?”

Ar ol cyrhaedd ffenestr y gegin fach, arosodd Mr. Rowlands am eiliad, yn petruso beth i wneyd ymhellach. Yr oedd hyd yn hyn wedi dilyn gorchymynion Leisa, ond nid oedd y llaethwraig wedi rhoddi un awgrym iddo beth i wneyd ar ol cyrhaedd y ffenestr. Eto cryfach greddf nag amhrofiad! Os gosodir Cymro dan ffenestr ar oleu leuad ganol haf, ni fydd yn hir heb wybod beth i wneyd.



Cnithio'n gras ar y glaswydr  
A'm bys, gyd ag ystlys wydr,

wnaeth Goronwy, a dyna hefyd wnaeth ciwrat Llanelwid.

Yr ochr arall i'r ffenestr, yn y tywyllwch, arosai Leisa, a safai Gladys ryw lathen neu ddwy o'r tu ol iddi. Yr oedd y ddwy erbyn hyn yn cael gwaith i beidio tori allan i chwerthin yn uchel; ond safai Twm y Waginer yn fud gan faint ei syndod yn yr oruwchystafell.

Ar ol methu cael atebiad y tro cyntaf, "cnithiodd" Mr. Rowlands ar y gwydr yr ail waith. Y pryd hwn cafodd Leisa nerth i ateb yn isel —

"Hish-sh-sh. Pwy sy' 'na?"

"Pwy y'ch chi'n dishgwl ond y fi?" oedd yr ateb parod.

"Hi! hi! hi!" yn ddistaw oddiwrth Leisa. "Ond pwy y'ch chi?"

Dywed y profiadol na chawd erioed ond un atebiad i'r gofyniad hwn: a dyna hefyd oedd atebiad Mr. Rowlands—

"Ond y fi sy' yma!" ebai'r ciwrat.

"Hi! hi! hi!" chwarddai Leisa. "A beth y'ch chi'n moy'x yma?"

Nis gwn beth fuasai atebiad Mr. Rowlands, oblegid ni chafodd amser i'w lunio. Nis gwn, chwaith, p'un a fuasai Gladys wedi rhoddi pen ar yr ymddiddan drwy ddadguddio'r cyfan i Mr. Rowlands. Dywed Gladys yn awr ei bod wedi gwneyd ei mheddwl i fyny i wneyd hyny; ond, os do, cyn iddi gael amser i wneyd dim o'r fath beth disgynodd llais crâs Twm y Waginer arnynt fel taranfollt oddiar y llofft.

"Nawr, 'nawr! beth sy'n bod 'na?" ebai Twm yn ei ddull mwyaf sarug. "Pwy sy' 'na 'r amser hyn o'r nos yn distyrbo pawb? Howyr bach, fe ddysga i'r ffordd i chi, syr, i gadw reiets amboitu tai dynion ar ol i bawb fyn'd i'w gwel'au!"

Cyn fod Twm wedi haner gorffen ei araeth, a chyn i Leisa a Gladys gael amser i amgyffred beth oedd yn digwydd, cymerodd y ciwrat at ei draed fel y wiwer.

Llamodd, â mawr ffll, ymaith,  
Yn brudd, wedi difudd daith.

Yr oedd y lliidiart gerllaw; ni fu darawiad amrant yn ei chyrhaedd ac yn dringo dros ei phen. Ond fel yr oedd gwaetha'r anlwo, yr oedd hoelen ar y top, a gafaelodd yn dynn yn llofrau'r ciwrat. Arosodd yntau am eiliad gan geisio cael ymwared oddiwrthi drwy dêg, ond nid oedd amser i ymresymu. Yr oedd Twm yn chwythu celanedd ar y llofft gan fygwth saethu y "lleidr." Yng nghanol y ffwdan i gyd, aeth yr ergyd allan o'r dryll a ddaliai Twm yn ei law, a'r eiliad nesaf rhoddodd y ciwrat ysgrech anaearol. Nis oedd yn hwy i ymresymu a'r hoelen, ond ymaith ag ef gan rwygo ei ddillad, ac ni pheidiodd a rhedeg nerth traed nes iddo gyrhaedd y ffordd fawr, pryd y syrthiodd ar y clawdd mewn haner llewyg gan gymaint ei ddychryn a'i ddiffyg gwynt, gan addunedu na wnaith byth ond hyny fyn'd i garu yn y nos.

Ac am Leisa a Gladys, — pan ddaethant i ddeall sut oedd pethau wedi troi allan, mae yn ddrwg genyf gofnodi'r ffaith iddynt chwerthin cymaint fel y bu bron iddynt ddyhuno Mrs. Morris o'i hesmwyth gwsg.

---

## PENOD XVII.

### YSTRYW TWM Y WAGINER.

Yr oedd y si ar léd fod Twm y Waginer a Leisa'r llaethwraig yn caru, a'u bod ar fedr priodi amser Calangauaf. Nid carwriaeth gyffredin oedd carwriaeth y ddau hyn, ac oni bai fod hen ddiareb yn dysgu mai y "rhaf sy'n curo sy'n caru," buasai yn anhawdd credu fod unrhyw wirionedd yn y stori. Ni chlywodd neb erioed mo Leisa yn dweyd gair caredig am Twm, ac nid oedd taw ar achwynion Twm yn erbyn Leisa. Nis gallai'r ddau byth gyfarfod o gylch y bwrdd cinio, neu ar y cae gwair, heb ymosod ar eu gilydd, a phan y buasai un yn gofyn cymwynas ar law y llall — fel y digwyddai'n fynych — mawr y ffwdan a'r helbul! Ambell waith byddai eisieu canwyll ar Twm i'r 'stabal, ac ar amgylchiad o'r fath ni chymerai Twm y byd i gyd yn glwt am ofyn i Mrs. Morris,—oblegid yr oedd ar Twm fwy o ofn ei feistres na neb arall yn y plwyf. Ymdrechai felly, bob amser, i hudo Leisa i wneyd y cais yn ei le, a byddai hyny yn sicr o enyn hyawdledd y "forwyn fawr" yn fflam losgedig.

“Pam na ei di at mystres dy hunan i ofyn am ganwylle?” arferai Leisa ddweyd. “Dyma'r ail waith yr wythnos hyn 'rwy'ti wedi gneyd i fi fyn'd at mystres. A beth yw'n niolch i wedi'r cwbl? Neithwr ddwetha fe ballest fyn'd i mo'yn siwrne o ddwr i fi o'r ffynon pan ofynes i ti, ond 'rwy'n ddigon da i ofyn i mystres am ganwylle drosto ti! Cymer di bwyll, 'y ngwas i. 'Rwy'n myn'd i dalu'r hen whech yn ol i ti! Ag os na elli di 'neyd dim ar 'y 'nghais i, cer at mystres dy hunan.”

Dioddefai Twm y gawod eiriau yn dawel, mewn llwyr ddiogel obaith y caffai'r ganwyllyn cyn nos.

Bryd arall byddai gan Leisa yn ei thro gais i wneyd — i dori coed ffwrn, neu i wneyd rhyw orchwyl o'r fath fyddai'n rhy drwm iddi hi. Ymaith yr elai Leisa i'r stabal fel bollt o fwa.

“Holo!” llefai Twm, “be' sy' arnat ti 'nawr, yn eno dyn? Garw mor wyllt yr wyt ti'n dryched! Welsot ti ryw rywun salwach na ti dy hunan, ne beth?”

“'Nawr, paid a spengan, Twm bach,” atebai Leisa. “Eishe i ti dori côd ffwrn sy' arna i.”

“O, ie fe'n wir?” dywedai Twm yn wawdlyd. “O's rhwbeth arall y licet ti i fi 'neyd? 'Dos gen i, ti'n gwel'd, ddim byd arall i 'neyd ond weitan arnat ti! Wedi ca'l 'y nghyflogi w i i fod yn was bach i'r morwnon!”

“Dere 'nawr, Twm bach,” atebai Leisa, “'rwy'n wastod yn gweyd mai hen fachgen piwr wyt ti. Fyddi di ddim wincad yn tori coeled o go'd! Ag ofyna i ddim i ti yto am amser!”

A nemawr byth y terfynai'r ymddiddan heb i Twm fyned i'r gledwair i wneyd arch y llaethwraig.

Wedi'r “pererindod” i goed y parc, ni chafodd Leisa fywyd rhy esmwyth yng ngegin y Gelli. Cyfeiriai Twm yn ei siarad at ecsiaid a phersoniaid a phrydyddion, ond ni chymerai Leisa arni ei bod yn deall un o'r awgrymiadau. Twm oedd y cyntaf i ddwyn copi o gân Gwilym Coediog i'r Gelli; ac, ar adegau, ymhyfyrdai i adrodd rhai o'r penillion mwyaf gwatwarus o noni ar goedd y gegin. Yr oedd Twm wedi cael defnyddiau newydd ereill i wneyd spri am ben Leisa wedi dyfodiad Gladys i'r Gelli. Cyn hyny nid oedd Leisa, mae'n debyg, yn meddwl llawer mwy nag adar y nef-oedd a pha beth yr ymddilladai; ond wedi adnabod Gladys, ei huchelgais mawr oedd ei hefelychu ym mhob dim. Un dydd Sul ymddangosodd yn y gegin ar amser cinio mewn *blouse* a *skirt* newydd, er mawr ddifyrwrch i Twm a'r gweision ereill.

"Helo," ebai Twm wrth y cowman, pan oeddynt o gylch y ford ginio, a chan esgus fod heb adnabod Leisa, "pwy yw'r ledi ddiert h yma?"

"O," atebai hwnw, "ledi o Lynden dda'th lawr gyda Miss Bowen yw hi."

"Dier mi!" meddai Twm. "Mae hi'n dryched yn stansh anghyffredin. Stopwch chi, serch hyny, 'rwy'n credu'n mod i'n 'nabod 'i gwyneb hi!"

"'Rwy'n meddwl 'i bod hi'n arfer gwerthu loshyn du yn ffair foch Llangoediog, 'slawer dydd," meddai'r cowman.

Yr oedd yn amlwg fod Leisa yn dechreu anesmwytho dan y driniaeth, ond ni ddywedodd air o'i genau, ac ymdrechodd ymddwyn fel pe heb glywêd dim o'r ymddiddan.

"A welwch chi fel mae hi wedi gwisgo?" ebai Twm. "Un gostus yw hi i chadw, fe wna'n llw. Mae'r rhawn 'na sy' ar 'i phen hi wedi costi haner coron neu ragor."

Nis gallai Leisa aros yn llonydd yn hwy.

"Rhawn yn wir!" meddai. "Llawer wyt ti'n wybod —"

"Pwy fyse'n meddwl," torai Twm i mewn i ddweyd, "fod y ledi yn gallu siarad Cwmbrag? Falle taw cadw wâc llaeth mae ni yn Llynden — ond tawn i fel y hi, chymrwn i ddim llawer am wisgo gwallt rhyw un arall ar 'y mhen."

"Wel," brathai Leisa, "fe fyse arna i fwy o g'wilydd, tawn i fel ti, i wisgo croen bystach arall ar y nhra'd."

Nid oedd braidd ddiwrnod yn pasio heb fod ysgarmes boeth yn cael ei hymladd rhwng y ddau; ond eto i gyd gwyddai'r gwasanaeth-ddynion yn dda mai peth peryglus fyddai i un o honynt hwy ymyryd rhyngddynt.

Dranoeth i'r helynt adroddwyd yn y benod ddiweddaf yr oedd Gladys ychydig yn hwyrach nag arferol yn codi, ac erbyn ei bod yn barod i ddisgyn lawr y grisiau, yr oedd wedi saith o'r gloch. Yr oedd Leisa, bid siwr, wedi hen godi. Y swm cyntaf glywai Gladys yn y boreu, fel rheol, oedd swm y llestri godro, a llais Leisa'n gwaeddi, "tro, fuwch," neu "wo na ti," nes oedd yr holl glôs yn dispedain. Gyua 'whip y dydd, arferai Leisa a'r merched ddechreu ar eu gwaith, a chyn brechwast yr oeddynt wedi gorffen godro a thrin y blith, ac ynghanol yr haf byddai'r menynt hefyd wedi ei gweirio a'r caws wedi ei wneyd. Leisa oedd y cyntaf o'r merched i'r ty, oblegid disgwylid iddi hi helpi Gladys i gael brechwast yn barod erbyn haner awr wedi saith. Ond y boreu wedi'r helynt, er ei bod yn ddiweddarach nag arfer yn codi, ni chafodd Gladys olwg

ar Leisa yn ngegin y Gelli. Synai a rhyfeddai Gladys, ac ym mhen ysbaid aeth i weled beth oedd yn bod. Nid oedd sôn am y llaethwraig yn y llaethdy, na'r briwdy, na'r gegin maes, na'r gledwair. Wrth ddychwelyd o'r gledwair, trwy fwlech y clôs, cofiodd Gladys gyda gwên o ddifyrwech am ddigwyddiadau y noson cynt, a thaffodd gipolwg ar y lliart ar yr hon yr eisteddai'r ciwrat, druan, pan saethodd Twm ei ergyd allan o'r dryll. Oerodd ei gwaed yn ei gwythienau pan ganfyddodd gochni ar y glwyd. Rhedodd ias o ddychryn ac arswyd drwyddi pan ganfu mai gwaed oedd wedi ei rhuddo. Rhedodd yn ei gwylltineb i'r beudy, ac yno cafodd Leisa ar ganol godro un o'r gwartheg, ac yn wyllo'r-dwr yn hidl, tra y safai Twm y Waginer gerllaw.

"Beth sy'n bod, Leisa?" meddai Gladys, gan obeithio nad oedd dim gwaeth na'r anghydwel'd arferol rhyngddynt.

Tasgodd Twm naill ochr ychydig pan glywodd lais Gladys mor ddisymwth, ond llofodd Leisa allan —

"O, Miss Bowen fach! beth 'newn ni? O, na fyswn i wedi marw cyn gwel'd y fath beth?"

"Beth'n enw'r anwyl sy'n bod 'nawr?" gofynai Gladys.

"O! Miss Bowen fach!" meddai Leisa yn gyffrous, "mae Rowlands y ciwrat wedi ca'l i ladd!"

"Wedi ca'l i ladd!" ebai Gladys. "'Dos dim posibil—beth y'ch chi'n geisio weyd, lodes ddwl?"

"Mae e'n eitha gwir, Miss fach!" gwaeddai Leisa. "Wb, wb, murder, fe ga's i saethu gan Twm 'ma neithwr."

"Tom! ody hyn ddim yn wir?" gofynai Gladys, gan droi at Twm, a'i gwyneb mor welw ag angeu a'i llais yn dechreu crynu.

Petrusodd Twm am foment cyn ateb.

"Alla' i ddim gweyd," meddai yn bwyllog, "p'un a yw e wedi marw yto ai peidio, ond mae gwa'd ar hyd yr holl-le 'ma. Mae'n un plastar ar y gat, ac mi ellwch ddilyn i nol e bob cam 'rodd e'n gymeryd ar yr hewl."

"O, Tom, Tom!" llofai Gladys, "cerwch yn y fyned i wel'd os gwelwch chi e ar ochor yr hewl yn rhywle. Falle mai dim ond niwed ga's e."

"Na," ebai Twm yn benderfynol, "'wy'n credu mod i wedi rhoi 'dead ho' iddo fe'r tro hyn."

"O, peidwch a gweyd hyna, Tom!" meddai Gladys. "Cerwch yn glou da machgen i. 'twy'n ca'l 'y nhalu am fod mor ddwl  
—"

"O, Miss Bowen!" llefai Leisa, "a fe fyddan' yn siwr o grogi Twm!"

"O, na! cha' i ddim 'y nghrogi, gwlei," ebai Twm yn ddidaro. "Fe weda i taw dwad yma i mo'yn degwm o'dd e."

"Tom, Tom!" meddai Gladys yn wyllt, "peidwch a sefyllan rhagor, ond cerwch, da machgen i, mor gynted ag y gallwch, a dewch 'nol a gw'bod i ni shwd mae e."

"A chofia di, Twm," meddai Leisa, gan wylo ei chalon hi, "nag ei di ddim yn agos at y polis, ne' mae'n nhw'n siwr o gydio yndo ti."

"O'n gore," ebai Twm. "Os ca' i afel yn i gorff e, fe towla fe i Dowi, ag all neb weyd wed'yn ffordd cwrddws e a'i ange."

"Ymswynwch na 'neych chi'r fath beth, Tom," meddai Gladys yn frawychus. "Os — os — cewch chi afel yn i g — g — gorff e, rhaid i chi fyn'd yn streit at y polis i weyd yr hanes i gyd fel y digwyddodd hi.—O dier! dier! i fi ariôd fod mor ffol a chellwer a phethe fel hyn!"

"A falle daw'r polis i'n mo'yn nine, a mynd a ni i'r jail," llefai Leisa, "bw-hw-hw!"

"O na, chei di ddim myn'd, dere di," dywedai Twm, "ochos fe gymera i'n llw taw fi gnath e, a cheith neb arall ddiode yn 'yn lle i."

"Ond arna i 'rodd y bai i fod e yma o gwbl," ebai Leisa. "Wydde Miss Bowen ddim am dano fe — bw-hw-hw! Ag 'rodd dim bysnes gyda tithe gwrdd a'r hen ddryll, — bw-hw!"

"Paid di a becs!" meddai Twm, "dim ond ciwrat o'dd e, a mae'n nhw mor amal a hadau graban, a neith neb lawer o ffys ar ei ol e."

"Peidwch a rofyn rhagor, Tom," ebai Gladys, "falle tra'n bod ni 'n siarad fel hyn i fod e'n gwaedu i farwolaeth! Cerwch, Tom, ar unwaith."

Ac allan o'r beudy yr oeth Twm. Cyn pen haner mynyd ar ol iddo gychwyn, cofiodd Gladys nad oedd wedi dweyd wrtho am fyn'd i ymofyn meddyg, os byddai eisieu, a rhedodd allan o'r beudy ar ei ol. Er ei syndod gwelodd Twm yn dal ei ochrau rhag tori allan i chwerthin yn uchel. Canfu hefyd gwt ceiliog yn gwasgu allan o boced ei got. Drwgdybiodd yn y fan fod Twm wedi bod yn eu camarwain. Cofiodd fod Mrs. Morris wedi gofyn i Twm y noswaith o'r blaen i ladd fflowlyn y peth cyntaf yn y boreu, a fflachiodd yr argyhoeddiad yn union i'w mheddwl mai wedi lladd y ceiliog yr oedd Twm, ac mai gwaed y ceiliog a wel'sai

hithau ar glwyd y clos. Nis gwyddai Gladys p'un ai chwerthin ai colli ei thymher a wnelai; ond cyn y gallai benderfynu p'un, dyma hi'n tori allan i wylo'n chwerwdost. Pan glywodd Twm swm wylofain, troiodd, oblegid yr oedd ei gefn at Gladys hyd yn hyn. Wrth weled Gladys — oedd bob amser mor llon a siriol — â'r dagrau mawrion yn llifo dros ei gruddiau, dwysbigwyd calon Twm, a llefodd mewn llais cyffrous—

“Yn 'y ngwir i, Miss Bowen fach, 'down i ddim yn meddwl hala ofan arnoch chi, ta chi ddim wedi dwad miwn i'r boudy, chi'n gwel'd. Mae'r ciwrat yn sâff i wala — gwa'd 'rhen geiliog sy' ar y gât—peidwch a llefen—a fe fyswn i ddim wedi gweyd y jôc wrth Leisa, na chyffra'i, ond nag own i ddim wedi meddwl y delech chi i'r boudy.”

“Jôc yn wir!” meddai Leisa — yr oedd hithau wedi dod allan erbyn hyn ac wedi clywed esboniad Twm — “nid jôc yw lladd dyn, ac os wyt ti'n gallu cellwer wrth siarad am dano fe heddi, fe fyddi di'n gallu cellwer wrth i 'neyd e fory. — Mae hyn yn myn'd tuhwnt i jôc, ag ody — yn hala Miss Bowen i leisio fel hyn. — Cer ona ti'r filen câs, a cher yn go handi hefyd!”

Erbyn hyn yr oedd difrifoldeb wedi cymeryd lle digrifwch ar wyneb Twm. Trodd ymaith yn araf a phendwrwm, gan gyfeirio ei gamrau at y stabal, — ei ddinas noddfa ym mhob storm. Yr oedd golwg dyn yn myn'd i gael ei grogi arno, a theimlai mai efe oedd y dyn dwla' yn y plwyf. Ac, yn wir, feallai nad oedd ymhell o'i le.

“Leisa!” clywid llais Mrs. Morris yn galw o'r ty, “ble 'rych chi c'yd yna? Dyma hi'n ugen myned rhynti ag wyth, a dim llestr ar y ford!”

Sychodd Gladys a Leisa eu dagrau, a brysiasant i'r ty. Ac yn swm y llestri brecwast anghofiodd y ddwy yr helbul a'r dychryn fu yn eu blino yn y beudy haner awr yn gynt.

---

## PENOD XVIII.

### FFAIR CALAN MAI.

Anaml y byddai Dafi a Mari Jones, Dolau Gwynion, yn myned gyda'u gilydd i ffair neu farchnad. Elai Mari Jones i farchnad Llangoediog i werthu'r gieir a'r wyau, y caws a'r menyn, bob dydd Sadwrn, ond ambell waith yr elai Dafydd gyda hi. Gar-

tref oedd lle Dafydd ar ddydd Sadwrn, a bysnes y wraig oedd gwerthu'r wyau a'r menyng. Ni fyddai Mari Jones, chwaith, byth yn rhoddi cyfrif i'r gwr am yr arian a dderbynai yn y farchnad. Byddai Dafydd yn gofyn ar dde, ar ol i'r wraig ddod adref,—

“Shwd brisie o'dd yn y farchnad heddi?”

“Mae'r prisie wedi myn'd rhogddynt,” dywedai Mari, “dim ond deg a dime gês i am y menyng, ond fe glywes fod gwraig Brynwgan wedi ca'l un geiniog ar ddeg, — ag am y wye, 'dyn' nhw ddim yn werth y drafferth o'u cario nhw! 'Roen nhw'n myn'd heddi am unarddeg am whech.”

Ni fyddai Dafydd byth yn gofyn sawl pwys o fenyn na sawl wy oedd Mari wedi werthu; ac ni wyddai, chwaith, faint o arian oedd ganddi yng nghadw yn y ddech fach. Ychydig ddiwrnodau cyn dydd y rhent byddai Dafydd yn cyfrif faint o arian oedd ganddo i gyfarfod a'r gofynion. Bob amser yr oedd yn brin; bob amser yr oedd ganddo lai nag a ddisgwylai. Yna elai at Mari a'i gwyn, ac ni fu hi erioed heb ddigon wrth law i helpi Dafydd i wneyd y rhent i fyny.

Ni chedwid “llyfr cownt” yn y Dolau. Gosodai Dafydd lawr ar y dyddiadur enwadol bob casgen a thwba o fenyn oedd heb dalu am dano “yn ei ben,” ac mewn llyfr arall cedwid cyfrif am yr arian a ragdelid i'r gwasanaeth-ddynion o'u cyflogau. Ond, fel rheol, celai Dafydd “arian pen” am bob peth a werthent, ac felly ni thylbiai fod eisieu “cadw cownt.”

Yn wir, ffynai cryn ragfarn yn Llanellwidi yn erbyn “cadw cownt.” Cydnabyddid fod eisieu i ôf, neu deiliwr, neu saer “gadw cownt,” gan na thelid hwy ond unwaith yn y flwyddyn — yn amser Calan-Gauaf. Ond am ffarmwr — pwy eisieu iddo ef “gadw cownt” oedd?

“Cadw cownt, yn wir!” meddai Nat wrth Dafydd unwaith yn yr efail. “Mae'r ysgolion 'ma wedi rhibo'r wlad! Mae pobol wedi myn'd i gredu nag o's eisie iddi 'nhw 'neyd dim ond “cadw cownt!” Mae pob prentis plwydd a phob crotten fagu yn cadw cownt 'nawr! A ta'r gwr b'neddig hyny yn dwad 'nol a gofyn, “Beth a wnaf fel y byddaf cadwedig,” fe fyse Morgans y Siop yn siwr o weyd wrtho fe am ddechre cadw cownt! Cadw cownt!— pwy eisieu cadw cownt sy'? Cadw arian yw'r gamp! 'Rwy'n cofio i'r hen Lwyd, tad Mrs. Bassett y Plas, i dreio ca'l cownt oddiwrth yr hen Dwmi Dew — 'rych chi'n cofio Twmi yn arddwr yn y Plas?”



"Odw, odw," ebai Dafï, "'rwy i'n ei gofio fe'n byw yn y Lodge."

"Dyna fe!" meddai Nat. "'Rodd 'rhen Dwmi, chi'n gwel'd, yn ardderchog yn yr ardd, ag 'rodd e'n gneyd arian fel y gro o'r fale a grapes a phethe erill o'r ardd. Ond, 'dodd e ddim scoler; ac am gadw cownt — fe fyse yr un peth i chi ofyn iddo hedfan ag i 'neyd y fath beth. 'Rodd e'n talu ugeine os nad cano'dd o bune o gyfloge bob blwyddyn, wa'th yn amser yr hen Lwyd yr oedd digon o waith i ga'l yn y Plas, nid fel sy' 'nawr gyda'r porcyn o Sais 'na. 'Dodd 'rhen Dwmi byth yn gofyn i Llwyd am arian i dalu'r dynon o'dd yn helpi yn yr ardd. 'Rodd gydag e hen hosan yn y Lodge, ag yn hono 'rodd e'n doddi pob ceinog gese fe drwy werthu'r ffrwythe. Ag ar ddiwedd y mis, pan fydde eisieu talu'r gweithwyr, 'rodd e'n arfer myn'd i mo'yn yr hen hosan, a thalu pawb o honi hi. Ag amser C'langeua, ar ol talu'r cwbul, fe fydde'n myn'd a'r hen hosan gydag e i'r Plas ac yn i harllwys hi ar y ford o fla'n yr hen *squire*."

"Ie'n wir," meddai Dafï, "'rodd 'r hen bobol yn i diall hi yn well na ni."

"Wel, fe larodd 'rhen Lwyd ar hyn," ebai Nat; "'rodd eisie cownt arno fe am bob peth. "Fi dim dowto bod ti'n gonest," mynte fe wrth Twmi, "ond fi bownd ca'l cownt." "Wel, syr," mynte Twmi'n ol, "os y'ch chi'n bownd rhaid i chi fynid rhywun arall, wa'th 'dos gen i ddim crap ar y seiffro 'na." A fel'ny bu. Fe ga's Twmi goron yr wythnos i fyw arno, heb 'neyd dim ond agor gât y Lodge: a fe fynodd 'rhen Lwyd ryw Sais o shir Bembro i ddryched ar ol yr ardd. 'Rodd e wedi ca'l ysgol a phobpeth, ac yn diall i fysnes i'r blewyn, a dyma fe'n rhoddi'r cownt i'r hen Lwyd ar ddiwedd y flwyddyn. 'Rodd y *debts* a'r *credits* yno'n blaen 'u gwala, ond miwn tipyn o amser dyma'r hen wr b'neddig yn gofyn, "*And what is for Morgan Llwyd?*" "O," mynte'r scoler mowr, "*nothing for Morgan Llwyd.*" "Go dra-bitsi!" mynte'r hen Lwyd gyda'r llw mowr, "cer i dd——l a dy *credits* a'th *debts*! — fi mynid hen hoson Twmi'n ol yto." A 'nol da'th 'rhen Dwmi, ag yn yr ardd yr halodd ei getyn."

Diau fod cynllun Twmi yn taro pobl fel Mari Jones yn burion, oherwydd nid oedd hi byth yn gwario chwech yn ofer. Ond iel arall yr oedd hi gyda Dafï. Os celai bris gweddol am y bus-techi yn Ffair Awst, neu os gwerthai'r ebolion am bris lled dda yn Ffair John Brown, byddai yn ffri iawn a'i arian am wythnosau ar ol hyny. Ni fyddai Mari yn ymyryd a bysnes Dafï yn y ffeir-

iau, ao anfynych iawn yr elai gydag ef i un ffair ond "ffair gyflogi." Aml i dro y bu Mari Jones yn gofidio ac yn ofni wrth ddisgwyl Dafi yn ol yn y prydawn, ond eto yr oedd yr hen arferiad o aros gartref ar ddydd ffair yn drech na'i phryder ynghylch y gwr, ac aeth Dafi i Ffair Calan-Mai Llangoediog, 1895, wrth ei hun fel cynt.

"Cofiwch ddwad 'nol yn gynar, Dafi," oedd siars olaf Mari wrth ei gwr pan yn cychwyn tua'r ffair yn y boreu; "a pheidwch anghofio taw dy' Sul cymundeb yw hi fory."

"O'n goreu, Mari fach," meddai Dafi yn serchus, "fe fydda i 'n ol erbyn tê."

"Wel, fe fydda i 'n eich disgwyl chi 'nol i dê erbyn pedwar 'nte," meddai Mari.

"Ie, lycoch chi, Mari fach," atebai Dafi wrth fyned ar ei geffyl, "fe fydda 'nol i dê mor wired a bod dwr yn Nhowi!"

Saif y Dolau gerllaw'r ffordd fawr, ac yn y prydawn gwelai Mari bobl y plwyf yn dychwelyd adref o'r ffair. Y cyntaf, fel arfer, oedd Tomos Lewis, Coed Weddus, tua thri o'r gloch; yna Henry Morgan, Plas Newydd, ychydig cyn pedwar, pan oedd y llestri tê yn barod ar y bwrdd i ddisgwyl Dafi gartref; yna Griffith y Coed; ac yna Twm, gwas y Gelli. A dyma'r cloc yn taro pump, a chwech, a saith, — a dim son am Dafi. Tua haner awr wedi saith clywodd Mari swn troed y gaseg ar y clôs, a danfonodd un o'r gweision allan i gyfarfod a'i feistr, ac i ddal pen y gaseg. Ofnai weled Dafi, oblegid ni wyddai ym mha gyflwr yr oedd, er na chymerai y byd yn grwn am ddangos ei phryder i'r gwasan-aeth-ddynion.

Ym mhen tipyn daeth Dafydd ei hunan i mewn, a gwrid coch ar ei ruddiau, a disglærdeb annaturiol yn ei lygaid.

"Wel, Mari fach," meddai mewn tôn llawer uwch nag arferol, "dyma fi wedi dwad o'r diwedd. Fe gredes na ddeswn i byth. Mae'r hen gaseg mor gloff a Jacob."

Edrychodd Mari yn ddifrifol ar ei gwr, a dywedodd—

"Wel, mi fues i jist rhoi heibo'ch disgw'l chi. Odych chi wedi ca'l tê?"

"Tê? tê?" ebai Dafi — 'roedd e'n gallu siarad hyd yn oed a Mari ar ol iddo "gael llymaid," — "nagw i, a wa'th 'da fi tawn i heb wel'd eich hen lwtsh chi byth yto! Tê, tê yw hi yma byth a hefyd, ac felly y bydd hi'n wastadol, o'r pryd hwn hyd yn oes oesoedd. Amen."

'Nawr, os oedd dim yn gâs gan Mari Jones, clywed rhywun yn trin pethau crefyddol yn rhyfygus oedd hwnw. Yr oedd y gair "amen" yn air sanctaidd iddi hi. Ni wyddai yn iawn beth oedd ei ystyr, ond yr oedd wedi arfer ei gysylltu a'r cwrdd gweddu, a'r gyfeillach, a'r cwrdd pregethu, ac felly yr oedd wedi dyfod yn air cysegredig yn ei mheddwl.

"Dafi, Dafi, peidiwch a rhyfygu fel 'na," meddai. "Dewch lawr i'r nouadd 'nawr, ag fe 'na i gwpaned o de neis i chi. Mi 'neiff les i chi ar ol bod heb fwyd drwy'r dydd."

Ac i lawr i'r neuadd yr aeth Mari, a Dafi yn ei chanlyn hi.

Gyda ei bod wedi cau y drws, dyma Mari yn eistedd lawr ar un o'r cadeiriau, ac yn tori allan i wylo fel plentyn, a'i ffedog yn gwllwm yn ei llaw yn sychu ei llychaid.

"Beth sy'n bod, Mari fach?" gofynai Dafi gan esgus bod yn ddigyffro.

"Yn bod?" ebai Mari, "shwd gallwch chi ofyn i fi? 'Dos dim yn bod arna' i; arnoch chi mae rhywbeth yn bod!"

"Arna i?" meddai Dafi yn uchel. "Beth sy'n bod arna' i?"

"O, Dafi, Dafi," wylai Mari, "o's dim c'wilydd arnoch chi'n dwad gatre yn y drych hyn?"

"Yn y drych hyn?" llefai Dafi. "'Rwy' i yn ôl reit. 'Dall neb weyd fod dim maes o le arna' i."

"Beth ta Arthur gatre," aeth Mari ymlaen, "a gwel'd ei dad yn y ffordd y'ch chi heno? Mi fyse c'wilydd arno fe'ch arddel chi."

"C'wilydd arno fe?" ebai Dafi. "Mi roiswn i g'wilydd iddo fê! C'wilydd arno fe i arddel ei dad ie fe? 'Rwy' i wedi gweith-o'n galed i enill bwyd a dillad ag ysgol iddo fe, a fe sy'n myn'd, os gwelwch chi'n dda, i'n niarddel i 'nawr!"

"O, Dafi," meddai Mari, "peidiwch a siarad yn wyllt fel 'na. Shwd galle Arthur eich arddel chi pan mae e'n gwbod y dylsech chi gymuno yn Salem bore fory, ag i chi fod ar eich glinie yn y cwrdd parotoad neithwr—a'ch gwel'd chi fel yr y'ch chi heno."

"'Dos arna i ddim cwilydd i neb 'y ngwel'd i 'nawr," llefai Dafi. "Ches i ddim ond cwpwl o laseide o ddiod gyda Nat yn y Red Lion wrth ddwad gatre, ag all neb weyd nag w i mor sobor a'r judge."

"O! 'r anw'l fach!" a thorodd Mari allan i wylo drachefn, "a dyna chi wedi bod yn y pentre, ag wedi paso heibo ty Mr. Thomas y gweinidog, ag os gwelodd e chi, mae e'n siwr o'ch tori chi ma's."

“Y nhorî i ma’s?” gofynai Dafi. “Mi gewn wel’d pwy geiff y gweitha’, ’te, os taw fel ’na mae hi i fod. Mi gollith e lawer i ’whech a llawer i swllt os torith e fi ma’s, a gneiff.”

“Odych chi’n meddwl, Dafi bach,” atebai Mari, yn dawelach dipyn, “mai meddwl am eich cwpwl tocyns chi mae Mr. Thomas? Na, na, os ody e wedi ’ch gwel’d ’dall e ddim a help. Mi fydd yn rhaid iddo fe ddwad a’ch achos chi o fi’an yr eglwys yto, a fe wyddoch shwd y bydd hi’r tro hyn.”

“O! tored nhw fi ma’s,” dywedai Dafi, “os lican’ nhw. Ofyna i byth am ’yn lle ar ol ’ny. Mi af fi at y Baptis neu’r Methodus cyn af fi i fegian pardwn Dai’r Sâr a Shoni Corn-yr-hwrdd.”

“Njd gofyn eu pardwn nhw ddylech chi Dafi,” meddai Mari yn ddifrifol, “ond pardwn Iesu Grist. Ag os cewch chi’ch tori ma’s o Salem, chymerith dim o’r enwadau erill chi.”

“Os na ’na nhw,” atebai Dafi, “mi af fi i’r Eglwys, a mi fydda’ nhw’n falch ’y ngweld i yno, a fe neiff y ffeirad fi’n churchwarden ag wn i beth i gyd.”

“Peidiwch a chellwer a phethe fel ’na,” meddai Mari. “Nid p’un a gewch chi fyn’d i’r Eglwys yw’r peth, ond p’un a gewch chi faddeuant gan Iesu Grist. O, Dafi bach, peidiwch a chaled-i’ch calon fel ’na.”

“Wel, pwy eishe sy’ arnyn’ nhw fyn’d i nhorî i ma’s, ’te—” ebai Dafi, “mae llawer o’n ngwa’th i yn Salem; a dyna’r hen Griffith y Coed a Morgans y Siop — ble ceir gwa’th cybyddion na nhw yn y byd, mi licwn w’bod? A mae’r Beibl yn siarad mor gryf yn erbyn cybyddion ag yw e yn erbyn meddwon. A ’dwy i ddim yn feddwyn, ta beth.”

“Gwella’n hunen, Dafi bach, ddylen ni ’neyd,” dywedai Mari yn bwylllog, “ag nid pigo beie yn erill. A mae Mr. Thomas wedi ca’l gofal yr eglws, a mae’n rhaid iddo fe dynu ma’s bob ’whyn sy’ yco.”

“’Whyn, ie fe?” meddai Dafi, yn fawreddog iawn. “Lycloch chi, Mari, os toran’ nhw fi ma’s, mi doran’ ben y blodeuyn perta sy’n tyfu yng ngardd yr Arglwydd!”

“Dafi bach, peidiwch a chellwer fel ’na,” dywedai Mari. Ond yr oedd cysgod gwen ar ei gwefus hi hefyd, wrth arllwys y dwr o’r tegil i’r tebot.

Dyna fel yr oedd hi’n wastad yn terfynu. Os byddai Dafi wedi cael dyferyn i yfed, yr oedd ei dafod mor rhugl fel nas gallai Mari byth beidio maddeu iddo, ie, cyn iddo ofyn am bardwn. Boreu dranoeth yr oedd Dafi bob amser yn ceisio maddeuant;

ond cyn fod teulu Dolau Gwynion wedi myn'd i'r gwely y nos Sadwrn hon, yr oedd Mari wedi maddeu i Dafi yn ei chalon, ac yn gofyn yn daer ar ei deulin wrth erchwyn y gwely cyn myn'd i gysgu am i Dduw hefyd i faddeu iddo.

A phwy a wyr na faddeuwyd iddo, feallai hyd yn oed y nos hono? Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn.

---

## PENOD XIX.

### CWRDD GWEDDI COED WEDDUS.

Ni welwyd Dafi Jones yn Salem y Sul canlynol. Bu llawer yn gofyn i Mari ble'r oedd y gwr, ac atebai hithau bawb yn yr un llais undonog, "O, 'dyw Dafi ddim agos da heddi." Er llymed ei cherydd, ac er cymaint ei hatgasrwydd at bechod parod Dafi druan, ni chlywodd neb erioed Mari Jones yn dweyd gair yn erbyn ei phriod. Nis gall gwr amherffaith gael rhagorach eiriolwr ar ei ran na chariad gwraig rinweddol. Ffieiddiai Mari y trosedd, ond yr oedd yn dyner iawn, ar ei gwaethaf, wrth y troseddwr. Lluniai esgusodion drosto yn ei chalon. Nid ar Dafi oedd y bai, meddai, ond ar y cymdeithion a'i harweiniai i brofedigaeth. Sibrydai wrth ei chydwybod mai ei natur dda, ei dymher rwydd, oedd ei fagl; nid oedd Dafydd yn hoffi pallu dim i neb. Beth os mai segura a wnelai ar hyd y dydd yn lle gweithio? Ie, ond nid oedd neb ond hi yn gwybod ei fod yn dioddef oddiwrth ddolur y galon, ac nas gallai weithio ond ar berygl o golli ei fywyd. Beth os oedd yn yfed gormod ambell i ffair neu farchnad? Ie, ond nis gallai Dafi, druan, ddâl cymaint a dynion yn gyffredin, ac yr oedd y dyferyn lleiaf yn effeithio arno. Fel yna y byddai Mari yn gwneyd esgusodion iddi ei hun dros Dafi, ac yr oedd yn eiddigeddus iawn o'i gymeriad yn y capel. Os mai celu'r gwir yw ystyr celwydd, bu Mari yn euog o'r pechod hwn lawer gwaith. Gwyddai pawb o bobl Salem, serch hyny, am ffaeleddau Dafi, ond tosturient wrth gyflwr Mari Jones, ac nis gallodd hyd yn oed Tomos Lewis, Coed Weddus, ei cheryddu am geisio cuddio beiau'r gwr rhag y werin.

Nos Fawrth wedi Ffair Galan-mai yr oedd cwrdd gweddi teithiol i gael ei gynnal yn nhy Tomos a Phegi Lewis. Dywedir fod y cyrddau gweddi teithiol yn darfod o'r tir, ac na welir mo honynt,

erbyn hyn, ond mewn ychydig ardaloedd yng Nghymru. Nid yw Cymru'n gwybod beth y mae yn golli. Mae rhywbeth swyddogol mewn cwrdd gweddi mewn capel neu festri; ond y mae cwrdd gweddi mewn tyddyn neu ffermdy fel crefydd Cymru ei hun — yn syml, yn ddiaddurn, yn brydferth, yn bersonol. Gwn am lawer Cymro sydd erbyn heddyw ymhell o'i wlad, ac heb gyfle i fwynhau'r rhagorfreintiau a gaffai yng Nghymru. Pan eheda ei feddwl at sefydliadau ac arferion yr hen wlad, nid am y cyfarfod pregethu na'r ysgol gân, nid am yr eisteddfod na'r Ysgol Sul yr ymdoroha ei hiraeth, ond am y cwrdd gweddi gynhelid "nos waith" dan gronglwyd ei dad. A mynych, pan eistedda wrth y tân ar noson dawel yn y gauaf, wedi i ofalon byd ddis-tewi am y dydd, a phan na fydd neb gerllaw i dori ar draws ei gymundeb a'i gydwybod, ei lygaid a welant olygfa brydferth a gogoneddus,—dwsin neu ddau o wladwyr mewn tyddyn gwael ei lun yn darllen Gair Duw wrth oleuni canwyll wêr, ac yn canu hen emynau Pantycelyn—a'u llygaid wedi eu cau ar y byd hwn er mwyn canfod yn eglurach bethau ysbrydol—gyda'r fath hwylfel y mae'n rhaid dyblu a threblu'r gân.

Am ddiwrnodau cyn y cwrdd gweddi bu Pegi a Tomos yn ddiwyd yn doddi'r ty a'r clôs a'r ardd yn gryno. Anfynych y galwai neb yng Nghoed Weddus ar neges, ond elai'r cymydogion i gyd yno ddwywaith bob blwyddyn — pan y cynhelid cwrdd gweddi yno. "Mae'r cwrdd gweddi heno yng Nghoed Weddus," byddai'r gwr yn dweyd wrth y wraig, "a mae'n rhaid i ni fyn'd yno. Mae Tomos Lewis yn ffyddlon iawn pan fydd y cwrdd yma." Ac nid oes dim a gyfrifir yn fwy o warth yn Llanelwid na chael cwrdd gweddi "gwan"—oblegid amlyga hyny yn eglur fod gwr a gwraig y ty wedi esgeuluso eu cydgynulliad yn yr haner blwyddyn cynt.

Yr oedd oegin Coed Weddus wedi ei threfnu yn daclus nos Fawrth oriau cyn amser y cwrdd. Yr oedd tân pelau mawr yn goleuo'r ystafell, er mai mis Mai oedd hi. Ar y bwrdd pinwydd, rhwng dau ganwyllarn pres gorffwysai Beibl Peter Williams, & chlaspau pres mawr, ac arno gorwedda'i y llyfr hymnau. Nid oedd y ddwy ganwyll wêr wedi eu goleuo, ac yr oedd canwyllarn a chanwyll yn barod i'w chyneu ar y dreser, ac un arall ar y ford fach tu ol i'r drws. Eisteddai Tomos Lewis ar stôl deirtroed ar yr aelwyd, yn darllen y llyfr hymnau wrth oleu'r tân, tra y cerddai Pegi yma a thraw gan edrych yn bryderus 'nawr ac eilwaith ar y cloc wyth-niwrnod a safai wrth y cornel gerllaw'r seld.

Am saith o'r gloch y cyhoeddwyd y cwrdd i ddechreu, ond tua chwarter i saith clywai Pegi rywun wrth y drws. Brysiodd i'r penllawr gan ddweyd—

"Dyma Mrs. Morris y Gelli, mi wn. Hi sy'n wastod yn gynta'."

"Mi ddeson dipyn yn gynar, Pegi Lewis," meddai Mrs. Morris, "mae'r nosweithe mor dywyll a'r ceie mor 'lyb, a fe benderfynodd Gladys a fine starto dipyn yn gynt, a dwad rownd i'r hewl. Ond mae arna i ofan ein bod ni ar eich ffordd chi."

"Nag 'ych, nag 'ych, dir safio ni," atebai Pegi, "dewch ymla'n at y tân. Mae dipyn yn oflyd ar i bod hi'n Gla'me, a ma'r glaw mân yma'n glychu dyn i'r cro'n."

"Ie, dewch ymla'n man hyn," anogai Tomos Lewis, gan ddodi'r gadair freichiau yn gyfleus i Mrs. Morris, tra cynai Pegi'r canwyllau. "'Rwy'n falch i wel'd Miss Bowen wedi dwad gyda chi. Falle y dechreuith hi'r canu i ni heno."

"Na 'neiff wir, Tomos Lewis," ebai Mrs. Morris, cyn i Gladys gael amser i gydsynio, "rhaid i chi neyd e fel arfer."

"'Dwy i ddim yn lico," atebai Tomos, "yn 'y nhy 'n hunan."

"Chi sy' i neyd heno, ta beth," meddai Mrs. Morris yn benderfynol.

"Wel os 'ych chi'n gweyd hyny," atebai Tomos, "dos dim rhagor o siarad i fod."

"Ddaw dim llawer yma heno, gewch wel'd," meddai Pegi yn bryderus.

"O, mae'n gynar iawn eto," dywedai Mrs. Morris. "'Rown i'n clywed Mr. Morgans y Siop yn gweyd ddo' 'i fod e'n dwad, ag 'rodd Sali yn gweyd yn y prydawn y bydde ... a Nat yma."

Gyda'r gair, clywsent lais Sali yn y cwrt bach wrth y drws maes.

"Yr hen fochyn fel ag wyt ti!" ebai'r llais. "Dyna ti wedi dwyno trowsus gesot ti'n lan heno ddwetha! Pam na elli di ddryched ble'r wyt ti'n myn'd, yn lle myn'd yn dy gyfer i bob bwdlacs fel yna!"

"Sali fach," ebai llais adgyffro Nat, "'dos gyda fi ddim llygad cath i wel'd yn y twllwch, a shwt gwyddwn i fod Tomos wedi crafu'r bwdel i gornel y clôs?"

Erbyn hyn yr oedd y ddau wedi cyrhaedd hyd at drothwy'r ty.

"Holo," ebai Nat, "o's rhywun miwn yma?"

"Dewch ymla'n, Nathaniel," meddai Tomos, "mae'n dda gen i'ch gwel'd chi yn dwad mor gynar."

"O, Tomos Lewis," atebai Sali, "'dos dim eisieu i chi roi'r clod, naws, iddo fe. Mi ges i ddigon o waith i symud e o'r ty, a'i 'stopa i fi ga'l un mwgyn bach,' a'i shafu, a newid i ddiillad— a dyma fe wedi trochi 'i drowsus yn union ar ol hyny — ddese fe byth o'r man 'ny on'se mod i wedi penderfynu na fyse ni ddim yn ddiweddar heno yto ta beth. 'Rodd yn gwilydd arna'i feddwl pwy mor dd'weddar o'en ni'r tro dwetha o'dd y cwrdd yma."

"'Rodd Sali'n penderfynu y byse'r olaf yn fleinaf heno," dywedai Nat, gan droi cil-olwg at Gladys, "a cheswn i ddim galw yn y Dolau ar y ffordd i mo'yn Dafï Jones."

"I'mofyn Dafï Jones, yn wir!" chwythai Sali. "Mi wn i ble y byset ti a Dafï Jones yn myn'd yn go dda, a me ddyle fod cwilydd arnat ti siarad am fyn'd i mo'yn Dafï Jones byth a hefyd."

"Ody Dafï Jones yn dwad heno?" gofynai Mrs. Morris. "Fe odd yn dechreu'r cwrdd yma y tro dwetha, 'rwy'n cofio."

"Dafï Jones, wir!" ebai Sali yn watwarus. "Mi fydd hi dipyn cyn clywch chi Dafï Jones ar i linie yto."

Ni ddywedodd neb air am eiliad neu ddwy, a rhedodd ias oer drwy galon Gladys.

"Ody Dafï Jones ddim yn dost, gobeitho?" gofynai Gladys yn ofnus.

"Yn dost!" atebai Sali, gan chwerthin yn wawdlyd. "Ody, mi gynta, hyd nes y ceiff e flewyn o'r ei brathodd e?"

Eisteddai Tomos Lewis a'i ben yn isel heb ddweyd gair. Edrychai Mrs. Morris a Phegi yn brudd, oblegid drwg-dybient erbyn hyn beth oedd yn bod. Ond tarawyd Gladys yn fud am enyd gan syndod.

"Y ci brathodd e?" gofynai o'r diwedd. "Nid ci cyndeirog?"

"Ha, ha!" crechwenai Sali. "Ca eitha' cyndeirog brathodd e a Nat nos Sadwrn dwetha; ond——"

"Dyna ddigon o siarad feniwl!" meddai Nat mewn tŷn gyffrous. "Mae Dafï Jones gystal gwd short ag sydd i ga'l yn y plwydd, ond mae i fai gydag e fel sy' gyda ni i-gyd."

Curai calon Gladys yn gyflym, gyflym. Nis gallodd ymatal heb ofyn—

"Beth sy'n bod ar Dafydd Jones 'nte?"

"Tomos Lewis," meddai Nat, gan anerch yr Hen Binaol yn bryderus, ond heb ateb Gladys yn uniongyrchol, "'rwy'n clywed



eich bod chi yn myn'd i dori Dafï Jones ma's yn Salem nos yfory am i fod e wedi meddwi nos Sadwrn dwetha. 'Rown i gydag e'r holl amser,—dim ond haner awr bu e yn y Red Lion; ag ar 'n llw yfodd e ddim ond tri neu bedwar glased o gwrw. Ac mi gerddes i gydag e drw'r pentre wrth ochor y gaseg, ag 'rodd dim byd ma's o le arno fe'r pryd hyny. Ag os cododd y peth yfed i ben e wedyn, nid o achos i fod e wedi yfed gormod y gnath e, ond o achos i fod e wedi bod trw'r dydd heb damed o fwyd wedi brecwast."

Nid atebodd Tomos Lewis am beth amser, a phan y g:naeth yr oedd yn amlwg ei fod yn orchwyl caled, a rhoddodd ochenaïd ddwfn wrth ateb—

"Nid arna' i mae e'n dibynu, Nathaniel, beth 'neir nos yfory, ond ar yr eglwys."

"'Rych chi ddim yn ceisio gweyd, meddai Mrs. Morris yn wyllt, "fod Dafï Jones yn mynd i ga'l i dori ma's nos yfory?"

"Mi fydd yn rhaid i'r eglwys," atebai Tomos yn araf, "benderfynu'r achos. Mae Mr. Morgans y Siop yn mynd i ddwyn y peth gerbron, a mae tri o'r aelode yn gweyd iddyn' nhw gwrdd a Dafï Jones nos Sadwrn yn feddw ar y gaseg."

"Druan a Mari Jones!" ochneidiai Mrs. Morris. "Mi fydd yn ergyd trwm iddi hi."

"Druan ag Arthur!" sisialai Gladys wrth ei chalon. "Mae e mor falch o'i dad."

"Wi'n gobeitho, Tomos Lewis," ebai Nat, "na fyddwch chi ddim yn galed wrtho fe, wa'th nid cyment yfodd e nath i frad e. Mi weles i lawer crefyddwr yn yfed mwy ar fore pen ffair heb neb yn specto dim na neb yn gwel'd hól peth yfed arno fe. Eisie bwyd o'dd ar y dyn! Ag os na 'newch chi er i fwyn e, cofiwch fel y bydd Mari Jones ag Arthur yn gorffod diodde."

"Yr eglwys sy' i benderfynu, nid y fi," atebai Tomos; "ag y mae y Beibl yn ein dysgu os bwyteith rhieni fale surion ar ddanedd y plant y bydd dincod."

Gyda hyn daeth ereill o'r ardalwyr i'r cwrdd,—ond nid oedd fawr hwyl ar ddim. Nis gallai Gladys uno yn y gân na gwrandaw ar y gweddïau, ond o eigion ei chalon esgynai llef ddistaw gan sibrawd,—

"Druan o Arthur! Druan o Arthur! 'Rodd e mor falch o'i dad!"

Nid oedd Tomos Lewis, chwaith, yn ei hwyliau arferol. Nid oedd 'mynd' ar y canu, a digwyddodd ún anffawd fuasai'n destyn

chwerthin i Gladys ar adeg arall. Rhoddodd Morgans y Siop y penill adnabyddus allan,—‘Anweledig ’rwy’n dy garu.’ Tomos Lewis oedd yn arfer codi’r canu yn y cyrddau gweddi yn y cylich isaf o’r plwyf, a dywedid ei fod yn siwr iawn o daro’r dôn. Mesur wyth saith dwbl, fel y gwyddis, yw mesur yr emyn; ond yn ei ddiotalwch, cychwynodd Tomos Lewis ef ar y mesur wyth saith a phedwar, a’r canlyniad fu iddynt fethu canu’r ddwy linell olaf o’r penill.

Yr oedd Nat mewn hwyliau gwyllt iawn y noswaith hono ar ol ymadael o’r cwrdd ac er gwaethaf Sali, yn syth i’r Red Lion yr aeth.

“Hen gadno yw’r Hen Binacl,” meddai, ymysg nâd ynfyd yr yfwyr yno. “Mi ballodd yn deg canu’r ‘anweledig’ heno. Chese’r gwr drwg i hunan ddim gyda fe’i ganu’r ddwy lein ddwetha,—

‘Enill it’ eisteddfa dawel  
Yn y galon gareg hon.’

‘Dos gydag e help clywed siw na miw am ‘galon gareg’ byth oddiar pan mae e wedi cael gaf’el yn y cwar ceryg. ‘Dos dim lle, medde nhw, i Thomas y gweinidog weyd fod calon gig yn well na chalon gareg, wa’th mae’r Hen Binacl yn jelws o’r bwtslywr bach!’”

Ond os mai spri ryfygus oedd gan Nat, noson bruddaidd oedd hi yn y Dolau, ac ni esgynodd erioed hyd yn oed o Gymru weddi daerach a dwysach ei theimlad nag a offrymwyd ar ran ei gwr gan Mari Jones. Ond Dafi ei hun oedd gyndyn, ac ni phlygodd lin wrth fyn’d i’w wely anesmwyth.

## PENOD XX.

### DAFI JONES O FLAEN Y SEIET.

Y diwrnod mwyaf trist yn hanes Dafi a Mari Jones oedd Dydd Mercher y seiet. Yr oedd rhyw hurtrwydd ac ystyfnigrwydd rhyfedd wedi disgyn ar Dafi wedi’r dydd Llun pan ddaeth Morgans y Siop a Mr. Thomas y gweinidog i siarad ag ef. Bwytaï fwyd os dodid ef o’i flaen, ond nid oedd ganddo flas nac archwaeth

at fwyd fel arfer. Cerddai oddiamgylch y ffarm, drwy'r ardd a'r caeau, yn bendrwm a dywedwst; ond yr oedd yn hynod nad aeth yn agos i Nat a'r efail. O'r braidd y gallai Mari gael gair o'i ben, a thramwyai o'r gegin i'r neuadd heb dafu golwg ar y gwasanaeth-ddynion na siarad gair â neb. Edrychai'r gwasanaeth-ddynion arno gyda thrueni a thosturi; a chydsyniai pawb â Sara'r forwyn fwyaf pan ddywedodd ar frecwast boreu dydd Mercher,—

“Druan a mishtir!” meddai, “mae'n rhy ddrwg i fod e'n ca'l syffro fel hyn. Mi fyse'r hen fyd yma lawer yn well ta pawb cystal ag e.”

Ond er cymaint oedd dioddefaint Dafï, nid oedd ing a thrallod Mari yn llai. Ni chlywodd neb hi'n dweyd gair ynghylch yr helynt. Ni ddangosai ei bod yn gwybod fod dim allan o le, ond gwyddai'r morwynion fod ei chalon ar dori, a llawer gwaith y clywsant hi'n gruddfan ac yn ocheneidio yn ei hystafell wely, lle yr ymneillduai sawl gwaith yn y dydd. Ond ni feiddiai neb ei chysuro. Yr oedd rhyw oleuni yn ei llygad, a'r fath olwg benderfynol yn ei gwyneb, fel nas gallai un o'r morwynion fod o'r galon i gyfeirio mewn un modd at ei thrallod. Yr unig ffordd y dangosodd Mari i'r gwasanaeth-ddynion ei bod yn gwybod am y seiet oedd pan ddywedodd nas gallent gael myned fel arfer i'r cwrdd nos Fercher.

Tua haner awr wedi chwech daeth yr amser i Dafï a Mari Jones gychwyn tua'r seiet,—Dafï a'i lygad yn bwl, yn edrych o'i flaen heb weled dim, Mari a'i phen yn uchel, ond ei chalon — pwy a wyr pa mor isel? Ni ddywedodd un o honynt air wrth y llall wrth gychwyn, ond fel trwy reddf cyfeiriodd y ddau eu camrau ar yr un eiliad tua'r llwybr oedd yn rhedeg drwy gaeau Coed Weddus i'r pentref, yn lle dilyn heol y plwyf. Cerddasant gyda'u gilydd drwy'r gledwair a'r ydlan, a thrwy'r allt fach goed tu ol i'r ydlan, heb ddweyd gair wrth eu gilydd, er fod eu calonau yn curo yn boenus o gyflym. Ym mben tipyn daethant at y bontbren dros y nant, a daeth i'w cof fel y cwmpodd Mari yno pan yn eneth fechan ddeng mlwydd oed i bwl y chwyaid, ac fel y neidiodd Dafï hyd ei ganol i'r dwr i'w thynau hi allan. Nid oedd eisieu i Dafï fod wedi neidio ar ei hol, ac nid oedd Mari mewn dim perygl am ei bywyd. Gallai Dafï fod wedi ei thynu allan heb wlychu esgid na dilledyn. Ond dyna gymeriad Dafï, druan, drwy ei oes! Gwnelai bobpeth yn ei gyfer, heb fwrw'r draul, ac wrth dalu cymwynas nid oedd byth yn gofyn p'un oedd y ffordd rwyddaf a rhataf

iddo wneyd hyny. A'r nos Fercher hon nis gallai'r ddau byth beidio cofio am hen helynt eu hieuengetyd wrth groesi'r bontbren fach, a synai Mari mor fychan oedd y pwll a debygai unwaith oedd mor beryglus ei ddyfnder. Ac wrth ddilyn y llwybr yn nes ynlaen drwy'r Cae Hir, cofiai'r ddau am yr amser pan oedd Dafi yn fachgen ieuanc gwisgi, dwy-ar-hugain oed, yn hebrwng Mari gartref o gwrdd a thaith ac ysgol gân. Yn y man daethant i heol fach Coed Weddus, lle cafodd Dafi afael unwaith yn nyth dryw bach, a'r lle dyorodd Mari ef i ddwyn yr wyau, ac y gwnaeth iddo addaw na fuasai byth drachefn yn ysbeilio nythod adar bach. Yna daethant i Gae Tringol, lle'r oedd sifi pêr yn tyfu ar y clawdd. Cofient am yr oriau hyfryd a dreuliasant yno yn pigo'r sifi ac yn siarad fel y gwna mab a merch a'u gilydd pan yn caru. Daeth atgof atynt hefyd am y diwrnod dedwydd hwnw pan y cynhalwyd y cwrdd cwarter yn Salem, a phan yr aethant hwy ill dau i rodio'r caeau yn lle aros hyd ariwedd y cyfarfod dau o'r gloch. Bu Mari yn gofidio llawer am hyny, yn enwedig am nad oedd ganddi fam i gyfaddef wrthi pahan y bu cyhyd cyn godro y prydawn hwnw, a phaham yr oedd mor ddiweddar yn dod i'r cwrdd chwech. Wedi hyny daethant at y gamfa lle gofynodd Dafi i Mari os cymerai hi ef yn wr priod, a'r lle cyfaddefodd Mari gyfrinach mwyaf sanctaidd merch, a'r lle y derbyniodd ef gusan cyntaf Mari. Ie, a chofient hefyd fel yr oedd Dafi wedi addaw nad elai byth ond hyny i'r Red Lion, ac fel y cadwodd ei addewid am flynyddau. Ac wrth fod yr hen adgofion yn rhuthro i'w feddwl yn y llwydnos tawel, a chanfod gwyneb prudd Mari yn y fan y gwelodd ef unwaith yn disgleirio gan gariad a balchder a hoywder ieuengrwydd a gobaith a dedwyddwch, ac wrth feddwl fel yr oedd y gwyneb fu gynt mor hawddgar wedi ei ruchio gan ffaeleddau y gwr, dyma linytau teimladau Dafi, druan, yn rhoddi ffordd, a thorodd allan i wyllo fel plentyn.

"O, Mari anwyl," meddai, "mae'n ddrwg gen i mod i wedi dwad a chwilydd ar dy ben di fel hyn, 'y merch anw'l i."

"Ti" a "tithau" oedd hi bob amser gyda'r ddau pan fyddai eu teimladau wedi eu cyffroi.

"Paid di becco, Dafi bach," atebai Mari, a'i llaw yn dyner am ei wddf a'i phen yn pwyso ar ei ysgwydd, "paid di becco, 'y machgen i, os wyt ti'n dyfaru am dy bechod."

"Ond feddyles i ariôd," aeth Dafï ymlaen i ddweyd, "y byswn i byw i wel'd y dydd pan fyse cwilydd arna' i fyn'd gyda ti i'r capel gododd dy dad."

"Dere di, Dafï bach," atebai Mari, "mae'r Arglwydd yn trugarhau wrth yr ysbryd cystuddiedig, ag os wyt ti'n penderfynu peido gneyd y fath beth yto, mi gei di faddeuant. A mi fyse arna' i fwy o gwilydd ta ti ddim yn cwmpo dan dy fai na sy' arna' i am dy fod wedi pechu."

"Nid am hyny 'rwy'n becsu," dywedai Dafï yn llai cyffrous, "ond meddwl fod yn rhaid i fi ga'l 'y ngheryddu a'n niarddel gan y dynion 'na, a thithe a phawb yn gwel'd."

"Paid di meddwl am hyny, Dafï bach," meddai Mari, "a phaid di a chaledu dy galon. Os y byddi di'n ufudd, bydd pawb drwy'r holl le yn teimlo drosto ti, a thi wyddost y bydda' i'n meddwl mwy am danat ti nag ariod."

"O, Mari, Mari!" torai Dafï allan drachefn, "shwd gelli di, a thithe'n gwbod nag w i ddim yn ffit i fod yn wr i ti? 'Ro'dd dy dad yn gweyd yn reit y dylet ti ga'l rhyw un fyse'n gredit i ti, yn lle rhywun fel y fi!"

"Mae'n well gen i ti, 'y machgen i," meddai Mari, "na neb ar y ddaear; a ta nhad yn dy nabod di'n well, mi wede ynte 'r un peth. A ta beth weda nhw am danat ti, 'na nhw ddim o fi i feddwl llai o honot ti, wa'th 'rwy'n dy 'nabod di'n well na neb."

Bu distawrwydd am foment neu ddwy. Yna meddai Dafï, mewn llais isel—

"Mari, mae'n siwr fod deng mlynedd ar hugen o ar pan ofynes i ti fod yn wraig i fi man hyn."

"Deng mlynedd ar hugen i'r wythfed o Awst nesa'," atebai Mari, "'rwy'n cofio fel ddo' am y nosweth."

"Mi nes i lw prytyny, Mari," ychwanegai Dafï, "nad elwn i byth wedyn i'r Red Lion; ond mi dores 'n llw, ag 'rwy' wedi bod yn wr gwael i ti."

"Nag wyt, nag wyt," meddai Mari, "'dos dim gwell gwr yn y byd—"

"'Rwy'n gwbod gwell, Mari fach," dywedai Dafï, "ond 'rwy'n myn'd i dreio, gyda help Duw, i fyw'n well, ag i 'neyd'fyny i ti."

Ac yna, gerllaw'r gamfa lle rhoddodd Mari y cusan cyntaf i Dafï pan oeddynt eto yn ieuanc ddeng mlynedd ar hugain yn ol, y rhoddodd Mari y nos Fercher hon y cusan puraf allasai gwraig ei rod-di i'w gwr.

O, fawredd dylanwad gwraig rinweddol!

Er i Dafi a Mari Jones gychwyn o'r Dolau yn ofnus ac isel eu hysbryd, ar ol croesi'r gamfa siaradai'r ddau yn dawel a digyffro a'u gilydd. Nid oedd poen na balchder i'w weled ar wyneb Mari, nac ystyfnigrwydd na natur ddrwg ar wyneb Dafi. Synai a rhyfeddai pawb pan ddaeth y ddau i'r seiet, i ganfod mor ddedwydd yr edrychent—rhyw ryfeddod, gallaf dybio, tebyg i'r hyn a deimlid gan y genedl yn yr anialwch pan welsant wyneb Moses yn disgleirio wrth ddisgyn oddiar ben y mynydd. A chredaf i Dafi a Mari Jones, wrth gamfa arw Cae Tringol, fod yng ngwyddfod Duw ei hun!

Nid yw o lawer o bwys ym mha fodd y diarddelwyd Dafi Jones gan yr eglwys. Ni cheisiaf adrodd yr hanes yn fanwl,—fel yr oedd yr ysgoldy yn llawn cyn i Dafi gyrhaedd y lle, fel y dywedodd Morgans y Siop ychydig o eiriau miniog, fel y gwnaeth Griffith y Coed gyfeiriad câs at acshwn Penybont, ac y dadganodd ei syndod nad oedd Mr. Thomas y gweinidog wedi gweled Dafi nos Sadwrn ac yntau wedi pasio heibio'r ty; fel y gwadodd Mr. Thomas iddo weled Dafi Jones (er i'r forwyn ddweyd ar ol hyny iddo droi ei gefn pan glywodd lais Dafi yn siarad yn floesg a Nat); ac fel y dywedodd Tomos Lewis ychydig o eiriau pwylllog, caruaid, yn llawn cydymdeimlad a thosturi, ond yn hynod o glir a phenderfynol. Nis gwnaf adrodd, 'chwaith, fel y cyfaddefodd Dafi ei drosedd, heb geisio ei ragesgusodi, ac yr addunedodd na wnelai byth syrthio drachefn, os cawsai gymhorth Duw a gweddiau ei bobl. Dywedir na chafodd Mr. Thomas y fath orchwyl caled erioed ag i dori Dafi allan. Yr oedd dagrau gloewon yn ei lygaid, ac o'r braidd y gallodd lunio brawddeg yn eglur; ond, ar ol ei ddiarddel, ychwanegodd ei fod yn gobeithio na fuasai yn sefyll allan yn hir, ac y byddai y brodyr oll yn cydlawenhau pan ofynai am ei le drachefn. Dywed pobl Salem na chlywsant erioed y fath weddi adwys ac effeithiol a'r un a offrymwyd gan y gweinidog ar ddiwedd yr oedfa. Yr oedd hyd yn oed Griffith y Coed yn rhoddi ambell i "Amen" wylofus, a bu agos i rai o'r hen bobl dori allan i folianu fel y gwnaent genhedlaeth neu ddwy yn ol. Ar ddiwedd y cyfarfod aeth Dafi a Mari Jones allan gyda'u gilydd. Rhoddai pawb ffordd iddynt heb ddweyd gair ond "noswaith dda chi" garedig, gan ddangos eu parch a'u cydymdeimlad yn ddistaw.

A'r noson hono teyrnasai heddwch a thangnefedd yn y Dolau Gwynion.

## PENOD XXI

### DIWEDD DAFI JONES.

Druan o Nat! O Nat? medd y darllenydd. Pwy eisieu tosturio wrth Nat sydd? Efe fu wrth wraidd y drwg i gyd. Efe fu'n tynu Dafi Jones ar gyfeiliorn drwy ei oes. Efe achosodd iddo feddwi y nos Sadwrn hono yn y Red Lion, ac a ddygodd yr holl amharch a'r anfri ar ei ben.

Gan bwyll, ddarllenydd hynaws! Gwn fod pobl yn barod i ranu dynolryw i ddwy gorlan fawr — y da a'r drwg, y defaid a'r geifr. Ond pwy sydd i wahaniaethu rhyngddynt? Paid a chondemnio Nat yn rhy frysio, er ei holl ffaeledau. Nid wyf wedi cuddio un o honynt o'th olwg: yr oedd yn rhyfygus, yn wamal, weithiau yn feddw, aml waith yn rhegu ac yn cablu. Yr oedd ei ddylanwad ar Dafi ac ereill yn y plwyf yn ddrwg. Eithaf gwir; ond erfyniaf arnat i dosturio hyd yn oed wrth gyflwr Nat.

Yr oedd Nat, hefyd, wedi newid llawer wedi'r nos Sadwrn y bu yn yfed gyda Dafi Jones yn y Red Lion. Byth ar ol hyny ni ddaeth Dafi yn agos i'r efail, ac nid oedd yr efail yr un hebddo. Gofynai Nat i bawb os gwyddent am hanes neu symudiadau Dafi. Yr un ateb dderbyniai oddiwrth bawb; nid oedd neb wedi gweled gwr y Dolau yn unlle o fyd wedi nos Fercher y seiet. Ym mhen ychydig o ddiwrnodau wedi y diarddeliad, clywodd Nat nad oedd Dafi Jones byth yn croesi trothwy'r Dolau, ond ei fod yn pendrymu uwchben y tân, heb ddweyd gair wrth neb ond wrth Mari ei wraig yn unig.

Yr oedd ofn ar Nat i fyned i'r Dolau i weled Dafi. Nid ofn Dafi, druan, ond ofn Mari oedd arno. Yr oedd y ddau wedi eu cydfagu. Nid oedd "Ty Nat" ond rhyw ganllath o'r Dolau, ac yr oedd y ddau, pan yn blant, yn arfer chwareu gyda'u gilydd. Pan oeddent yn fychain iawn, buont yn gariadon. Pan ofynid i Mari Jones pwy oedd ei chariad, ei hateb oedd "Nat," a phan ofynid yr un peth i Nat, "Mari fach" oedd ei ateb yntau. Un dydd Calan rhedodd Mari ymaith heb yn wybod i'w thad a'i rhannu i gasglu calenig gyda Nat, a siaradau'r ddau am briodi pan ddalant yn "ddynon mowr." Ond fel y tyfent i fyny, daethant i ddeall, heb neb i'w cyfarwyddo, fod gwahaniaeth rhwng sefyllfa merch y ffarm fwyaf yn y plwyf a mab y gof. Ac felly darfyddodd eu caru babanaidd yn gynar iawn.

Ond yr oedd gan Nat olwg fawr ar Mari Jones drwy ei oes. Nid oedd neb allai wneyd iddo roddi ffrwyn ar ei dafod fel hi, ac nis gallai pendefig dalu mwy o wir barch i'r Frenhines nag a dalai Nat i Mari Jones. Ambell i un yn y plwyf, yn nhyb Nat, a deilyngai gael ei alw yn dduwiol; ond cyfaddefai bob amser am Mari fod "gwreiddyn y mater" ganddi hi. Nid oedd Mari heb wybod fod ganddi ddylanwad ar Nat, a gwyddai hefyd mai Nat oedd yn tynu ei gwr ar gyfeiliorn. Paham na fuasai yn dweyd rhywbeth wrth Nat? Paham na fuasai yn gofyn iddo beidio temtio'i gwr? Mae yr ateb wedi ei guddio yn nirgelion y galon ddynol. Feallai fod Mari Jones yn rhy falch i ymostwng i eiriol ar ran ei gwr. Feallai y credai y gallai hi adenu Dafu o'i ffyrdd drygionus heb erfyn am ganiatad a chynorthwy oferddyn fel Nat. Feallai na wyddai faint ei dylanwad.

Beth bynag am y rheswm, y mae'r ffaith yn aros na ddywedodd Mari Jones air erioed wrth Nat am ei gysylltiad a Dafu. Ac eto yr oedd Nat ofn ei dau lygad glâs, gonest, difrifol! Bu am ddiwrnodau yn ceisio ymwroli i fyned i'r Dolau, ond nis gallai. Un prydawn — i fod yn berffaith gywir, y dydd Mawrth ar ol y seiet — canfu y meddyg ar y ffordd tua'r Dolau, a gofynodd iddo yn mha gyflwr yr oedd Dafu Jones.

"Dyw e ddim yn dda," meddai'r meddyg; "mae arna i ofan na pharith e ddim yn hir."

Dychrynodd Nat, ac heb oedi rhagor aeth ar ei union i'r Dolau. Yn ol ei arfer, cerddodd i'r gegin heb aros i guro wrth y drws maes. Yn y gegin cafodd Mari Jones yn parotoi bwdran i'r claf. Edrychai Mari yn fwy teneu a llwydaidd nag y gwelodd Nat hi erioed o'r blaen, ac yr oedd golwg gofidus ar ei gwyneb. Rhuthrodd i gof Nat fel y gwelodd yr un olwg arni unwaith o'r blaen, flynyddau maith yn ol, pan oeddynt eill dau yn blant bach — ar adeg marwolaeth ei mham. Crynai llais Nat wrth ofyn—

"B'le mae Dafu Jones yn cadw 'ma, os llawer dydd?"

"Dyw Dafu ddim haner da os dwarnode," ebai Mari mewn llais undonog. "'Dyw i galon e ddim agos reit os blynydde, ag mae'r doctor wedi bod yn tendo arno fe oddiar prynawn ddo'."

"Mae'n ddrwg iawn gen i glywed," meddai Nat. "'Rwy'n gobeitho nag o's dim byd seriws yn bod."

"Wel, 'dalla' i ddim a gweyd," dywedai Mari, "ond mi wedodd y doctor wrtha i ddo' am hala i mo'yn Arthur, a mi hales telegram ato fe rhag ofan, a 'rwy'n dishgwyl y daw e cyn nos, er 'y mod i'n treio gobeitho'r goreu o hyd."



“Rych chi'n gneyd yn reit, Mrs. Jones fach,” meddai Nat, a'i galon yn ei wddf. “Allwn i ga'l gwel'd Dafï Jones am fyned? Falle gnethwn i dipyn o les iddo fe. 'Rodd e'n arfer gweyd 'y mod i'n gallu codi 'i ysbryd e pan o'dd pawb arall yn ffeilu.”

“Wel, mae digon o eisie arno fe 'nawr, druan bach,” dywedai Mari, “mae e'n hynod o ishel heddi, ag y mae e wedi hala 'i hunan yn wa'th drwy ddishgwl Arthur bob myned.”

“Ody e ddim yn cadw'r gwely,” gofynai Nat.

“Na, fuodd e ddim yn cadw gwely hyd heddi,' atebai Mari, “ond mi wedws y doctor y byse'n well iddo fe beido codi heddi, os galle fe. A fel'ny mae e wedi bod drwy'r dydd yn y gwely. Mi af fi a chi miwn i wel'd e, ond i chi gofio bod yn ddistaw.”

“Gna, gna, Mrs. Jones fach,” meddai Nat yn dawel ac yn dynner.

Dilynodd Nat Mari Jones o'r gegin i'r neuadd. Yn un pen i'r neuadd yr oedd drws yn agor i'r parlwr bach, ac i'r ystafell hon yr arweiniodd Mari y gof. Mewn gwely cwpwrdd yn y parlwr bach gorweddaï Dafï Jones, a gwrid ariach ar ei wyneb, a golwg wasgedig yn ei lygaid.

“'Rwy' wedi galw i ofyn shwd y'ch chi, Dafï Jones,” meddai Nat. “Mi glywes eich bod yn ca'l hen bwl bach eas.”

“Mae ar ben arna' i, Nat bach,” atebai Dafï. “'Rwy' wedi cyrhaedd pen draw'r grwn, 'rwy'n credu.”

“Peidwch rhoi ffordd i ishelder, Dafï Jones bach,” ebai Nat, gan wneyd ei oreu i ymddangos yn ysgafn ei ysbryd. “Nid yw'r clefyd hwn i farwoleth, os gwedodd y Beibl.”

“Na, na, Nat,” oedd yr atebiad. “'Rwy'n gw'bod yn well na ti. Alla' i ddim para'n hir, ond fe licwn ga'l byw i wel'd Arthur unwaith yto.”

“Dafï bach,” meddai Mari, “peidwch chi a siarad fel 'na. Mi ddaw Arthur yma yn union, ag 'rych chithe ddim mor ddrwg a hyna.”

“Na,” dywedai Dafï, “'rwy'n nabod wrth y doctor na fyddai i ddim yn hir ar y ffordd.”

A chyn i Mari gael amser i ateb, clywyd swn cerbyd ar y clôs, a haner cododd Dafï yn y gwely, a dywedodd yn gynhyrfus—

“Dyma Arthur wedi dwad o'r diwedd.”

Ac Arthur oedd yno, ac ym mhen enyd yr oedd yn y parlwr bach, yn sefyll wrth erchwyn y gwely.

"O, 'machgen anw'l i," meddai Dafï, a'r dwr yn dyhidlo dros ei ruddiau, "'rwy'ti wedi dwad. 'Ro'dd arna' i ofan na welswn i byth o honot ti wedyn."

"Nhad bach, 'dych chi ddim mor ddrwg a hyna hefyd, peidwch chi a meddwl," ebai Arthur mewn llais calonog,—ond safai deigrn gloew yn ei lygad wrth roddi cusan i'w fam.

"Na, na, 'machgen i," meddai Dafï, "'rwy'ti'n gwbod yn well na hyna. Mae'n ôl yp arna' i'r tro hyn, 'rwy'n gwbod. Wyt ti'n meddwl y ca' i fyn'd i'r nefo'dd?"

"Nhad anwyl, peidwch siarad fel 'na," atebai Arthur, "wrth gwrs fe gewch fyn'd i'r nefo'dd."

"Ond 'rwy'ti ddim yn gwbod y cwbl, Arthur bach," meddai Dafï. "'Wedodd dy fam ddim wrthot ti 'mod i wedi ca'l 'y nhori ma's."

"Peidwch chi siarad gormod, Dafï bach," torai Mari i mewn, "'rych chi'n rhy wan yto."

"A mi ges 'y nhori ma's am feddwi, Arthur," ychwanegai Dafï.

"Ond 'dodd e ddim ar bws, mi 'na'n llw," meddai Nat, "wa'th 'rown i gydag e ar y pryd."

"Paid a gwadu, Nat bach," ebai Dafï, "mae'n well cyfadde'r gwir wedi'r cwbl. 'Rwy'n gobeitho, Arthur, na fyddi di ddim yn dryched lawr ar dy dad ochos i fod e wedi ca'l i dori ma's. 'Rwy' i wedi gneyd 'y ngore i fod yn dad da i ti—"

"Nhad, nhad!" llefai Arthur, "peidwch, peidwch. Alla i ddim eich godde chi i fyn'd ymla'n fel yna. Shwd galla i ddryched lawr arnoch chi? Chi yw'r gore weles i ariod, a ta chi wedi ca'l eich tori ma's ganwaith, 'neiff e ddim gwahanieth i fi."

"Ond, Arthur bach," aeth Dafï ymlaen i ddweyd, "mi wedson wrtha i mod i wedi meddwi yn acshwn Penbont, a wedes i ddim wrthyn' nhw 'y mod i wedi yfed gormod yn Ffair Fedi a Ffair Gw'l Barna, ond na welson' nhw ddim o hona i. Wyt ti'n meddwl y ca' i fyn'd i'r nefo'dd, Arthur?"

"Cewch, cewch, 'y nhad bach," meddai Arthur, heb wybod yn iawn beth i ateb, "peidwch chi a distyrbo'ch hunan 'nawr, ond gnewch eich gore i wella."

"Pam na ddaw Mr. Thomas yma?" gofynai Dafï yn ddisymwth gan droi at Mari.

"Mae e ar ger'ed," atebai Mari, "ond mae Mrs. Thomas wedi hala i weyd y bydd e yma 'fory."

"'Fory, 'fory," meddai Dafï, gan bwyso yn ol ar y gobenydd, a rhyw olwg ddiethr yn ei lygaid.

"Mari, dore yma," meddai wedyn.

Aeth Mari ymlaen yn dawel at yr erchwyn, ac esmwythaodd y cwrldid a'i llaw, fel y gwna gwragedd tirion yn ystafell y claf.

"Rho dy law i fi, 'merch i," ebai Dafï.

Yn llaw ei gwr gosododd ei llaw galed ei hun.

"Rho dy law i fi, machgen i," ebai Dafï drachefn wrth Arthur, ac ar yr un llaw dododd Arthur ei law yntau.

"'Rwy' wedi bod yn wr gwael i ti, Mari anw'l," meddai Dafï ym mhen tipyn.

"Nag wyt, Dafï bach!" dywedai Mari, gan wylo'n ddistaw.

"Rwy'n gallu 'i gwel'd hi'n awr," ychwanegai Dafï. "'Down i ddim yn ffit i dy ga'l di oddi ar y cynta, a cha i ddim byw 'nawr i dreio 'neyd i fynny i ti. Ond cofia, Arthur, i ddryched ar ol dy fam, ar ol i fi fyn'd."

"Gna, gna, nhad bach," ebai Arthur.

"Mae hi wedi aberthu pwer er dy fwyn di," aeth Dafï ymlaen.

"Cofia di i dalu yn ol iddi, wa'th chei di byth neb i hido am danat fel hyhi."

"'Rwy'n gw'bod hynny, nhad bach," meddai Arthur.

"A Nat," dywedai Dafï—yr oedd Nat yn eistedd ar stol yn y cornel a'i hat ar ei arffed, yn methu syflyd o'r fan—"r'wy' wedi bod yn ffrynd drwg i ti, ac wedi gneyd i ti adel yr efel ganwaith yn gynt nag oet ti'n mo'yn, er mwyn myn'd i'r pentre."

"O, Dafï Jones!"—a thorodd Nat allan i wylo am y tro cyntaf er ys deugain mlynedd—"y fi sy' a'r bai i gyd! On'se i fi ofyn i chi, fyse chi ariod wedi dishgyn o ar gefen y gaseg a dwad i'r Red Lion pwy nosweth 'na. A fyse dim o'r trwbwl hyn wedi dwad arnoch chi."

"Na, Nat," dywedai Dafï, "'rown i'n wa'th na ti, wa'th 'rown i ar enw crefydd, a mi ddylwn i fod wedi rhoi gwell siampl na hynny i ti. Arthur, wyt ti'n meddwl y ca' i fyn'd i'r nefo'dd ar ol ca'l 'y nhorï ma's?"

"Cewch, nhad bach," atebai Arthur yn ddyryslyd. "'Rych chi'n gwbod beth mae'r Beibl yn weyd."

"Ie, ie, ond mae'r gair yn gweyd," meddai Dafï yn ei lais gwan oedd yn crygu erbyn hyn, "fod pob un sy'n cymeryd cymunedeb yn annheilwng wedi ei ddamnio eisoes, a mi dderbynes i fara a gwin dy' Sul ar ol Ffair Fedi."

"Peidwch chi a rhoi'ch meddwl ar betha fel 'na," ebai Arthur. "Mae'r Beibl yn gweyd fod Duw yn trugarhau wrth y galon ddryll-iog."

“Y galon ddrylliog!” dywedai Dafï fel pe mewn breuddwyd.  
 “Y galon ddrylliog! Ody, mae'n nghalon i'n ddrylliog, medde'r  
 doctor.”

Gyda hyn yr oedd ei anadl wedi byrhau a'i lygaid yn cau, fel  
 pe byddai yn ymollwng i gysgu. Edrychai y tri oedd yn yr ys-  
 tafell yn frawychus ar eu gilydd.

“Ody'n well i mi redeg i mo'yn y doctor?” gofynai Nat yn isel.

Clywodd Dafï ef, ac atebodd yn dawel, heb agor ei lygaid—

“Mae wedi whech, Nat bach. Ag o's dim eisie. 'Rwy'n  
 gwel'd meddyg y gwywedig rai.”

Dim ond swm anadliad poenus Dafï oedd yn tori ar y distaw-  
 rwydd. Ni feiddiai'r lleill ddweyd gair, ond safent yn fud wrth  
 erchwyn y gwely. Yna, meddai Dafï, gan geisio agor ei lygaid  
 trymion—

“Good bye, Mari, 'y merch i. Good bye, Arthur bach. Treia  
 droi ma's yn well na gna'th dy dad.”

Erbyn hyn yr oedd rhoch angau ym mhob anadliad. Ed-  
 rychai'r tri heb ddweyd gair, ar ymdrech yr enaid i ddychwel at  
 Dduw yr hwn a'i rhoes ef. Ym mben ychydig torodd Dafï dra-  
 chefn ar y distawrwydd drwy sibrawd yn isel—

Mi glywes gynt fod Iesu,  
 A'i fod e felly 'nawr,  
 Yn gyfaill publicanod  
 A phechaduriaid mawr.  
 O, derbyn, Arglwydd, derbyn  
 Fi hefyd gyda hwy.

Yr oedd ei gof fel pe yn dechreu pallu erbyn hym. Ar ol  
 enyd o ddistawrwydd sibrydodd y geiriau olaf drachefn—

O, derbyn, Arglwydd, derbyn  
 Fi hefyd gyda hwy.

Yr oedd dagrau mawrion yn bwrlymu o lygaid Nat, ond yr  
 oedd grudd Mari yn sych a'i llygaid yn gochion, fel lleoedd anial  
 heb ddyfroedd ynddynt. Yr oedd ei llaw hi a llaw Arthur o hyd  
 yng ngafael Dafï, ac yna, fel canwyll yn diffodd darfyddodd Dafï  
 Jones ag anadlu.

Ac yr oedd Dafï Jones yn gwybod mwy nag oedd Arthur erioed  
 wedi ddysgu.

## PENOD XXII.

### HIRAETH NAT.

Pythefnos i'r diwrnod wedi Ffair Calan-Mai gosodwyd Dafi Jones yn ei fedd ym mynwent Llanelwid. Dim ond dwy wythnos! ond, Ow'r fath gyfnewidiadau, y fath alar a gofid, a gymerodd le ynddynt! Daeth yr holl blwyf ynghyd i dalu'r deyrnged olaf i Dafi, druan. Ni weddai i mi geisio darlunio'r angladd yn fanwl—nid oedd dim yn ei hynodi oddwrth angladdau cyffelyb. Bu Mr. Thomas yn darllen a gweddio cyn "codi" yn y Dolau, ac ar o'i canu hen emyn Cymraeg—mor lleddf a chwynfanus a'r gwynt ar y morfa, er nad heb wir ddiogel obaith y ceir "esgyn o'r dyrys anialwch" ryw ddydd—cychwynodd yr orymdaith allan o'r ty yn swm wylo distaw y gwragedd. Ond safai Mari Jones wrth ochr Arthur, heb ddeigr yn ei llygad. Yr unig arwydd a roddodd, drwy gydol y dydd, o ddwysder ei theimladau blin, oedd pan aeth Gladys ymlaen ati ar ddiwedd y gwasanaeth yn y ty. Gafaelodd yr hen wraig yn dŷn yn llaw dyner yr eneth, ac nis gollyngodd hi yn rhydd hyd nes y gosodwyd corff ei gwr i orwedd dan yr ywen ddu mewn cwr llonydd ym mynwent y Llan, i aros udgorn yr adgyfodiad.

Y galarwr mwyaf athrist yn yr angladd oedd Nat. Edrychai ar y cyfan fel rhyw freuddwyd cas, a lled-ddisgwyliai y byddai yn dihuno yn y man a chael ei fod wedi dychmygu'r cwbl. Cerddai yn yr orymdaith, gosodai ei ysgwydd dan yr elor yn ei dro, heb allu sylweddoli mai Dafi Jones oedd yn cael ei hebrwng i dir ei hir gartref.

"Pythefnos i heddi," meddai wrtho ei hun, "yr oedd yn fyw ac yn iach,—yn 'wherthingyda fi yn y Red Lion, ac yn brochgau'r gaseg fach wrth 'yn ochor mor jocôs ag ariod!"

Nis gallai ddweyd gair wrth neb, oblegid yr oedd yn caru Dafi a chariad cryfach nag a feddyliodd o'r blaen, ac yna beiai ei hunan am y filfed waith fel achos marwolaeth ei hen ffrynd.

"Tawn i ddim wedi gofyn iddo fe ddishgyn yn y Red Lion," dywedai wrth ei gydwybod, "mi fyse wedi mynd gartre'n streit y nosweth hyny, a ni fyse dim bodder wedi bod. A ta fe ddim wedi cael i dori ma's, mi fyse'n fyw heddi."

Synai wrth ganfod mor ddidaro oedd llawer o'r bobl yn yr angladd. Clywai rywun tu ol iddo yn dweyd fod ei ail forwyn

wedi tori ar ei chyflog. Troiodd i wynebu'r dyn, a dywedodd yn sarug—

“Rhag eich cwilydd chi'r dyn! Odych chi'n meddwl nag o's gyda ni ddim rhytach gwaith mewn angladd na siarad am forw'non yn tori?”

Edrychodd y gwr yn syn am fynud, yna atebodd yn chwim—  
“Satan yn ceryddu pechod! 'Ro'et ti, Nat, yn siarad digon yn angladd 'rhen Beto Penbont, ag yn gneyd i Dafi Jones, druan ag e, 'wherthin yn uchel yn y fynwent!”

Trywanwyd calon Nat; aeth yr ateb fel saeth adref. Cofiodd mor ddibris ac ysgafn yr oedd Dafi ac yntau yn yr angladd, ac fel y gwnaethant, yn ol hen arfer baganaidd y wlad, ar ol “claddu y marw fyn'd at y cwrw.” A rhyfeddai Nat wrth feddwl y buasai rhywrai, feallai, yn gwneyd yr un peth y diwrnod hwnw, ar ol angladd Dafi—ie, rhai cyn fod y pridd wedi gorchuddio gwyneb yr arch!

Wedi'r angladd aeth Nat adref heb alw yn un man na siarad ond ychydig eiriau a'i gymdeithion. Cyn pen ychydig ddyddiau aeth y si ar led fod marwolaeth Dafi Jones wedi difrifoli llawer ar Nat, nad oedd i'w weled hyd nos yn y dafarn, ac nad oedd yn cellwair yn rhyfygus yn yr efail fel cynt.

Nid oes eisieu dweyd fod pawb yn synu, a rhai yn ddrwg ganddynt oherwydd hyn. Bu crytsach yr ardal yn ymgynghori pa fodd y gallent gywilyddio Nat, a gwawdio ei ddifrifoldeb newydd; ond gan gymaint yr arswyd a deimlid rhag cyffroi tafod ffraethlym yr hen ôf, nis ymgymerodd neb a'r gorchwyl. Felly cafodd Nat hamdden i ymladd ei frwydr yn ddistaw, heb neb ond Sali i aflonyddu dim arno.

Am y tro cyntaf yn ei fywyd daeth arno ofn tafod Sali. Dychrynai rhag iddo ofyn iddo beth oedd yn bod, a gwnaeth ei feddwl i fyny, os gofynai iddo y dywedai y cyfan wrthi.

Un boreu, ar ol iddo fethu yn lân a gwneyd cyfiawnder a'i foreu-fwyd, nis gallodd Sali ymatal yn hwy.

“Beth sy' arnat ti, Nat?” gofynai. “Mi alle dyn dyngu dy fod di wedi gwel'd bwci! Pwy eische i ti bendrwmu sy'? 'Dwyt ti ddim wedi gneyd dwarnod cyfan o waith os w'thnos, a dyma fi wrthi o fore 'soi nos, a 'dwy i ddim yn ceintach ag yn ochneido. Beth ta ti wedi gorffod golchi i dri gwas y Dole, heblaw ffwrno i ni'n hunen, fel y gorffid i fi ddo'? Mi licwn wel'd dy ddrych di wedyn!”

Afrwydd iawn gan Nat oedd ateb.

"'Rwy'n gw'hod," meddai, "nag w i ddim wedi bod yn reit o ar pan halws Dafi Jones i getyn, druan."

"Ie, 'rown i'n gweyd wrthot ti y ceset ti anwyd, nosweth yr angladd, yn mynd ma's fel 'ny yn nghanol y glaw ar ol dwad 'nol," ebai Sali. "Mi af fi at Morgans y Siop i mo'yn y moddion crwe 'na. Mae e'n dda iawn at anwyd."

"Na, 'dos dim byd ma's o le arna' i, Sali," atebai Nat. "Ond 'rwy' wedi bod yn meddwl y dylwn i roi heibo myn'd i'r tafarne 'ma gyment."

Ai Nat oedd yn siarad mor wylaidd? O'r braidd y gallai Sali gredu ei chlustiau. Edrychodd mewn syndod arno am beth amser, ac yna llefodd,—

"Ie, ie, 'ngwas i, 'rwy'ti wedi dwad i wel'd hyny o'r diwedd, wyt ti! 'Rwy' i wedi bod yn gweyd digon wrthot ti am hyny os ugen mlynedd a rhagor. Ond na! 'roet ti'n ormod o ddyn i 'neyd dim sylw o'r peth o'wn i'n weyd. Mi fyse llawer gwell golwg arnat ti heddi ta ti wedi grondo arna' i'n gynt."

Yr oedd hyn fel tân ar groen Nat.

"Y feniw!" meddai yn wyllt, "'rwy'ti'n ddigon i hala dyn i beido trio bod yn well."

"O, ie, ie," llefai Sali mewn ton ddolefus, "dyna fel w i'n i cha'l hi'n wastod. Os gweda i air, 'dyw e byth yn reit, hyd yn eed pan nag w i'n gweyd gair ond ar dy ol di. A dyna ti dy hunan yn gweyd na ddylet ti ddim hala'r holl amser 'na tua'r Red Lion, a 'nes i ddim ond gweyd 'y mod i wedi gweyd yr un peth os ugen mlynedd, a 'dos dim byd yn rhy ddrwg i weyd am dana i!"

Erbyn hyny yr oedd Sali wedi casglu nerth, ac yr oedd ei hyawdledd wedi croni nes dod yn llifeiriant ysgubol.

"Y fi'n dy hadel di i fod yn well?" gofynai'n groch. "Y fi? Pwy sy' wedi godde' cymant a fi ochos dy yfed di? A phwy sy' wedi cadw tô uwch dy ben di, a chrwstyn yn y cwpwrt, ac yn slafo ddydd a nos i fagu dy blant di? Y fi'n dy hadel di i fyw'n well? Dyna i gyd yw'r diolch—"

Syrthiodd Sali ar faine wrth ochr y bwrdd, cododd gornel ei ffedog at ei llygaid a thorodd allan i wylo'n chwerw. Pan ddaeth ati ei hun, yr oedd Nat wedi diflannu o'i gwydd.

Am ddiwrnodau ar ol hyn bu Nat yn gweithio o foreu bach hyd fachlud haul yn yr efail, ond ni ddywedodd air yn rhagor wrth Sali. Un prydawn tua dechreu Gorffenaf daeth i'r ty gan edrych yn hynod swil, a dywedodd yn ddisymwth—

"Sali, 'rwy' wedi seino dirwest!"

“Wedi seino dirwest!” llefai Sali. “Beth wyt ti’n feddwl, y dyn?”

“’Rwy’ wedi joino’r Rechabied ’na,” ebai Nat, gan osgoi llygad Sali.

“Yr hen glwb bach ’na?” gofynai Sali. “A phwy ddwarnod ’roet ti’n gneyd spri am ’u pene nhw, ag yn gofyn pwy fusnes o’dd gyda nhw i alw ’u hunen yn Rechabied os na fyse nhw’n troi yn jips! Wel, mi fydd gyda dy hen gwmpni spri man clywan nhw, a mi neiff Robin y teilwr gân i ti! Ha, ha! Nat yn ditotal! Nit mod i’n anfo’lon, cofia di. Mi halest fwy o arian ar gwrw nag enilli di byth yto! Ond pam na fyset ti wedi towlu heb seino dros y ddou gynhaua’ a’r acshwne? Wa’th mae digon o gwrw i ga’l pryd hyny am ddim.”

Mewn un peth daeth y broffwydoliaeth i ben. Cyfansoddodd Robin gân o wawd i Nat; ond gan mai ar fesur cywydd oedd, ni chafodd lawer o boblogrwydd yn Llanelwid. Ni chlywais i ond dwy linell yn unig o’r cywydd, ac y mae yn dra thebyg na chefais hwynt yn gywir. Gwatwarai Robin—

Yr angel wrth yr eingion  
Y gof du yn dyblu’r dôn.

Ond er mor galed oedd gwingo yn erbyn symbylau Robin a Sali, glynu wnaeth Nat wrth ei glwb, ac y mae yn un o’r aelodau ffyddlonaf yn y cyfarfod wythnosol yn y Ddarllenfa, ac y mae ei ffraethineb a’i ddiereidi—oblegid y mae wedi dysgu’r ffordd i chwertthin eto erbyn hyn, er fod ei hen ryfyg a’i anystyriaeth wedi cilio yn ei wneyd yn gymaint ffafr-ddyn yno ag y bu gynt yng ngegion y Red Lion. Nid yw wedi ymaelodi yn Salem, ond y mae yn wrandawr cyson, ac nid yw’r gweinidog a Mari Jones heb obaith y gwelir ef “yn aros ar ôl” un o’r dyddiau nesaf. Erys Sali yr un o hyd. Nis gall amgyffred y cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn ei gwr, ac, a dweyd y gwir, nid yw yn holl foddlon.

“Ro’wn i’n arfer ca’l gwared ar Nat,” meddai, “dair nosweth ne beder yn yr w’thnos; ond cha’i byth ’i wared e ’nawr ond pan fydd cwrdd gweddi neu gwrdd y clwb bach ’na. Ta fe’n bod yn llonydd yn y tŷ, fyswn i ddim yn hido rhw lawer. Ond dyna lle mae e’n myn’d yn ol ag ymla’n yn i sgidie brwnt, ag o’s dim posib cadw un cornel yn lân ar ’i ol e!”

Ond mae Sali’n dechreu boddloni, hefyd, erbyn hyn, ar ol i Nat ddodi arian yn y Post-office Savings Bank gyda Morgans y Siop.



Mae Mari Jones wedi ymadael o'r Dolau. Ni cheiff gwraig weddw aros mewn ffarm ar stât y Plas, a chan y byddai gofal mawr arni yn y Dolau, penderfynodd Mari Jones, ar gynghor Arthur, i ymadael o'r ffarm y Gwyl Fihangel cyntaf wedi marwolaeth ei gwr, a chymerodd Henry Morgan, Plas Newydd, y ffarm oddiar ei llaw. Aeth hi i fyw i dy bach tlws yn y pentref, lle gall gadw dwy fuwch, ac nid yw Arthur yn gadael un cyfle i ddianc heb ddyfod i lawr o Lundain i'w gweled.

Ond, ai i weled ei fam yn unig y daw Arthur mor fynych i Lanelwid? Nid wyf yn tori ar un gyfrinach wrth ddeyd fod un arall yn y plwyf sydd yn anwylach ganddo hyd yn oed na'i fam. Ni ddaw byth i Lanelwid heb alw yn y Gelli. Yno yr erys Gladys o hyd gyda Mrs Morris, ac y mae'r hen wraig wedi dysgu ei hanwyl o a'i charu yn fwyfwy bob mis. Nid yw, rywfodd, mor hoff o Arthur Jones ag y gellid disgwyl, er fod Arthur—y gwalch—yn cymeryd llawer o drafferth i "gadw ei chàp yn gwmws." Nid yw byth yn talu ymweliad a'r Gelli heb adael ar ei ol ryw bresant bach i "Nanti Jane." Y mae'n dra thebyg ei fod yn dod a rhywbeth gydag ef i Gladys hefyd. Beth bynag, mae ei holl agwedd hithau yn newid pan glyw swm troed y doctor ar raian yr ale fach tu allan i ddrws y ty!

### PENOD XXIII.

#### BOB YN DYCHWELYD ADREF.

Bu Bob 'y mrawd dros flwyddyn cyn dychwelyd i Brydain. Pan dorodd Dr. Jameson dros gyffiniau'r Transvaal, yr oedd Bob bron a glanio yn Cape Town. Gorfu iddo aros yn Neheubarth Affrica am fisoedd lawer i wyllo symudiadau gwladweinwyr, ac i ysgrifenu erthyglau i'w bapwr newydd. Enillodd glod mawr iddo ei hun, ac edrychid ar ei ohebiaeth fel cynyrch llafur ac athrylith gwr gonest, synhwyrol, a chraffus. Dyma'r llythyr diweddfaf dderbyniodd Gladys oddiwrtho:—

Cape Town, Dydd Nadolig, 1896.

F'anwyl Gladys,—Nadolig arall yn eithafoedd y byd, heb olwg ar dy wyneb siriol! Ond yr wythnos nesaf, hai lwo! byddaf yn cychwyn adref o'r diwedd. Diolch am dy lythyr doniol diweddfaf;

nis gallaf ddweyd wrthyt gymaint o gysur a diddanwch a sugnais o hono. Ac y mae Rowlands y ciwrat wedi cael bywioliaeth yn mhen isa'r sir! Lwc dda iddo ar ei hynt! Mae'n anhawdd genyf gredu nad yw ef a finau yn hen gyfeillion, er nas gwelais ef erioed. 'Rwy'n teimlo yn gynhes iawn tuag ato, ac yr wyf yn go-beithio y caf gyfle, cyn yr aiff o Lanelwid, i siglo llaw yn galonog ag ef, ac i wel'd y "gwddwg hir" yn gwneyd difrod a'r pwddin yn y Gelli. Os bydd wedi ymadael cyn y cyrhaeddaf gartref, âf bob cam i odreu'r sir i'w wel'd ac i ddiolch iddo am ei nodded a'i amddiffyn i'm chwaer fach yn Lanelwid.

'Rwyt wedi fy synu ynghylch Nat! Wyddost di? Mae arnaf ofn ei gwrdd, rhag cael fy siomi ynddo. Nat yn ddifrifol! Nat yn ditotal! Nat heb ei gellwair a'i rigs! Na, na, chreda i ddim o'r fath beth! Mi fydd arna i ofn tynu mwgyn yn yr un rhwm ag e. Ond pwy feddyliai y byddai yr Hen Binael, ys dywedodd Nat, a Morgans, a Griffith y Coed, a Nanti Jane yn rhoi cam' punt yr un at glirio'r ddyled yn Salem? 'Dyw oes y gwyrthiau ddim wedi darford yn Lanelwid! "Rwy'n credu taw ti, 'r *witch* fach, sydd wrth wraidd y cwbl! Hawdd gallaf gredu fod Mari Jones yn teimlo'n falch fod y capel yn rhydd o'r diwedd. Druan a hi! Mae hi'n siwr o fod yn unig iawn—dim ond hi a'r forwyn ym Mryn Hyfryd, — ac ni fydd Lanelwid yr un i finau hefyd heb Dafi Jones, *poor fellow!*

A beth yw'r secret rhyfedd yr wyt yn gadw hyd nes y cei siarad a mi "wyneb yn wyneb"? Rhywbeth fyddai wedi dy "wneyd yn berffaith ddedwydd oni bai fod Bob 'y mrawd ymhell o gartref"? Aie, wir? O, Sapphira, gochel rhag dy dynged! Faint wyt ti'n feddwl am Bob pan fydd rhywun bach yn galw yn y Gelli? Oni'th welais di'n chwerthin yn llygad Rhywun y nos cyn i mi gychwyn i'r wlad hon?

Fy chwaer, mi fynegaf i ti weledigaeth. Fel yr oeddwn yn myfyrion ar nen y ty yn Pretoria, syrthio a wnaethum i drwmwsg, ac yn fy nghwsg mi a welais weledigaeth. A'r haf ydoedd hi. Ac yn fy mreuddwyd canfyddwn enethig (ei gwynneb oedd mor hawddgar a boreu gwanwyn, a'i llais oedd cyn fwyned a llais mwyalchen), yn rhodio hyd ddolydd meillionog Ystrad Tywi. Ac fel yr oedd yn tramwy hyd y meusydd, canfyddwn laslanc penfelyn yn dynesu ati, ac yn sibrdw geiriau cariadus yn ei chlust. A phan edrychodd yr enethig i fynu, canys geiriau'r gwr ieuanc a wnaethai iddi am ysbaid blygu ei phen, wele! canfu fod yr awyr, oedd gynt yn wag, yn llawn o angylion yn canu, a'r coedydd, oeddynt gynt

wedi eu dilladu â dail, wedi eu britho ag eosiaid a phob rhyw gorau asgellog yn pyncio, nes llanw'r byd a'u hyfrydlais. A phan edrychodd dan ei thraed, wele, blodau y ddaear a ddisgleirient gan lawenydd, a phob glaswelltyn a ddawnsiai mewn gorfoledd! Ac i ba le bynag y tafiai ei golwg, nis gwelai ond angylion ac adar a blodau a gwyrddlesni yn canu ac yn dawnsio. Ac ar y gorwel pell tua'r Dehau hi a welai wr yn canu cerdd priodas, ac yn bendithio'r llanc a'i ddyweddi. A'r enethig a lawenychodd yn ddirfawr, canys ei brawd oedd efe. Ac enw'r enethig oedd Gladys, ac enw y llanc oedd Arthur.

Ond, mewn difrif, Gladys fach, 'rwy'n falch o'm calon dy fod di ac Arthur wedi deall eich gilydd. Pe chwilid y byd, nis gallwn gael neb y cyflwynwn fy chwaer fach i'w ofal gyda llwyrach ymddiriedaeth. Bydd yn dda genyf wybod, ta beth a ddigwydd i mi, fod genyt ddyn glew a gonest i'th ymgeleddu. Am danaf fi, wrth bob argoel, bydd raid i mi fyw am dymhor hir yn grwydryn ar wyneb y ddaear, ac ni chaf fawr o amser o hyn allan i fyw yn Cambridge Mansions. Ni fydd i mi arosfa barhaus yn un lle am flynyddau. Ces lythyr yr wythnos ddiweddaf o'r Swyddfa i'm rhybuddio y bydd yn rhaid i mi fyned allan i'r Dwyrain yn gynar yn y gwanwyn. Lle bynag y bydd cythrwfi ac anrhefn ac ymladd, yno y danfonir fi.

Nis gallaf ddweyd nad wyf yn hoffi'r drychfeddwl o deithio gwledydd y ddaear, ac i weled rhyfeddodau'r byd. Eto ni themlaf fod genyf gartref ond yng Nghymru, ac yn Llanelwid y gobeithiaf orffen fy nyddiau. Nid wyf yn meddwl aros yn alltud hyd nes y gwna henaint a methiant fy ngorddiwes, pryd nas gallaf ond cyflwyno fy nghorff i fy ngwlad. Na: 'rwy'n gobeithio y gallaf neillduo i Lanelwid yng nghryfder fy nerth, nid i ddiogi ac i hepiant, ond i wneyd rhywbeth dros yr hen wlad.

A gaf fi ddweyd wrthyt beth ddymunwn wneyd? Nid oes genyf neb yma i "ddal pen rheswm" ag ef; ac y mae cystal i fi wario fy Nadolig yn ysgrifenu fy nghyfrinach atat ti ag yn siarad ffolineb yn y clwb. Ac y mae i ti berffaith ryddid i chwerrthin am fy mhen fel y gwnest ganwaith o'r blaen yn yr hen amser yn Cambridge Mansions. Wel, nid oes ynof uchelgais am fyned i'r Senedd. Gwn yn rhy dda gyda pha faint o ymdrech y gwneir y peth bach distadlaff yn Neuadd Stephen Sant. Credaf hefyd mai nid eisiau cyfreithiau newyddion y sydd ar Gymru yn gymaint a gweinyddiad deallus a manwl o'r cyfreithiau sydd ganddi. Ac os caf fyw i fyn'd i dreulio rhan o'm dyddiau gweithiol yn

Llanelwid hoffwn fod ar y Cynghor Plwyf, yn dadleu dros gael dwr croew, a digon o oleuni ar hirnos gauaf i'r pentrefwyr, dros gael llyfrgell dda ynglyn a'r Ddarllenfa, yn llawn o lyfrau Cymraeg a Saesneg; dros gael neuadd sirol yn agor bob nos yn y pentref, lle galla'i'r bobl ieuanc gwrdd a'u gilydd, yn lle yn y Red Lion; dros gadw yn agored ac yn ddyogel bob hen lwybr a chomin yn y plwyf. Hoffwn hefyd i gael cyfle i ddadleu hawliau'r Gymraeg ar y Bwrdd Ysgol, ac i wneyd rhywbeth i ataly llif-eiriant Seisnig sydd yn tori dros ben bob gwrthglawdd ac yn ys-gubo pobpeth o'i flaen, gan adael yn fynych dim ond llaid ar ei oll! A phwy a wyr nas gallwn, feallai, rywbyrd, gael fy nanfon i Fwrdd y Gwarcheidwaid a'r Cynghor Dosbarthol, lle gallwn godi fy llef dros ffermwyr a thyddynwyr sydd wedi cael eu gorlwytho'n rhy hir â threthi trymion er mwyn ysgafnhau iau y bonedd? Ac yna, pan fyddo penwyni wedi syrthio arnaf, heb yn wybod i mi, ac os bydd genyf amser i wneyd y gwaith, feallai y cyrhaeddaf gopa uchaf fy ngobeithion—sef eistedd yng Nghyngor y Sir, a helpu i gadw'r heddeidwaid yn eu lle, ac i godi'n uwch yr Ysgolion Canolraddol, lle'r addysgir arweinwyr Cymru Fydd.

Pan fydd diwrnod segur genyf—fel y digwydd yn awr ac yn y man—âf ar bererindod i weled Cymru—nid mewn tren carlamus, nac ar gefn cel-harn buan, ond ar fy nhraed, fel y gallwyf sylwi ar bob blodyn a deilen a dyf ar ochr clawdd, ac y caf hamdden i wrando ar lais pob aderyn yn y coed. Af i weled lleoedd enwog a chartrefi a beddau gwroniaid Cymru Fu. Yma caf weled cartrefe tawel emynydd; acw feddrod bardd awenfawr; ac nis anghofiaf yr ogofâu a'r llanerchau cudd lle bu'n cyndeidiau yn addoli Duw ynghanol stormydd blin a pheryglon lawer. Gwelais eisoes lawer gwlad dramor; gwelaf eto ragor yn y dyfodol. Beth ydynt i mi? Mae un ardal yn brydferthach nag ardal arall, mae mwy yn un i ddenu'r llygad, mwy yn y llall i hudo'r glust, ond nid yw'm henaid yn ymglymu am danynt fel yr ymglyma am aml i lecyn yng Nghymru a gysegrwyd yn oes oesoedd i drigolion y wlad gan draed y rhai fu yn efengylu! Ac ni fydd bywyd ar ei hyd yn ddigon i ddi-hysbyddu dyddordeb Cymro yn y wlad fechan lle y tynodd ei anadl gyntaf ac y derbyniodd yr oll o'i athrylith a'i anianawd.

— Wel, wel mi'th welaf yn chwerrthin er ys meitya, wrth ddarllen fy nychmygion a'm ffolinebau. Yr wyt ti, bid siwr, yn edrych ymlaen at fyw yn Llundain,—ond cofia na fydd Cymru'r un i mi os na ddei di ac Arthur i aros gyda mi bob haf yn Llan-

elwid. A phwy a wyr na fydd Arthur hefyd ryw ddydd yn taffu golwg hiraethlawn ar yr hen ardal, ac yr ymneilldua yntau yn llawn o ddyddiau ac anrhydedd i dreulio hwyrddydd ei fywyd yng ngolwg y Tywi?

— Ond dyma fi, heb fod yn ddeg-ar-hugain oed yn siarad am Arthur, sydd ieuangach na mi, yn ei hen ddyddiau! 'Rwyf wedi gadael i'm dychymyg "redeg bant" a fi, a gwell, gan hyny, tynu fy ysgrif i ben.

Cofia fi'n gynhes, cynhes, at Nanti Jane, a dywed wrthi 'mod i'n dychwelyd yn llwythog o wisgoedd symudliw, na welodd mam Sisera ddim o'u bath, yn bresentau iddi hi a'i ffryndiau. Cofia fi hefyd at Mari Jones ac Arthur, Nat a Sali, a Theophilus a Robin, a Mr Thomas a'r Hen Rinacl, a'r ei a'r gath, a'r ednod a'r ysgrubliaid, a phob creadur sy'n anadlu awyr Llanelwid; a golyga fi byth yn gymeradwy,

BOB DY FRAWD.



## EGLURIADUR.

### A.

**Abal**=cyfoethog.  
**Ambeidus, ymbeidus**=enbydus, dirfawr.  
**Ar bwys**=gerllaw.  
**Ar ger'ed**=ar gerdded, oddicartref.

### B.

**Bant, i bant**=ymaith.  
**Bwdel**=baw.  
**Bwdran**=gruel.  
**Bwci**=bwgan, drychiolaeth.  
**Byngad**=cluster.  
**Bronrhuddyn**=robin goch.

### C.

**C'langeua'**=Calan-Gauaf, Tachwedd 12.  
**C'lame**=Calan-Mai, Mai 12.  
**Cledwair**=lle cedwir y coed i wasanaeth y tŷ.  
**Clôs**=buarth.  
**Clôs**=agos.  
**Celros**=cherries.  
**Croten**=hogen, young girl.  
**Crambolthe**=crampogau, pancakes.  
**Crugyn**=llawer, pile.  
**Crwca**=crooked.  
**Cwmws**=cymhwys, union, straight.  
**Cwrcwt, yn ei chwrcwt**=in her double.

### D. dd.

**Dâl, " 'dos dim dâl "**=there is no dependence.  
**Dansherus**=perygus, dangerous.  
**Dost, gwel tost.**  
**Drych**=golwg, cyflwr.  
**Dyfarú**=edifarhau, regret.  
**Dyrton**=cryd, ague.

### E.

**Ern**=ernes, earnest.

EGLURIADUR.

F. ff.

**Ffolant**=*valentine*.

G.

**Gan bwyll**=yn ara' deg.

**Gwynegu**=gwynio, *pain*.

**Gwynegon**=*rheumatism*.

**Gwaith llaw**=ysgrifen.

H.

**Hala**=danfon.

**Hala arian**=gwario arian.

**Helyg**, "bachan helyg"=*awfu ellow*.

L. ll.

**Laru**=blino.

**Llefain**=crio.

**Lleisio**=crio.

**Los, lodes**=herlodes, merch.

**Loahyn**=*lozenges, sweets*.

**Lwtsh**=cymmysgedd.

M.

**Maes (i maes)**=allan.

**Maes natur**=allan o go.

**Mhoilid**=troi, aredig.

O.

**Obeitu, amboitu**=oddeutu, *about*.

**Oflud**=oerllyd, *chilly*.

**On'se**=oni buasai.

P. ph.

**Penshar**=y rhan fwyaf.

**Peth yfed**=diodydd meddwol.

**Powlo**=cystadlu am gariad merch.

**Pryfo**=tyfu.

**Pwdwr**=*rotten* (weithiau=*lazy*).

**Pwer**=llawer (*power?*).

R. rh.

**Rhan (mewn priodas)**=tynged, *fate*.

**Rhytach gwaith**=gwell gwaith.

**'Rofyn**=oedi.

**Rigan, rigs**=plagio, *tease*.

**Rhibo**=witsio, *bewitch*.

EGLURIADUR.

S.

**Sang-di-fang**=aniben, pendramwnwgl.

**Seiffo**=gwneyd arithmetic, *cipher*.

**Shwd**=sut.

'**Soi**=tan. (**O fore 'soi nos**=o fore hyd nes y nos).

**Spengan**=plagio, *tease*.

**Stansh**=balch.

**Syber**=glanwaith.

T. th.

**Tocyns**=près, *coppers*.


**Tost**=sâl.

**Towlu**=tafu.

Y.

**Ydlan**=*cornyard*.





CAERNARFON :

ARGRAFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN GWMNI'R WASG GENEDLAETHOL  
GYMREIG (CYF.).

